



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government


# Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth

Dogfen Ganllaw Ategol

Gorffennaf 2021

# Cynnwys

- 1** Y canllawiau hyn
- 2** Gorfodi
- 3** Cefndir a chyd-destun
- 8** **Adran 1: Trefniadau Asesu a Diagnosis ar gyfer Awtistiaeth**
- 8** 1.1: Adnabod
- 11** 1.2: Atgyfeirio i wasanaethau asesu awtistiaeth
- 16** 1.3: Llwybrau asesu a diagnosis ar gyfer awtistiaeth
- 17** 1.4: Gwasanaethau asesu a diagnosis ar gyfer awtistiaeth
- 20** 1.5: Y broses asesu a diagnosis
- 22** 1.6: Cymorth yn dilyn diagnosis o awtistiaeth
- 26** **Adran 2: Trefniadau ar gyfer cael gafael ar Wasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
- 26** 2.1: Cael gafael ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol
- 28** 2.2: Eiriolaeth
- 29** 2.3: Gwasanaethau ataliol
- 31** 2.4: Cymhwysra a chyniferydd deallusrwydd (IQ)
- 32** 2.5: Asesu ar gyfer gofal a chymorth awdurdod lleol
- 33** 2.6: Pontio
- 34** 2.7: Asesiadau gofalwyr
- 35** 2.8: Cael gafael ar ofal iechyd
- 40** 2.9: Cymorth mewn sefydliadau diogel
- 43** 2.10: Gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion awtistig
- 45** 2.11: Gwasanaethau i bobl awtistig sydd â chyflyrau sy'n cyd-ddigwydd




**48 Adran 3: Trefniadau ar gyfer Codi Ymwybyddiaeth o Awtistiaeth a Darparu Hyfforddiant**

- 48** 3.1: Hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant
- 53** 3.2: Codi ymwybyddiaeth o awtistiaeth yn y gymuned
- 55** 3.3: Dysgu a datblygu'r gweithlu
- 59** 3.4: Gwasanaethau gofal sylfaenol iechyd
- 60** 3.5: Gwasanaethau gofal cymdeithasol
- 60** 3.6: Sefydliadau addysgol

**65 Adran 4: Trefniadau ar gyfer Cynllunio a Monitro Gwasanaethau ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid**

- 65** 4.1: Aseidiadau poblogaeth
- 65** 4.2: Casglu data ar awtistiaeth
- 66** 4.3: Monitro a gwella gwasanaethau ar gyfer awtistiaeth
- 66** 4.4: Cydymffurfio â'r Cod
- 68** 4.5: Cynnwys rhanddeiliaid awtistiaeth
- 68** 4.6: Rôl hyrwyddwr awtistiaeth rhanbarthol
- 71** Rhestr o dermau



# Y Canllawiau Hyn

Cyhoeddir y canllawiau hyn gan Weinidogion Cymru i gynorthwyo â'r gwaith o ddehongli'r Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth yng Nghymru (y Cod), a baratowyd o dan adran 145 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac adrannau 1 a 2 o Ddeddf y GIG (Cymru) 2006. Bydd y Cod a'r canllawiau hyn yn gymwys o fis Medi 2021.

Bydd y canllawiau hyn yn cefnogi'r gwaith o weithredu blaenoriaethau polisi awtistiaeth Llywodraeth Cymru, a gyhoeddir ar hyn o bryd yn y Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig 2016. Bydd yn rhoi gwybodaeth i awdurdodau lleol a chyrrff iechyd lleol ar lefel ac ystod y gwasanaethau a'r cymorth y disgwylir iddynt eu darparu i bobl awtistig o dan y ddeddfwriaeth bresennol:

- pan fo gan unigolion awtistig anghenion gofal a chymorth cymwys o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Deddf 2014), bydd y canllawiau a'r Codau Ymarfer perthnasol sy'n cyd-fynd â'r Ddeddf hon yn berthnasol
- pan fo gan unigolion awtistig anghenion iechyd o dan Ddeddf y GIG (Cymru) 2006, bydd y canllawiau perthnasol sy'n cyd-fynd â'r Ddeddf hon yn berthnasol.

Mae'r canllawiau hyn yn nodi:

- sut dylai darparwyr gwasanaethau gydymffurfio â'r gofynion a osodir gan y Cod
- sut dylai ymarferwyr ac unigolion gydymffurfio â'r gofynion a osodir gan y Cod.

Mae'r canllawiau hyn wedi'u cynhyrchu drwy ymgysylltu â phobl awtistig, eu cynrychiolwyr, rhanddeiliaid iechyd ac awdurdodau lleol, sefydliadau'r trydydd sector ac adrannau Llywodraeth Cymru. Mae'n cynnwys gwasanaethau sy'n darparu gofal iechyd neu ofal cymdeithasol a chymorth i unigolion awtistig o oedrannau gwahanol ac sydd â dyheadau ac anghenion gwahanol. Mae'n ymwneud yn rhannol â sicrhau bod unigolion awtistig, yn enwedig y rhai mwy agored i niwed, yn cael y gofal cywir i hyrwyddo eu llesiant a'u diogelwch.

# Gorfodi

Mae'r Cod Ymarfer yn cael ei baratoi o dan adran 145 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac adrannau 1 a 2 o Ddeddf y GIG (Cymru) 2006.

Mae'r Cod Ymarfer yn rhoi cyngor a rheolau ynghylch y ffyrdd gorau o weithio wrth ddarparu gwasanaethau i bobl awtistig. Mae'n esbonio sut i ddilyn:

- Deddf GIG Cymru 2006
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014) a'r canllawiau a'r Codau Ymarfer perthnasol sy'n cyd-fynd â'r Ddeddf hon
- Deddf Cydraddoldeb 2010.

Ar lefel genedlaethol, os oes gan Lywodraeth Cymru bryderon difrifol am allu sefydliad i fodloni'r gofynion yn y Cod, mae mecanweithiau wedi'u cynnwys yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ar gyfer ymyrryd a gorfodi. Mae adran 150 yn darparu i Weinidogion Cymru allu ymyrryd os bydd awdurdodau lleol yn methu â chydymffurfio â dyletswydd sy'n swyddogaeth gwasanaethau cymdeithasol, yn gweithredu'n afresymol wrth arfer swyddogaeth gwasanaethau cymdeithasol, neu'n methu â chyflawni swyddogaeth gwasanaethau cymdeithasol i safon ddigonol. Yna, mae darpariaeth ar gyfer cyflwyno hysbysiad rhybuddio a chymryd camau gorfodi pellach gan Weinidogion Cymru yn erbyn awdurdod lleol.

Yn yr un modd, o dan Ddeddf GIG (Cymru) 2006, mae darpariaeth i wneud gorchymyn ymyrryd ac i gamau pellach gael eu cymryd os nad yw bwrdd iechyd lleol yn cyflawni un neu ragor o'i swyddogaethau'n ddigonol neu o gwbl, neu fod methiannau sylweddol yn y ffordd y mae'r corff yn cael ei redeg, a bod Gweinidogion Cymru yn fodlon ei bod yn briodol iddynt ymyrryd.

Gall Llywodraeth Cymru gymryd camau o dan y Deddfau hyn ac mae wedi cymryd camau o dan y Deddfau hyn i'w gwneud yn ofynnol i gyrff statudol adolygu a gwella gwasanaethau y gwelir eu bod yn anfodhaol.

Mae rhagor o fanylion am y dulliau gorfodi i sicrhau bod y Cod yn cael ei weithredu'n llwyddiannus ar gael yn adran 4, sy'n trafod Monitro Gwasanaethau.

# Cefndir a chyd-destun

## Terminoleg

Trwy'r canllawiau, fel yn y strategaeth, mae'r term "awtistiaeth" yn cael ei ddefnyddio fel term ymbarél ar gyfer pob cyflwr ar y sbectrwm awtistiaeth. Mae gan lawer o bobl awtistig namau cudd cysylltiedig hefyd megis anhwylder diffyg canolbwytio a gorfywiogrwydd, dyspracsia, dyslecsia, dyscalculia a namau iaith yn ogystal â chyflyrau iechyd meddwl cysylltiedig a namau cysylltiedig.

Bydd y canllawiau hyn yn cyfeirio at y canlynol fel diffiniad o awtistiaeth:

"Defnyddir y term cyflwr ar y sbectrwm awtistiaeth (ASC) i ddisgrifio grŵp o symptomau niwroddatblygiadol cymhleth, sy'n amrywio o ran eu difrifoldeb. Y nodweddion yw heriau o ran rhyngweithio cymdeithasol a chyfathrebu, a phatrymau cyfyngedig neu ailadroddus o ymddygiad, meddyliau a theimladau synhwyrdd".

## Y Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig

Cafodd y Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig 2008 ei ddiweddarau ym mis Tachwedd 2016, gyda chynllun cyflawni cysylltiedig a oedd yn amlinellu'r camau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru a phartneriaid yn eu cymryd i wella gwasanaethau awtistiaeth yng Nghymru. Amlinellir y cynnydd mewn adroddiad blynyddol a gyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth Cymru.

## Gwasanaethau Niwroddatblygiadol Plant a Phobl Ifanc

Mae gan bob bwrdd iechyd wasanaethau asesu a diagnosis niwroddatblygiadol ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae yna lwybr y cytunwyd arno'n genedlaethol, y mae pob un o'r saith rhanbarth wedi cytuno arno.

Mae gwelliannau ar gyfer gwasanaethau niwroddatblygiadol i blant a phobl ifanc yn cael eu datblygu fel rhan o raglen Gyda'n Gilydd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc 2 (T4CYP2). Mae'r rhaglen hon yn gwella gwasanaethau asesu a diagnostig ar gyfer pob cyflwr niwroddatblygiadol ac mae gwasanaethau'n cael eu cysylltu ar lefel leol i sicrhau bod perthynas gref â'r IAS. Rydym yn chwilio am ffyrdd o sicrhau cwlwm agosach rhwng y gwasanaethaethau hyn yn y tymor hwy.

## Diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol

Er mwyn gwella'r cymorth addysgol i blant a phobl ifanc hyd at 25 oed, mae ein gwaith i ddiwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol, a ategir gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, yn cyflwyno system newydd sy'n canolbwyntio ar sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc sydd angen cymorth, gan gynnwys dysgwyr awtistig, yn cael y cymorth hwnnw wedi'i gynllunio a'i ddiogelu'n briodol, a bydd ganddo gynllun statudol â hawliau cyfartal i apelio. Mae'r Ddeddf yn rhoi dysgwyr wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau. Er ei fod yn ymestyn i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc awtistig, nid yw'n gwahaniaethu rhwng anghenion dysgu ychwanegol gwahanol gan ei fod yn ceisio sicrhau bod yr holl anghenion yn cael eu diwallu'n deg ac yn gynhwysfawr.

## Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal

Mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) yn gorff a gydnabyddir yn eang sy'n darparu cyngor a gwybodaeth awdurdodol ar amrywiaeth o faterion iechyd. Yn y blynyddoedd diwethaf mae NICE wedi cynhyrchu sawl canllaw ar roi diagnosis o awtistiaeth a rheoli awtistiaeth. Diben canllawiau NICE yw llywio a mesur gwelliannau o ran ansawdd a disgrifio sut beth yw gwasanaeth da. Dylai byrddau iechyd ac awdurdodau lleol ystyried y canllawiau wrth gynllunio gwasanaethau awtistiaeth gan mai'r rhain yw'r meincnod cyffredin o'r hyn y dylai gwasanaethau da geisio ei ddarparu.

## Mynediad cyfartal

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswyddau clir ar gyfrif y sector cyhoeddus i atal gwahaniaethu a hyrwyddo cydraddoldeb i bobl â Nodweddion Gwarchoddedig penodol. Y rhain yw - oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gredo, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth. Mae dyletswyddau penodol yn ymwneud â darparu addasiadau rhesymol ar gyfer pobl anabl, gan gynnwys pobl awtistig, i'w helpu i gael gafael ar y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. Caiff y dyletswyddau hyn eu hail-orfodi drwy Ddeddf 2014 a Deddf y GIG.

## Egwyddorion a Chonfensiynau a Chyfamodau'r Cenhedloedd Unedig

Mae'r Cod hwn yn cefnogi Egwyddorion, Chonfensiynau a Chyfamodau'r Cenhedloedd Unedig fel y'u nodir yng Nghod Ymarfer Rhan 2 Deddf 2014. Mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio â Llywodraeth y DU i sicrhau bod Cymru'n cael ei chynrychioli'n llawn wrth gyflwyno adroddiadau rhyngwladol. Mae hefyd yn sicrhau ein bod yn cyflawni ein rhwymedigaethau o ran hawliau dynol. Mae plaid Gwladwriaeth y DU wedi llofnodi a chadarnhau Confensiynau a Chyfamodau canlynol y Cenhedloedd Unedig:

- Y Cyfamod ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol
- Y Cyfamod ar Hawliau Sifil a Gwleidyddol
- Y Confensiwn ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu Hiliol
- Y Confensiwn ar Hawliau Pobl Anabl
- Y Confensiwn ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod

- Y Confensiwn yn erbyn Artaitth
- Y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn.

## Menywod ac awtistiaeth

Yn hanesyddol mae cyfradd ddiagnosis awtistiaeth ymysg merched a menywod wedi bod yn is o lawer nag ar gyfer bechgyn a dynion. Er bod yr ymchwil yn gyfyngedig, mae tystiolaeth a thystiolaeth glinigol anecdotaidd yn awgrymu bod y gwahaniaeth mewn cyfraddau diagnostig yn cael ei achosi gan nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys y ffordd y mae merched a menywod yn cyflwyno eu hunain - yn aml maent yn well am guddio ymddygiad drwy arsylwi ar eraill o'u hamgylch a'u dynwared. Awgrymir hefyd fod adnoddau diagnostig safonol wedi'u teilwra'n fwy tuag at adnabod awtistiaeth glasurol a welir yn fwy cyffredin ymhlith bechgyn a dynion, tra gall arwyddion awtistiaeth ymysg merched a menywod fod yn fwy cynnil gan ei gwneud yn anos gwneud diagnosis. Mae'n bwysig bod gweithwyr proffesiynol yn deall sut gall merched a menywod gyflwyno awtistiaeth yn wahanol a bod eu hanghenion cymorth yn gallu bod yn wahanol. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd merched fel pe baent yn gallu cynnal perthnasoedd cymdeithasol yn well ond eu bod mewn gwirionedd yn dioddef blinder llethol wrth geisio addasu eu hymddygiad eu hunain i adlewyrchu ymddygiad pobl eraill a'r hyn a ystyrir yn fwy derbyniol. Yn ogystal, mae cerrig milltir bywyd pwysig pan allai fod angen mwy o gymorth unigol ar fenywod, megis yn ystod y glasod a beichiogrwydd.

## Hunaniaeth o ran rhywedd

Mae mwy a mwy o lenyddiaeth sy'n cysylltu awtistiaeth â hunaniaeth/dysfforia o ran rhywedd, gyda nifer uwch o bobl awtistig yn dweud bod eu bod yn uniaethu'n seicolegol â rhywedd gwahanol i'r un y cawsant eu geni ag ef. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod yr angen i wella gwasanaethau hunaniaeth o ran rhywedd yng Nghymru ac wedi sefydlu Grŵp Partneriaeth Hunaniaeth o ran Rhywedd Cymru er mwyn rhoi cyngor. Mae Tîm Rhywedd Cymru<sup>1</sup> is based in St David's Hospital in Cardiff.

## Pobl awtistig o gymunedau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, gan gynnwys ceiswyr lloches a ffoaduriaid

Gall pobl awtistig o gymunedau ethnig leiafrifol neu sy'n geiswyr lloches a ffoaduriaid a'u rhieni a gofalwyr wynebu heriau ychwanegol wrth gael gafael ar wasanaethau a chymorth. Yn yr adroddiad *Diverse perspectives: The challenges for families affected by autism from Black, Asian and Minority Ethnic communities* (2014) tynnodd Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth sylw at yr anawsterau y gall pobl awtistig sy'n byw mewn cymunedau ethnig leiafrifol eu hwynebu. Yn gyffredinol, maent yn cael yr un anawsterau wrth geisio cael gafael ar wasanaethau a chymorth â rhannau eraill o'r gymuned ond mae ffactorau megis safbwyntiau diwylliannol ar anabledd mewn rhai cymunedau yn gwaethygu pethau. Mewn rhai grwpiau gall fod stigma difrifol ynghlwm wrth gael plentyn anabl, a dywedodd rhieni iddynt brofi teimladau o gywilydd wrth i'r gymuned eu beio am ymddygiad gwael canfyddedig eu plant awtistig ac roedd y cymunedau'n aml yn ceisio dod o hyd i wellhad. Gallai rhagdybiaethau a rhagfarnau diwylliannol gael effaith negyddol hefyd, er enghraifft, bechgyn du yn cael eu hystyried yn fwy tebygol o fod yn aflonyddgar ac anawsterau iaith yn cael eu priodoli'n anghywir i blentyn sy'n siarad Saesneg fel ei ail iaith. Dylai darparwyr gwasanaethau fod yn ymwybodol y gall gwahaniaethau diwylliannol gael effaith ar sut mae pobl awtistig yn cael eu gweld a'u cefnogi ac addasu eu hymarfer i gydnabod y gwahaniaethau hyn.

<sup>1</sup> <http://www.genderidentity.wales.nhs.uk/all-wales-gender-identity-group>



## Gwasanaethau Cymraeg

Dylai byrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu cynnwys yn y gwaith cynllunio a chyflenwi a bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu cynnig i siaradwyr Cymraeg awtistig, heb iddynt orfod gofyn amdanynt. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Fframwaith Strategol<sup>2</sup> ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol. Mae angen i ymarferwyr gydnabod y gall rhai plant a phobl ddewis siarad Cymraeg fel eu dewis iaith ac y bydd hyn yn effeithio ar ganlyniadau asesiadau a gynhelir drwy gyfrwng y Saesneg.

## Cwynion

Mae'r cod ymarfer hwn yn nodi disgwyliadau Llywodraeth Cymru ynglŷn â chynllunio a chyflenwi gwasanaethau awtistiaeth gan awdurdodau lleol a chyrrff iechyd yng Nghymru. Gall fod adegau pan fydd unigolion, gan gynnwys plant a phobl ifanc, yn anghytuno â phenderfyniadau a wneir am yr ystod o wasanaethau sydd ar gael yn eu hardaloedd lleol. Felly, rhaid i wybodaeth am gwynion fod ar gael mewn fformat sy'n hygyrch i bawb.

Pan fydd anghytundeb yn codi, dylai unigolion godi eu pryderon yn uniongyrchol gyda'r awdurdod lleol neu'r corff iechyd yn lleol yn y lle cyntaf, ac os na ellir dod i gytundeb yn gyflym, bydd gan bob sefydliad weithdrefnau cwyno ffurfiol. Mae'n ofynnol i bob awdurdod gyhoeddi gwybodaeth am ei broses gwyno, a dylai hwn fod ar gael ar wefan pob sefydliad.

Yn unol â'r canllawiau statudol ar gyfer darparwyr gwasanaethau cyhoeddus, nid apeliadau yn erbyn penderfyniadau sy'n cael eu wneud yn briodol yw cwynion, ond llwybr i unigolion allu mynegi anfodlonrwydd neu bryder am ddiffyg gweithredu darparwyr gwasanaethau neu safon y gwasanaeth a ddarperir

Os bydd achwynwyr yn parhau i fod yn anfodlon neu'n pryderu am ganlyniad ymchwiliad gan awdurdod lleol neu fwrdd iechyd, yna byddant yn cael troi at swyddfa'r Ombudsmon Gwasanaethau Cyhoeddus<sup>3</sup> i gael asesiad o'u cwyn.

---


2 <https://llyw.cymru/iechyd-a-gofal-cymdeithasol>

3 <https://www.ombudsman.wales/complaints>

# Adran 1



Trefniadau Asesu  
Diagnosis ar gyfer  
Awtistiaeth



## Mae'r adran hon yn disgrifio'r trefniadau ar gyfer:

- 1.1 Adnabod
- 1.2 Atgyfeirio i wasanaethau asesu awtistiaeth
- 1.3 Llwybrau asesu a diagnosis
- 1.4 Gwasanaethau asesu a diagnosis
- 1.5 Y broses asesu a diagnosis
- 1.6 Cymorth yn dilyn diagnosis o awtistiaeth.

### 1.1 Adnabod

Mae cyflwr ar y sbectrwm awtistig (ASC) yn anabledd datblygiadol sy'n effeithio ar y ffordd y mae pobl yn cyfathrebu, yn ymddwyn, neu'n rhyngweithio ag eraill. Efallai y bydd gan rai pobl nodweddion amlwg iawn, eraill ddim. Y llinyn cyffredin yw gwahaniaethau mewn sgiliau cymdeithasol, cyfathrebu ac ymddygiad o'u cymharu â phobl nad ydynt ar y sbectrwm. Mewn merched, gall y nodweddion a gyflwynir fod yn gynnil iawn, sy'n ei gwneud hi'n anoddach adnabod yr arwyddion<sup>4</sup> oherwydd gall merched a menywod fod yn dda am gelu symptomau a chuddio'r cyflwr oddi wrth ffrindiau, teulu, a gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd yn arbennig.

Gall diagnosis fod yn gam pwysig er mwyn sicrhau bod cymorth yn ystyried sut mae awtistiaeth pobl yn effeithio arnyn nhw a'u teulu, yn ogystal ag ar y ffordd maen nhw'n cyfranogi mewn dysgu, cyflogaeth neu weithgareddau eraill. Efallai na fydd angen rhagor o gymorth ar rai pobl yr amheuir bod ganddynt awtistiaeth. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu na ddylent allu cael diagnosis. I rai pobl, gall cadarnhau diagnosis o awtistiaeth fod yn eithriadol o bwysig, a gall eu helpu i osgoi'r angen am gymorth mwy dwys maes o law, er enghraifft, os byddant yn cyrraedd sefyllfa o argyfwng, yn arddangos ymddygiad a all fod yn heriol, neu os oes ganddynt wahaniaethau cyfathrebu.

Dylai pob aelod o staff sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant, pobl ifanc neu oedolion ymgymryd â hyfforddiant ymwybyddiaeth. Gall deall arwyddion<sup>5</sup> adnabod posibl helpu i hwyluso atgyfeiriadau ar gyfer diagnosis. Gall oedolion, rhieni/gofalwyr sydd â phryderon sylweddol sy'n cyfateb i'r arwyddion<sup>6</sup> wneud atgyfeiriadau hefyd. Mae ymchwil gan Brifysgol Caerdydd wedi arwain at greu signs<sup>7</sup> - ffordd i weithwyr proffesiynol rheng flaen adnabod a deall y gwahanol fathau o ymddygiad mewn plant awtistig. Dyma'r arwyddion:

Gwahaniaethau neu anawsterau o ran:

- S** = Rhyngweithio cymdeithasol a chyfathrebu geiriol
- I** = Dychymyg
- G** = Ystumiau neu gyfathrebu dieiriau
- N** = Ystod gul o ddiddordebau, arferion ac ymddygiad ailadroddus
- S** = Ymatebion synhwyraidd

4 <https://autismwales.org/cy/gwasanaethau-cymunedol/rwyn-gweithio-gyda-phlant-ym-maes-iechyd-a-gofal-cymdeithasol/y-parti-pen-blwydd/>

5 [https://autismwales.org/wp-content/uploads/2020/09/asd-a4-poster\\_children\\_adolescents\\_welsh.pdf](https://autismwales.org/wp-content/uploads/2020/09/asd-a4-poster_children_adolescents_welsh.pdf)

6 [https://autismwales.org/wp-content/uploads/2020/09/asd-a4-poster\\_older\\_adolescents\\_adults\\_welsh.pdf](https://autismwales.org/wp-content/uploads/2020/09/asd-a4-poster_older_adolescents_adults_welsh.pdf)

7 <https://www.cardiff.ac.uk/cy/psychology/research/impact/birthday-party-a-film-about-the-signs-of-autism-in-children>

Gall yr arwyddion hyn ddangos eu hunain yn wahanol yn ôl oedran, rhyw, tymer, arddull gymdeithasol a lefel gallu plentyn neu oedolyn, fel a ganlyn:

### **S = Gall ymddygiadau Rhyngweithio Cymdeithasol gynnwys:**

- Osgoi rhyngweithio cymdeithasol â phlant eraill, neu bod y rhyngweithio yn anarferol mewn rhyw ffordd.
- Ychydig o gyfathrebu, neu mae'r cyfathrebu'n unochrog neu'n anghonfensiynol
- Llai o ymwybyddiaeth o deimladau pobl eraill NEU adwaith anarferol i'r teimladau hynny.

### **I = Gall ymddygiadau dychmyg gynnwys:**

- Yn ystod plentyndod, peidio â chwarae gyda theganau, doliau, gwrthrychau fel pe baent yn bethau go iawn (chwarae dychmygu)
- Yn ystod plentyndod, chwarae dychmygus sydd weithiau'n ailadroddus iawn a/neu'n cael ei wneud gan y plentyn ar ei ben ei hun
- Ym mhob oed, gwneud gweithgareddau dychmygus gyda phobl eraill heb rannu syniadau creadigol yn gyfartal.

### **G = Gall ymddygiad ystumiol gynnwys:**

- Defnyddio ystumiau yn anaml.
- Defnyddir ystumiau ond nid yn ddigymell, a gallant fod yn anaeddfed neu'n amhriodol.
- Llai o gydgysylltu ystumiau â mathau eraill o gyfathrebu.

### **N = Gall ymddygiadau a diddordebau cul gynnwys:**

- Ystod gul o ddiddordebau hunan-ddewisol.
- Dibyniaeth ar arferion, a ddim yn hoffi newidiadau,
- Ymddygiadau echddygol ailadroddus.
- Mynnu bwyta amrywiaeth bach o fwydydd yn unig.

### **S = Gall ymddygiadau a diddordebau synhwyaidd gynnwys:**

- Sensitifrwydd uchel i synau, golau, cyffyrddiad, arogl neu flas
- Ymddygiad sy'n osgoi elfennau synhwyaidd.
- Diddordeb anarferol yn yr elfennau synhwyaidd mewn gwrthrychau
- Diffyg adwaith ac ymateb synhwyaidd (e.e. i boen, tymheredd, sain).

## Astudiaeth achos: 1

Roedd fy mab yn 20 mis oed ac yn bodloni ei holl gerrig milltir datblygiadol. Ar ôl iddo orfod mynd i'r ysbyty am feirws anhysbys sylwais ar rai newidiadau sylweddol megis colli iaith, colli gallu corfforol a diffyg cyswllt llygad wrth chwarae. Siaradais â'm hymwelydd iechyd, a aeth ati i gynnal gwiriadau datblygiadol, arsylwi ar fy mab a chasglu gwybodaeth gan y teulu. Cafodd ei gyfeirio at gyswllt yn y tîm niwroddatblygiadol. Yna cafodd ei asesu gan dîm amlddisgyblaethol - pediatregydd, lleferydd ac iaith, therapydd galwedigaethol a seicolegydd addysg. Cafodd ddiagnosis o awtistiaeth yn 2 a hanner oed.

## Astudiaeth achos: 2

Roeddwn i'n amau'n aml fod gen i o bosibl nodweddion awtistig ond roeddwn i'n gallu gweithio'n dda ar brydiau. Fodd bynnag, ar ôl rhai profiadau anodd ac anhawster gyda phryder, yn enwedig yn y gwaith, er fy mod yn gyndyn o wneud, penderfynais droi at y system iechyd meddwl, a chefais ddiagnosis gweithio o anhwylder deubegynol. Ond doedd hyn ddim wir yn taro deuddeg ac ar ôl chwalfa arall na allwn ei phriodoli i gyfnod "uchel" neu "isel" ac ar ôl gwyllo ambell raglen ddogfen am awtistiaeth y medrwn uniaethu â hi, penderfynais sôn wrth y tîm iechyd meddwl fy mod i'n meddwl fy mod i'n awtistig.

I ddechrau, roedd y seiciatrydd yn anghytuno â'm hasesiad ac yn gyndyn o wneud atgyfeiriad. Soniodd y gallai fy anawsterau fod oherwydd anhwylder seiciatrig arall, a oedd yn llai tebygol na'r anhwylder deubegynol yn fy marn i. Roeddwn i'n benderfynol iawn a gwnaed yr atgyfeiriad i'r IAS. Ar ôl aros, cefais fy asesu a chefais ddiagnosis o awtistiaeth yn 40 oed. Yna dechreuodd y broses hir o ddygymod â'r diagnosis ac ailasesu fy mywyd cyfan drwy'r lens newydd hwn.

## 1.2 Referral to Autism Assessment Services

Mae llwybr atgyfeirio awtistiaeth yn gyfres o weithredoedd neu gamau a gymerir ar ôl nodi bod gan unigolyn y potensial i gael diagnosis o awtistiaeth. Mae llwybrau atgyfeirio cenedlaethol ar gael sy'n seiliedig ar ganllawiau arfer gorau NICE. Bwriad y rhain yw sicrhau bod yr unigolyn yn cael ei weld gan y bobl iawn ar yr adeg iawn. Gellir atgyfeirio at wasanaethau asesu a diagnostig drwy wahanol llwybrau.

### Plant

Ar gyfer plant cyn-ysgol; gellir atgyfeirio achosion drwy'r Llwybr Cyn-ysgol gan:

- ymwelydd lechyd
- meddyg teulu
- therapydd
- baediatregydd a'u cyfeirio at y Paediatregydd Cymunedol.

Ar gyfer plant sy'n mynychu'r ysgol (gan gynnwys disgyblion meithrin) dylid gwneud yr atgyfeiriad drwy'r:

- Llwybr Asesu Oedran Ysgol
- hunanatgyfeirio ar gyfer plant hŷn neu gan rieni ar gyfer plant iau - mae timau niwroddatblygiadol yn dweud eu bod yn derbyn hunanatgyfeiriadau. Fodd bynnag, maen nhw'n awyddus i dynnu sylw at y ffaith bod yr atgyfeiriadau hyn yn cael eu hystyried fesul achos oherwydd bod coladu'r wybodaeth yn anodd i unigolion ac mae cael mynediad at rai cofnodion ar gyfer unigolion yn feichus ac yn cymryd llawer o amser.

### Oedolion

- Meddygon teulu.
- Ymarferwyr meddygol ar gyfer cyflyrau eraill sydd eisoes wedi cael diagnosis ac yn derbyn triniaeth.
- Timau gofal cymdeithasol.
- Hunanatgyfeirio i'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig.

Mae'n bwysig bod cymaint â phosibl o wybodaeth berthnasol yn cael ei chasglu yn yr atgyfeiriad er mwyn sicrhau y gellir gwneud penderfyniadau gwybodus mewn modd amserol. Mae'r penderfyniadau i dderbyn plentyn ar gyfer asesiad yn seiliedig ar ddarparu gwybodaeth berthnasol a chlr.

# Angen canfyddadwy

Holi am arwyddion a symptomau, gan ystyried:

- Amrediad
- Nifer
- Difrifoldeb
- Parhad
- Treiddiol
- Effaith

Hefyd rhwch ystyried i:

- Lefel pryder rieniol
- Unrhyw ffactor risg ynglyn a Awtisiaeth

Adlithro iaith neu sgiliau cymdeithasol heb olli sgiliau sismud mewn plenty o dan 3 mlwydd oed

OES

Cyfeirio am asesiadau Awtistiaeth

Dim adlithro mewn sgiliau iaith neu sgiliau cymdeithasol

Digon o arwyddion a symptomau wedi nodi i cyfeirio am asesiad?

OES

Rhieni o hyd yn pryderu?

Adlithro mewn sgiliau iaith mewn plenty dros 3 mlwydd oed


Cyfeirio at feddyg paediatreg neu niwrolegydd paediatreg am farn gychwynnol

NA

Dechrau cyfnod o wyllo

# Enghraifft: Llwybr Atgyfeirio Plant

Rhaid cael caniatâd rhieni/gwarcheidwaid cyn gwneud atgyfeiriadau.





Dylai atgyfeiriadau ar gyfer<sup>8</sup> gynnwys gwybodaeth am:

- ysgolion neu gylchoedd chwarae mae'r plentyn yn eu mynychu
- unrhyw feddyginiaeth / cyflyrau meddygol sydd wedi cael diagnosis / ymchwiliadau cyfredol
- dull cyfathrebu – geiriol, dieiriau
- unrhyw asiantaethau sydd eisoes yn ymwneud â'r plentyn - dechrau'n deg
- unrhyw risg iechyd sy'n gysylltiedig â'r teulu
- meysydd lle mae gwahaniaethau:
  - » cyflawni cerrig milltir
  - » bwydo / llyncu
  - » sylw / gwrando
  - » rhyngweithio / chwarae
  - » deall / defnyddio iaith lafar / synau lleferydd
  - » eistedd heb gymorth / cynhyrfu pan mae'n cael ei symud
  - » cymhlethdodau resbiradol / heintiau mynych ar y frest
  - » offer sydd ei angen
  - » gwahaniaethau synhwyrdd - anoddefiad bwyd, blas ac ansawdd, sŵn, cyffyrddiad, symudiad
  - » sgiliau echddygol - llawysgrifen, cyllyll a ffyrç
  - » sgiliau echddygol bras - neidio ar un goes, sgipio, cropian, cydbwyso, neidio
  - » sgiliau canfyddiadol - ymwybyddiaeth ofodol o'r corff, adnabod chwith a'r dde, i fyny ac i lawr, y tu cefn a'r tu blaen
  - » gweithgareddau bywyd bob dydd - gwisgo, dadwisgo, bwyta, defnyddio'r toiled yn annibynnol
  - » unrhyw asesiadau.

## Oedolion ifanc<sup>9</sup>

Efallai y bydd angen i oedolion ifanc gael cyfuniad o ddulliau gweithredu oedolion/plant a all gael eu hwyluso gan yr IAS. Cytunir ar hyn yn lleol ym mhob rhanbarth rhwng yr IAS a gwasanaethau niwroddatblygiadol. Ar hyn o bryd, yr oedran atgyfeirio i IAs er mwyn ymuno â'r rhestr aros yw 17 a 9 mis. Yn y rhan fwyaf o ardaloedd mae'r tîm niwroddatblygiadol naill ai'n hwyluso'r atgyfeiriad er mwyn iddo gael ei weld cyn gynted â phosibl neu'n gweithio gyda'r person y tu hwnt i'w ben-blwydd yn 18 oed.

Mae'n bwysig hefyd bod plant ac oedolion ifanc, ar y pryd hwn yn cael mynediad at gefnogaeth wrth aros am ddiagnosis. Mae hyn yn unol a'r dull Dim Drws Anghywir, lle sicrhau mai diwallu anghenion y plenty / oedolion ifanc yw'r prif breder ac nid y diagnosis.

8 <https://autismwales.org/cy/gwasanaethau-cymunedol/rwyn-gweithio-gyda-phlant-ym-maes-iechyd-a-gofal-cymdeithasol/pecyn-cymorth-clinigwyr-plant/>

9 [https://autismwales.org/wp-content/uploads/2020/09/asd-a4-poster\\_children\\_adolescents.pdf](https://autismwales.org/wp-content/uploads/2020/09/asd-a4-poster_children_adolescents.pdf)

## Oedolion<sup>10</sup>

- Rhyngweithio cymdeithasol a chyfathrebu geiriol – defnyddio/deall iaith, diffyg diddordeb mewn rhyngweithio cymdeithasol, anhawster gyda chyfathrebu cymdeithasol, perthnasoedd, cyfeillgarwch, ymwybyddiaeth/ymateb i deimladau pobl eraill
- Dychmyg, syniadau a chreadigrwydd – diffyg chwarae smalio fel plentyn, gweithgareddau dychmygol unigol, diffyg cynhyrchu neu rannu syniadau creadigol, anallu i weld canlyniadau gweithredoedd, disgwyladau, bwriad pobl eraill.
- Ystumiau a chyfathrebu dieiriau - ddim yn pwyntio llawer at wrthrychau, ystumiau â diffyg naturioldeb neu briodoldeb, yn enwedig ystumiau sy'n mynegi emosiwn, mynegiant yr wyneb, goslef y llais, cyswllt llygad, iaith y corff, agosrwydd.
- Ystod gul o ddiddordebau, arferion ac ymddygiad ailadroddus – trefnu gwrthrychau mewn patrymau, ymddygiadau echddygol ailadroddus (fflapio dwylo, troelli), arferion/defodau ailadroddus, gorganolbwytio ar ddiddordebau.
- Ymatebion synhwyrdd – sensitifrwydd neu osgoi synwriadau penodol (golwg, synau, cyffyrddiad, arogl neu flas), chwilio am synwriadau synhwyrdd yn anarferol, llai o ymateb synhwyrdd i boen neu dymheredd.
- Problemau gyda chyflogaeth, perthnasoedd.
- Hanes niwroddatblygiadol, iechyd meddwl.
- Hysbys i wasanaethau eraill – gofal cymdeithasol.
- Hanes o gyflwr ar y sbectrwm awtistiaeth yn y teulu.

## Enghraifft

Ar hyn o bryd mewn rhai ardaloedd, gall pobl ifanc dros 16 oed neu rieni plant iau gwblhau'r atgyfeiriad a'i anfon at y tîm niwroddatblygiadol. Cynigir cymorth i'r person ifanc a'r rhiant yn y sefyllfa hon, dros y ffôn neu drwy'r e-bost. Maen nhw'n cael eu hannog i gael cymorth gan eraill sy'n eu hadnabod yn dda oherwydd bydd y tîm niwroddatblygiad angen gwybodaeth nad ydynt wedi'i chael yn barod, e.e. adroddiadau ysgol, argymhelliad meddyg teulu, gweithiwr proffesiynol. Byddai pobl ifanc yn cael eu hannog hefyd i gynnwys eu rhieni yn y broses, os nad oeddent eisoes wedi trafod hyn gyda nhw.

Dylai hunanatgyfeirio i'r gwasanaeth **IAS** oedolion gynnwys:

- gwybodaeth gan unrhyw weithwyr proffesiynol sydd eisoes ynghlwm
- gwybodaeth gan unrhyw wasanaethau sydd eisoes ynghlwm
- beth fyddai diagnosis<sup>11</sup> yn ei olygu i'r unigolyn
- hanes datblygiad

<sup>10</sup> [https://autismwales.org/wp-content/uploads/2020/09/asd-a4-poster\\_older\\_adolescents\\_adults.pdf](https://autismwales.org/wp-content/uploads/2020/09/asd-a4-poster_older_adolescents_adults.pdf)

<sup>11</sup> <https://www.autism.org.uk/advice-and-guidance/topics/diagnosis>

- rhyngweithio cymdeithasol – perthnasoedd, rheoli emosiynau, deall emosiynau pobl eraill, deall normau cymdeithasol
- cyfathrebu – lleferydd anarferol, lleferydd ailadroddus, cyswllt llygad anarferol, anhawster deall (cymryd pethau'n llythrennol)
- ymddygiad ailadroddus/cyfyngedig – canolbwyntio'n ddwys ar ddiddordebau, ddim yn hoffi newid, meddwl yn anhyblyg, ymddygiad ailadroddus neu ddefodau, glynu wrth reolau
- anawsterau synhwyrdd – ansawdd, bwydydd, blasau, arogleuon, sŵn, rheoli tymheredd, cynhyrfu gyda symbyliadau synhwyrdd
- anawsterau cyflogaeth – cadw swyddi
- unrhyw risgiau teuluol i awtistiaeth.

Mae taflenni gwybodaeth ar amrywiaeth o bynciau ar gael ar wefan y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol<sup>12</sup>.

### 1.3 Llwybrau asesu a diagnosis ar gyfer awtistiaeth

Pan fydd atgyfeiriad wedi'i wneud a'r unigolyn yn cael ei dderbyn i'w asesu, rhaid sicrhau bod yr unigolyn yn ymwybodol o'r broses a'r siwrnai ar gyfer asesiad. Ar gyfer plant a phobl ifanc dylai hyn fod mewn fformat sy'n addas i'w hoedran a'u haeddfedrwydd, i'w helpu i ddeall a chymryd rhan mewn trafodaethau sy'n effeithio arnynt. Mae canllawiau NICE yn nodi disgwyliadau clir o ran sut dylid trefnu gwasanaethau lleol a datblygu llwybrau.

Dylai fod gan bob rhanbarth yng Nghymru rôl arweiniol ddynodedig (**gweler Adran 4.6**) sicrhau bod llwybrau cenedlaethol a chynlluniau gweithredu lleol yn cael eu sefydlu a'u cynnal mewn partneriaeth â phobl awtistig, eu teuluoedd neu eu gofalmwr, er mwyn cynnal safonau cyson a hyrwyddo gwelliant pellach. Bydd hyn yn sicrhau bod anghenion awtistiaeth plentyn, person ifanc neu oedolyn ac anghenion eu teulu/gofalmwr yn rhan ganolog o'r llwybr.

#### Rol Swyddog Arweiniol Awtistiaeth Awdurdod Lleol

Yn y cynllun gweithredu strategol cyntaf ar awtistiaeth a gyhoeddwyd yn 2008, crëwyd seilwaith awdurdod lleol, a gefnogwyd gan arian Llywodraeth Cymru sydd bellach wedi'i gynnwys yn grant cymorth refeniw blynyddol cyffredinol awdurdodau lleol. Mae'r seilwaith hwn wedi helpu i gymryd camau yn lleol fel y'u nodwyd yn y Cynllun Gweithredu Strategol. Mae gan bob un o'r 22 o ardaloedd awdurdod lleol yng Nghymru Gynllun Gweithredu Lleol ar awtistiaeth a gaiff ei ddatblygu, ei weithredu a'i adolygu gan grŵp rhanddeiliaid lleol. Yn ogystal, mae gan bob awdurdod lleol Swyddog Arweiniol gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig (ASD).

Mae rôl y Swyddog Arweiniol ASD yn ganolog i ddarparu gwasanaethau awtistiaeth ar lefel leol, drwy ddwyn gweithwyr proffesiynol ynghyd i gydweithio mewn ardaloedd awdurdod leol yn ogystal â darparu pwynt cyswllt lleol ar gyfer pobl awtistig a theuluoedd a gofalmwr sy'n chwilio am gymorth.

Mae Swyddogion Arweiniol ASD yn gweithio drwy rwydwaith sy'n cwrdd yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn yn hyrwyddo cydweithredu ac yn rhannu arferion da rhwng gwasanaethau. Mae'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol yn cefnogi'r rhwydwaith.

12 <https://autismwales.org/cy/rhieni-a-gofalmwr/gwybodaeth-ar-gyfer-plentyn-awtistig/taflenni-cyngor/>

Mae NICE yn awgrymu na ddylai unrhyw glaf orfod disgwyl mwy na **thri mis** rhwng atgyfeiriad am ddiagnosis ac apwyntiad cyntaf.

Ar hyn o bryd nid oes polisi amseroedd aros ar gyfer oedolion yng Nghymru. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru, er ei bod yn cydnabod safonau canllawiau NICE, wedi pennu'r polisi amser aros ar **26 wythnos** i blant ar hyn o bryd. Tra bod plant yn aros am ddiagnosis disgwylir i ysgolion nodi a datblygu unrhyw gymorth anghenion dysgu ychwanegol yn dilyn yr amserlenni o fewn y canllawiau ADY ac ystyried y Dull Gyda'n Gilydd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc 2 a'r Dull Ysgol Gyfan o ran diwallu anghenion llesiant emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc sy'n mynychu eu sefydliad addysg.

Caiff amserlenni ar gyfer atgyfeiriadau niwroddatblygiad plant eu monitro gan Lywodraeth Cymru drwy Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS). Mae canlyniadau atgyfeiriadau ar gyfer asesiadau oedolion yn cael eu monitro gan Lywodraeth Cymru drwy'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig (IAS).

## Diagnosis preifat

Derbynnir asesiadau preifat cyn belled â bod tîm niwroddatblygiadol y GIG sy'n derbyn yr atgyfeiriad yn cytuno bod canllawiau NICE/safonau Cymru wedi'u bodloni a bod yr asesiad o ansawdd digon uchel. Mae **Adran 1.4** yn disgrifio'r broses asesu a diagnosis yn fanylach.

## 1.4 Gwasanaethau asesu a diagnosis ar gyfer awtistiaeth

Er mwyn cael diagnosis o awtistiaeth, mae angen i unigolion gael eu hasesu gan dîm aml-ddisgyblaethol o ymarferwyr sydd wedi cael hyfforddiant arbenigol ar asesu ar gyfer awtistiaeth. Mae canllawiau NICE yn nodi'n glir y dylai timau integredig gydag arbenigedd priodol i oedran fod ym mhob ardal ac y dylai bwrdd partneriaeth neu grŵp cynllunio lleol oruchwylio gwaith y tîm.

Cyn unrhyw asesiad, dylid ystyried sut y bydd yr asesiad yn cael ei gynnal. Lle bo'n briodol, byddai'n fuddiol cael yr opsiwn i ryngweithio drwy raglenni fel Skype neu Zoom, yn enwedig os oes gan yr unigolyn bryder cymdeithasol yn ogystal ag awtistiaeth. Yn ogystal, dylid ystyried opsiwn ar gyfer anfon dogfennau asesu cyn yr asesiad er mwyn galluogi'r ymatebion i fod yn gadarn.

## Enghraifft

### Plant a phobl ifanc

Dylai staff craidd y tîm awtistiaeth ar gyfer plant a phobl ifanc gynnwys:

- paediatregwyr a/neu seiciatryddion plant a phobl ifanc
- therapyddion lleferydd ac iaith
- seicolegwyr clinigol a/neu addysgol.

Dylai'r tîm awtistiaeth naill ai gynnwys neu gael mynediad rheolaidd at:

- paediatregwyr neu niwrolegwyr paediatrig
- seiciatryddion plant a phobl ifanc
- seicolegwyr clinigol ac addysgol
- therapyddion galwedigaethol
- gweithwyr proffesiynol eraill a allai gynorthwyo gyda'r asesiad, er enghraifft ymwelwyr iechyd neu nyrsys arbenigol, athrawon arbenigol neu weithwyr cymdeithasol.

## Enghraifft

### Oedolion

Dylai tîm awtistiaeth lleol i oedolion gynnwys:

- seicolegwyr clinigol
- gwasanaethau gofal sylfaenol
- nyrsys
- therapyddion galwedigaethol
- seiciatryddion
- gweithwyr cymdeithasol
- therapyddion lleferydd ac iaith
- staff cymorth (er enghraifft, i gefnogi mynediad at dai, gwasanaethau addysg a chyflogaeth, cyngor ariannol, a sgiliau diogelwch personol a chymunedol).

Mae'n bwysig bod pob asesiad yn gyfannol ac yn edrych ar gryfderau, rhwystrau, risgiau a rhwydweithiau cymorth presennol yr unigolyn. Mae hyn yn golygu edrych ar unigolyn yng nghyd-destun iechyd a gofal cymdeithasol i werthuso'r anghenion corfforol, emosiynol, iechyd meddwl, ysbrydol, amgylcheddol, cymdeithasol, rhywiol, ariannol a diwylliannol. Mae hyn yn atgyfnerthu'r disgwyliad bod timau yn amlddisgyblaethol ac yn amlasiantaethol.

## Plentyn

Os yw'r atgyfeiriad yn disgrifio plentyn dros 3 oed yn cymryd cam yn ôl yn ieithyddol neu sgiliau echddygol yn cymryd cam yn ôl mewn plentyn o unrhyw oed, dylai'r atgyfeiriad gael ei weld gan baediatregydd neu niwrolegydd paediatrig am farn gychwynnol.

Os yw'r atgyfeiriad yn blentyn o dan 3 oed yn cymryd cam yn ôl yn ieithyddol, dylid cynnal asesiad awtistiaeth.

Os nad yw'r un o'r uchod yn berthnasol, yna dylid ystyried y canlynol wrth benderfynu a ddylid asesu ar gyfer ASC:

- difrifoldeb a hyd yr arwyddion a/neu'r symptomau
- i ba raddau y mae'r arwyddion a/neu'r symptomau yn bresennol ar draws gwahanol leoliadau (er enghraifft, y cartref a'r ysgol)
- effaith yr arwyddion a/neu'r symptomau ar y plentyn neu'r person ifanc ac ar ei deulu neu ofalwr
- lefel y pryder ymhlith rhieni neu ofalwyr, ac os yw'n briodol, pryderon y plentyn neu'r person ifanc
- ffactorau sy'n gysylltiedig â chynnydd mewn achosion o awtistiaeth
- y tebygolrwydd o ddiagnosis amgen.

Os nad oes digon o wybodaeth i wneud penderfyniad, gofynnwch am wybodaeth bellach gan yr atgyfeiriwr neu weithwyr proffesiynol eraill ym maes gofal iechyd.

Os derbynnir yr atgyfeiriad, ac os yw'r rhieni/gofalwyr yn cydsynio, dylent hefyd ofyn am wybodaeth ychwanegol gan yr ysgol/coleg yn ogystal ag unrhyw weithwyr proffesiynol iechyd neu ofal cymdeithasol eraill sy'n ymwneud â'r unigolyn. Dylai hyn gynnwys canlyniadau unrhyw asesiadau o'r golwg neu'r clyw.

Dylid ystyried gwneud arsylwadau o'r plentyn yn y cartref neu yn yr ysgol, neu gael recordiadau fideo o'r cartref neu'r ysgol.

## Oedolion

Er mwyn gwneud diagnosis o awtistiaeth, mae angen i berson gael gwahaniaethau sylweddol o ran:

- rhyngweithio cymdeithasol a chyfathrebu **ac** ymddygiadau, diddordebau neu weithgareddau cyfyngedig ac ailadroddus - gweler y tabl isod am enghreifftiau o'r mathau o wahaniaethau y gall pobl eu profi
- mae'n rhaid i'r gwahaniaethau hyn fod yn rhai **gydol oes**. Mae hyn yn golygu y byddan nhw wedi dechrau yn ystod plentyndod
- mae angen i'r gwahaniaethau hyn gael effaith ar **sawl** agwedd ar fywyd yr unigolyn (nid dim ond creu problemau mewn un sefyllfa).

Pan dderbynnir atgyfeiriad, rhaid dynodi person cyswllt (i gynnal cysondeb) a rhaid i'r tîm geisio dechrau asesiad diagnostig cyn gynted ag y bo modd. Os oes gan yr oedolyn neu ei deulu anghenion sydd wedi eu nodi, peidiwch ag aros am ddiagnosis er mwyn rhoi cymorth ar waith. Rôl y person cyswllt ddylai fod i:

- weithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer yr unigolyn, y rhieni neu'r gofalwyr, gan gyfathrebu â gweddill y tîm awtistiaeth ar eu rhan

- rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i unigolion, rhieni neu ofalwyr am amser a dilyniant tebygol asesiadau
- trefnu i ddarparu gwybodaeth a chymorth yn unol â chyfarwyddyd y tîm awtistiaeth
- casglu gwybodaeth sy'n berthnasol i'r asesiad diagnostig ar gyfer awtistiaeth.

**Mae'n bwysig bod pob ymarferydd yn osgoi casglu gwybodaeth a chynnal asesiadau fwy nag unwaith drwy sicrhau cyfathrebu effeithiol ac effeithlon rhwng gwasanaethau.**

## 1.5 Y broses asesu a diagnosis

Yn ystod y broses asesu a diagnosis, dylai unigolion a'u teuluoedd/gofalwyr allu cael cymorth gan:

- feddygon teulu neu bresgripsiynwyr cymdeithasol sy'n gysylltiedig â'r practis yn cynnig gwybodaeth ynghylch grwpiau cymorth lleol
- atgyfeirwyr yn cynnig gwybodaeth am Wefan Awtistiaeth Cymru
- atgyfeirwyr yn cynnig gwybodaeth am wasanaethau trydydd sector
- lle bo'n berthnasol, rhieni'n siarad ag athrawon neu staff anghenion addysgol arbennig (SENCO) yn ysgol y plentyn
- unigolion yn siarad â gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr mewn coleg neu brifysgol (lle bo'n berthnasol)
- unigolion yn siarad â rheolwr neu adnoddau dynol yn y gwaith
- gofyn am asesiad o anghenion<sup>13</sup> gan yr awdurdod lleol i weld pa gymorth y gallant ei gynnig yn ystod y broses a allai gynnwys gwasanaethau eiriolaeth.

Yn achos plant, dylai byrddau iechyd gynnig cymorth cynnar i rieni yn ystod y cyfnod atgyfeirio / asesu hwn a dylai fod yn gysylltiedig â rhaglen 1000 diwrnod cyntaf Iechyd Cyhoeddus Cymru yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus allweddol wneud penderfyniadau sy'n ystyried yr effaith y gallent ei chael ar genedlaethau'r dyfodol yng Nghymru. Rhaid iddynt sicrhau eu bod yn meddwl mwy am yr hirdymor, yn gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a gyda'i gilydd, yn ceisio atal problemau ac yn gweithredu mewn ffordd fwy cydgysylltiedig.

### Y broses asesu:

#### Plant a phobl ifanc

Dylid cynnwys y canlynol ym mhob asesiad diagnostig awtistiaeth ar gyfer plant a phobl ifanc:

- Cwestiynau manwl am bryderon rhieni neu ofalwyr ac, os yw'n briodol, am bryderon y plentyn neu'r person ifanc.
- Manylion am brofiadau'r plentyn neu'r person ifanc o fywyd yn y cartref, addysg a gofal cymdeithasol.

<sup>13</sup> <https://www.nhs.uk/conditions/social-care-and-support-guide/help-from-social-services-and-charities/getting-a-needs-assessment/>

- Hanes datblygiadol, sy'n canolbwyntio ar nodweddion datblygiad ac ymddygiad sy'n gyson â meini prawf y Dosbarthiad Ystadegol Rhyngwladol o Glifydau a Phroblemau Iechyd Cysylltiedig (ICD-10) a'r Llawlyfr Diagnostig ac Ystadegol o Anhwylderau Meddyliol Pumed Argraffiad (DSM-5) (ystyriwch ddefnyddio offeryn sy'n benodol ar gyfer awtistiaeth i gasglu'r wybodaeth hon).
- Asesu (trwy ryngweithio gyda'r plentyn neu'r person ifanc a'i arsylwi) sgiliau cymdeithasol a chyfathrebu ac ymddygiadau ailadroddus ac ystrydebol, gan gynnwys sensitifrwydd synhwyrdd, gan ganolbwyntio ar nodweddion sy'n gyson â meini prawf ICD-10 neu DSM-5 (ystyriwch ddefnyddio offeryn sy'n benodol ar gyfer awtistiaeth i gasglu'r wybodaeth hon).
- Hanes meddygol, gan gynnwys cyn-geni, hanes amenedigol a theuluol, a chyflyrau iechyd yn y gorffennol a'r presennol.
- Archwiliad corfforol.
- Ystyried y diagnosisu gwahaniaethol (gweler canllaw clinigol NICE 128<sup>14</sup>, argymhelliad 1.5.7).
- Asesu systematig ar gyfer cyflyrau a all gyd-ddigwydd gydag awtistiaeth (gweler canllaw clinigol NICE 128<sup>15</sup>, argymhelliad 1.5.15).
- Datblygu proffil o gryfderau, sgiliau, gwahaniaethau a rhwystrau'r plentyn neu'r person ifanc, gan gynnwys: gallu ac arddull dysgu, sgiliau academaidd, lleferydd, iaith a chyfathrebu, sgiliau echddygol manwl a bras, ymddygiad addasol (gan gynnwys sgiliau hunangymorth), iechyd meddyliol ac emosiynol (gan gynnwys hunan-barch), iechyd corfforol a maeth, sensitifrwydd synhwyrdd, ac ymddygiad sy'n debygol o effeithio ar y gallu i weithredu o ddydd i ddydd a chyfranogiad cymdeithasol.
- Dylid defnyddio'r proffil i greu cynllun personol, gan ystyried y cyd-destun teuluol ac addysgol. Dylid cyfleu canfyddiadau'r asesiad i'r rhiant neu'r gofalwr ac, os yw'n briodol, i'r plentyn neu'r person ifanc.

## Oedolion

Yn ystod asesiad diagnostig cynhwysfawr, ymholi ynghylch ac asesu:

- arwyddion a symptomau awtistiaeth craidd (anawsterau rhyngweithio cymdeithasol a chyfathrebu, ymddygiad ystrydebol, amharod i newid neu ddiddordebau cyfyngedig, a chryfderau hefyd) a oedd yn bresennol yn ystod plentyndod ac sydd wedi parhau ar ôl tyfu'n oedolyn
- hanes datblygiadol cynnar, os yw'n bosibl
- pryderon ymddygiad
- sut maent yn ymdopi gartref ac yn y gymuned (er enghraifft, mewn addysg neu gyflogaeth)
- problemau iechyd corfforol a meddyliol yn y gorffennol a heddiw
- cyflyrau niwroddatblygiadol eraill
- gorsensitifrwydd a thansensitifrwydd synhwyrdd
- gwneud gwaith arsylwi uniongyrchol ar arwyddion a symptomau awtistiaeth craidd, yn enwedig mewn sefyllfaoedd cymdeithasol
- cynnwys arsylwi ymddygiadau risg a materion diogelu.

14 <http://www.nice.org.uk/guidance/cg128>

15 <http://www.nice.org.uk/guidance/cg128>



## Enghraifft

### Proffil unigol

a) Dylai proffil ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc gynnwys y pynciau canlynol:

- gallu deallusol ac arddull dysgu
- sgiliau academaidd
- lleferydd, iaith a chyfathrebu+
- sgiliau echddygol manwl a mân
- ymddygiad addasol (gan gynnwys sgiliau hunangymorth)
- iechyd meddyliol ac emosiynol (gan gynnwys hunan-barch)
- iechyd corfforol a maeth
- sensitifedd synhwyraidd
- ymddygiad sy'n debygol o effeithio ar weithrediad o ddydd i ddydd a chyfranogiad cymdeithasol
- sgiliau cymdeithasoli.

b) Mae'r *Do-IT Neurodiversity Profiler*<sup>16</sup> yn system broffilio trawsadwy hygyrch ar y we sydd wedi'i datblygu gan gwmni technoleg-er-da Cymru Do-IT Solutions o dan arweiniad yr Athro Amanda Kirby.

Mae'n darparu'r modd i gasglu gwybodaeth gan rieni, a'r plentyn er mwyn deall cryfderau allweddol ac unrhyw heriau ac i gynorthwyo penderfyniadau clinigol. Ar yr un pryd, mae'n darparu adnoddau swyddogaethol ymarferol sy'n canolbwyntio ar y plentyn i gynorthwyo'r teulu ac unrhyw ofalwyr a allai fod yn rhan o ofal y plentyn. Mae'r system yn caniatáu i wybodaeth gael ei chasglu o ffynonellau eraill fel yr ysgol er mwyn gwella dealltwriaeth y plentyn neu'r person ifanc.

### Asesiadau gofalwyr

Mae llawer o ofalwyr yn ei chael hi'n haws parhau yn eu rôl gofalu os gallant gael rhywfaint o gymorth. Gall cynghorau lleol ddarparu gofal a chymorth i bobl sydd angen gofal a'u gofalwyr.

Dylai asesiadau gofalwyr gael eu cynnwys wrth asesu unigolyn sydd â chryfderau, rhwystrau, risgiau a rhwydweithiau cymorth presennol wedi'u nodi.

## 1.6 Cymorth yn dilyn diagnosis o awtistiaeth

Dylai cymorth ôl-ddiagnostig i rieni plant gael ei ddarparu gan wasanaethau iechyd niwroddatblygiadol a'r IAS ar gyfer oedolion, rhieni plant, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol. Mae angen i awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol sicrhau eu bod yn cefnogi mentrau lleol a phartneriaethau lleol i gynnal y lefel o gymorth sydd ei angen yn eu hardaloedd.

16 <https://doitprofiler.com/about-do-it-profiler/>

Dylai'r tîm awtistiaeth a'r cydgysylltydd achosion gyfarfod â'r unigolyn, y teulu a/neu'r gofalwr cyn gynted ag y bo modd ar ôl yr asesiad i esbonio canlyniad yr asesiad. Dylent ddarparu adroddiad ysgrifenedig ar ganlyniad yr asesiad a, gyda chaniatâd, anfon copi at y meddyg teulu. Dylent hefyd anfon copi at eraill sy'n ymwneud â gofal a chymorth yr unigolyn, megis athro neu weithiwr cymdeithasol. Dylai'r tîm neu'r cydlynnydd hefyd:

- roi gwybodaeth am beth yw awtistiaeth a'r hyn y gallai ei olygu i'r unigolyn, y teulu neu'r gofalwr, yn awr ac yn y dyfodol
- trafod cynlluniau ar gyfer rhoi cymorth i'r person awtistig a'r teulu
- cynnig gwybodaeth am wasanaethau lleol
- trefnu apwyntiad dilynol. Dylai hyn fod o fewn 6 wythnos i ddiwedd yr asesiad ond dylai gael ei gytuno gan bawb dan sylw a'i arwain gan y person awtistig a'i deulu/gofalwr ac nid er cyfleustra'r gwasanaeth yn unig.

Os yw'r asesiad yn dangos **nad** yw'r unigolyn yn awtistig, dylai'r tîm egluro sut iddo ddod i'r penderfyniad hwn a thrafod atgyfeirio i wasanaethau eraill a allai fod o gymorth. Lle bo'n bosibl, dylai timau niwroddatblygiadol plant geisio darparu diagnosis arall (os yw'n amlwg) cyn gynted â phosibl. Lle nodir hynny, dylid atgyfeirio oedolion sydd heb gael diagnosis o awtistiaeth i gael asesiadau ychwanegol. **Dylai hyn fod heb ragor o aros diangen.**

Os yw'r unigolyn, y teulu neu'r gofalwr yn anghytuno â chanlyniad yr asesiad gwreiddiol ac nad oes modd datrys yr anghytundeb trwy drafod â'r Arweinydd Clinigol ar gyfer y Gwasanaeth Niwroddatblygiadol neu IAS gallant ofyn am ail farn.<sup>17</sup>

## Protocol ar gyfer ailasesu gyda phlant

- Hysbysir y Rheolwr Gwasanaeth a/neu Arweinydd Clinigol Niwroddatblygiadol ac maent yn nodi person a enwir i arwain y broses ailasesu.
- Rhaid hysbysu'r teulu yn ysgrifenedig o'r protocol ar gyfer ailasesu a phwy fydd yn cynnal yr ailasesiad a'r amserlen.
- Caiff y cais ei ystyried yn y lle cyntaf gan banel ail farn. Bydd y panel hwn yn cynnwys nifer o glinigwyr o sawl tîm gwahanol, ond ni fydd yn cynnwys unrhyw un a oedd ynghlwm wrth yr asesiad gwreiddiol.
- Rheolwr y Gwasanaeth Niwroddatblygiadol a'r Arweinydd Clinigol ar gyfer yr ailasesiad i gysylltu â'r chlinigydd a'r teulu - bydd hyn yn rhoi cyfle i archwilio'r hyn y mae'r teulu yn pryderu yn ei gyloch yn benodol. Bydd hefyd yn galluogi'r cyfle i wirio bod canlyniad yr asesiad wedi ei gyfathrebu'n briodol.
- Bydd y panel yn nodi Clinigydd Arweiniol i gynnal yr ailasesiad/ail farn, a fydd yn dod o dîm gwahanol i'r asesiad cyntaf er mwyn cynyddu gwrthrychedd i'r eithaf a bydd yn cael cefnogaeth y panel wrth wneud ei benderfyniadau.
- Derbyn ar gyfer ailasesiad/ail farn i'w benderfynu o fewn 30 diwrnod i dderbyn y cais.
- Mae'r panel yn adolygu'r ffeil ac unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol i'r asesiadau. Mewn rhai achosion, efallai y gofynnir i'r Clinigydd Arweiniol edrych ar elfennau penodol, er enghraifft, tapiau o Amserlen Arsylwi Diagnostig ar gyfer Awtistiaeth (ADOS).

17 [http://www.1000livesplus.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1011/2018-03-13 Protocol for second opinion-re-assessment.pdf](http://www.1000livesplus.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1011/2018-03-13%20Protocol%20for%20second%20opinion-re-assessment.pdf)

- Panel/Clinigydd Arweiniol yn cadarnhau bod asesiad digonol wedi'i gynnal.
- Panel/Clinigydd Arweiniol yn adolygu'r ADOS/Cyfweliad Diagnostig ar gyfer Awtistiaeth-Sgôr ddiwygiedig/arall yn seiliedig ar wybodaeth yn y ffeil.
- Gall y Clinigydd Arweiniol gyfarfod â'r teulu os oes angen ymhelaethu ar unrhyw wybodaeth.
- Os oes unrhyw anghysonderau yn y casgliadau cyffredinol, bydd y Clinigydd Arweiniol yn cydlynu ailasesiad llawn.
- Os nad oes unrhyw anghysonderau yn y casgliadau cyffredinol, ni chynigir asesiad pellach oni fodlonir y meini prawf ar gyfer ailasesu uchod.
- Bydd y clinigydd arweiniol yn cyfarfod â'r teulu i egluro ei ganfyddiadau.

## Gwybodaeth, cyngor a chymorth

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth dwyieithog, i alluogi unrhyw un i gael gafael ar wybodaeth a chngor perthnasol a chlir am yr holl wasanaethau sydd ar gael yn yr ardal. Dylai staff sy'n darparu gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth gael asesiad o'u hanghenion hyfforddiant awtistiaeth a gallu cael hyfforddiant sy'n diwallu'r anghenion hyn fel eu bod yn gallu cynorthwyo pobl awtistig ac addasu eu hymarfer lle bo angen.

**Rhaid** i wasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth awdurdodau lleol gynnwys, yn y man lleiaf, gyhoeddi gwybodaeth a chngor ar:

- sut mae'r system gofal a chymorth yn gweithredu o ran gwasanaethau awtistiaeth yn ardal yr awdurdod lleol
- y mathau o ofal a chymorth sydd ar gael ar gyfer pobl awtistig
- sut i gael gafael ar y gofal a'r cymorth sydd ar gael
- sut i godi pryderon am lesiant person y mae'n ymddangos bod ganddo anghenion gofal a chymorth heb eu diwallu.

**Rhaid** i Fyrddau Iechyd Lleol neu Ymddiriedolaethau GIG sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer pobl awtistig yn ardal awdurdod lleol, roi gwybodaeth i'r awdurdod lleol hwnnw am y gofal a'r cymorth y maent yn eu darparu yn ardal yr awdurdod lleol. Bydd gan sefydliadau partner eraill, gan gynnwys sefydliadau yn y trydydd sector a'r sector annibynnol, a dinasyddion yn ardal yr awdurdod lleol, gan gynnwys y rhai hynny sydd mewn carchardai, lleoliadau cadw i bobl ifanc a llety mechnïaeth, ddiddordeb yn ei gynnwys a'i ddull o gyflawni a dylid eu gwneud yn ymwybodol o'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth a dylent gael mynediad at y wybodaeth sydd ar gael neu â hawliau cyfartal i gael mynediad at y wybodaeth.

## Datgelu diagnosis

Efallai y bydd plant hŷn ac oedolion yn ei chael hi'n anodd rhannu'r diagnosis gyda ffrindiau, teulu a chydweithwyr. Mae datgelu i rywun eich bod yn awtistig yn benderfyniad personol iawn. Bydd yn dibynnu ar lawer o ffactorau gan gynnwys y person, y sefyllfa a pha mor gyfforddus ydynt yn ei drafod gyda phobl eraill.

# Adran 2



Trefniadau ar gyfer cael  
gafael ar Wasanaethau  
lechyd a Gofal  
Cymdeithasol

## Bydd yr adran hon yn disgrifio'r trefniadau ar gyfer:

- 2.1 Cael gafael ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol
- 2.2 Eiriolaeth
- 2.3 Gwasanaethau ataliol
- 2.4 Cymhwysra a Chyniferydd Deallusrwydd (IQ)
- 2.5 Asesu ar gyfer gofal a chymorth Awdurdod Lleol
- 2.6 Pontio
- 2.7 Asesu gofalwyr
- 2.8 Cael mynediad at ofal iechyd
- 2.9 Cymorth mewn ystadau diogeled
- 2.10 Gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion awtistig
- 2.11 Gwasanaethau i bobl awtistig sydd â chyflyrau sy'n cyd-ddigwydd

## 2.1 Cael gafael ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol

Mae NICE yn nodi disgwyliadau clir o ran sut dylid trefnu gwasanaethau lleol.

Rhaid datblygu gwasanaethau diagnostig ac ôl-ddiagnostig effeithiol mewn ffyrdd sy'n sicrhau gwell canlyniadau iechyd i bobl awtistig.

Er mwyn osgoi dyblygu asesiadau, gall awdurdod lleol gyflawni nifer o asesiadau anghenion ar yr un pryd. Mewn achosion o'r fath, gall yr awdurdod lleol gynnal yr asesiad ar ran y Bwrdd Iechyd neu ar y cyd ag ef.

Er mwyn helpu i safoni a gwella'r gofal a'r rheolaeth o awtistiaeth, ac i alluogi gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol i gefnogi pobl ag awtistiaeth yn fwy effeithiol, mae NICE wedi cyhoeddi canllawiau clinigol ar awtistiaeth, sy'n amlinellu'r camau gweithredu allweddol y dylai comisiynwyr eu cymryd i gyflawni'r gwelliannau ansawdd a amlinellir yn safonau ansawdd NICE.

- Pecyn gweithredu: Developing a multi-agency local autism team implementation pack.
- Developing a multi-agency local autism team, to support local areas.
- Cyfres o offerynnau costio; Canllawiau NICE [CG142]: Autism: recognition, referral, diagnosis and management of adults on the autism spectrum – Support for Commissioning Autism: support for commissioning.

### Trefnu a chyflenwi gofal

- Dylai llwybrau fod yn:
  - » agored i drafodaeth, yn ymarferol ac yn ddealladwy i oedolion ag awtistiaeth, eu teuluoedd, eu partneriaid a'u gofalwyr, a gweithwyr proffesiynol
  - » hygyrch a derbyniol i bawb sydd angen y gwasanaethau a wasanaethir gan y llwybr
  - » ymatebol i anghenion oedolion ag awtistiaeth a'u teuluoedd, partneriaid a gofalwyr
  - » integredig fel nad oes unrhyw rwystrau i symud rhwng gwahanol lefelau o'r llwybr
  - » canolbwyntio ar ganlyniadau (gan gynnwys mesurau o ansawdd, profiad defnyddwyr gwasanaethau a niwed).

- Dylai byrddau iechyd, awdurdodau lleol a/neu fyrddau partneriaethau rhanbarthol:
  - » sicrhau bod hyfforddiant amlasiantaethol am arwyddion a symptomau awtistiaeth, a hyfforddiant a chymorth ar weithrediad unrhyw llwybrau yn cael ei ddarparu
  - » sicrhau bod y gweithwyr proffesiynol perthnasol (gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol, tai, addysg a chyflogaeth a'r trydydd sector) yn ymwybodol o'r llwybrau awtistiaeth lleol a sut i gael mynediad at wasanaethau
  - » cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau integredig ar draws pob lleoliad gofal
  - » cefnogi'r pontio esmwyth i wasanaethau oedolion i bobl ifanc sy'n mynd drwy'r llwybrau
  - » archwilio ac adolygu perfformiad y llwybr.

Dylai llwybrau hybu mynediad at wasanaethau i bob plentyn ac oedolyn ag awtistiaeth, gan gynnwys:

- » pobl sydd ag anhwylderau corfforol a meddyliol sy'n cyd-ddigwydd (gan gynnwys camddefnyddio sylweddau)
- » menywod
- » pobl ag anabledau dysgu
- » pobl hŷn
- » pobl o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig
- » pobl drawsryweddol<sup>18</sup>
- » pobl ddigartref
- » pobl o'r gymuned teithwyr
- » pobl yn y system cyfiawnder troseddol
- » rhieni ag awtistiaeth.

## Astudiaeth achos: 3

### Cyngor Sir Caerfyrddin - Prosiect Cyngor ar Awtistiaeth Oedolion Sir Gaerfyrddin

Datblygwyd grŵp cymdeithasol ar gyfer pobl ifanc ag awtistiaeth nad oeddent yn defnyddio unrhyw wasanaethau eraill, ac a oedd wedi mynd yn eithaf ynysig yn gymdeithasol. Roeddem yn cyfarfod yn fisol ac yn mynd i fowlio deg, chware laser, neu i'r sinema, ac mae wedi bod yn mynd ers 6 blynedd. Mae'r grŵp wedi newid dros y blynyddoedd, gyda rhai yn symud ymlaen, ac eraill yn ymuno. Roedd y grŵp yn cael ei redeg gan ein gweithwyr allgymorth, a defnyddiwyd ef i wella hyder y bobl ifanc i fynychu grwpiau bach eraill fel prosiect ffotograffiaeth, prosiect gwirfoddoli i arddio a chwrs coginio bwyta'n iach. Rydym wedi gweithio gyda'r bobl ifanc, ac yn ddiweddar maent wedi meithrin digon o hyder i ddechrau rhedeg y grŵp eu hunain. Rydym wedi gweithio mewn ffordd gydweithredol, gan gynnal nifer o gyfarfodydd i gynllunio sut y byddent yn parhau i gynnal y grŵp yn annibynnol. Roedd y cyfarfod bowlio cyntaf yn llwyddiant, ac maen nhw'n parhau i fynd i fowlio, a hefyd gwrdd i fynd i'r sinema neu weithgareddau cymdeithasol eraill. Rydym yn parhau i helpu pan fo angen, ond rydym wrth ein boddau eu bod yn awyddus i gymryd yr awenau!

<sup>18</sup> <https://eur01.safelinks.protection.outlook.com/?url=https://www.psychologytoday.com>

## Astudiaeth achos: 4

Prosiect Awtistiaeth Cam Nesa - Mae ein gweithwyr cymorth wedi cefnogi llawer o bobl ifanc awtistig ar y prosiect. Er enghraifft, roedd person ifanc awtistig mewn gwaith ond bu'n rhaid iddo adael ei swydd oherwydd salwch ac wedyn nid oedd mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

Gweithiodd ein gwasanaeth gyda'r person ifanc i fagu ei hyder a datblygu sgiliau cymdeithasol drwy gynorthwyo'r person ifanc i allu mynd allan yn y gymuned, meithrin ei annibyniaeth, ei sgiliau trefnu a chyfathrebu ag eraill. Helpodd ein gweithiwr cymorth ef i fynychu amrywiaeth o gyrsiau ac ennill cymhwyster cymorth cyntaf a sgiliau coginio. Bu hyn yn hwb i'w hyder a'i hunan-gred ac roedd yn gallu ychwanegu'r cymwysterau hyn at ei CV. Mae wedi magu hyder ac wedi datblygu ei sgiliau ac wedi mynd ymlaen i gael lleoliad gwaith â thâl llwyddiannus a ddarperir gan brosiect arall gyda'n gweithiwr cymorth yn cefnogi yn ôl yr angen.

## 2.2 Eiriolaeth

Er gwaethaf y rhwystrau y gall unigolion fod yn eu hwynebu, rhaid i awdurdodau lleol gynnwys pobl i'w helpu i fynegi eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau, i'w cynorthwyo i bwysu a mesur y dewisiadau ac i wneud penderfyniadau am eu canlyniadau llesiant. Mae'r gofynion hyn yn gymwys waeth ble mae unigolyn yn byw, gan gynnwys yr ystad ddiogeled. Dylai eiriolaeth effeithiol helpu i hyrwyddo annibyniaeth mewn unigolion a rhoi llais i'r bobl fwyaf agored i niwed, gan gynnwys plant.

Mae'r Cod Ymarfer mewn perthynas ag Eirioli (Rhan 10 o'r Ddeddf) yn nodi'r gofynion ar gyfer mynediad at wasanaethau eiriolaeth a chymorth. Wrth ymateb i'r asesiad o'r boblogaeth, bydd angen i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol sicrhau eu bod yn gallu ymateb i ofynion eiriolaeth pob unigolyn gan gynnwys pobl awtistig o bob oed. Mae'r Cod Ymarfer ar Eirioli<sup>19</sup> yn rhoi cyngor pellach ar y ffactorau allweddol sy'n effeithio ar unigolion a'u hanghenion am gymorth penodol.

Mae'n **rhaid** i awdurdodau lleol drefnu bod eiriolwr proffesiynol annibynnol yn cael ei ddarparu pan na all person awtistig neu ei deulu/gofalwr oresgyn unrhyw rwystrau perthnasol i gymryd rhan lawn mewn asesiad gofal cymdeithasol, cynllunio gofal a chymorth, prosesau adolygu a diogelu heb gymorth unigolyn priodol.

- Dylai ymarferwyr fod yn ymwybodol o'r hyn yw eiriolaeth a pham ei bod yn bwysig i bobl awtistig, gan gynnwys plant, gael dewis a rheolaeth
- Rhaid hyfforddi'r gwasanaeth eiriolaeth i gefnogi pobl awtistig o bob oed
- Rhaid i wasanaethau eiriolaeth gael eu monitro ar gyfer canlyniadau.

**Rhaid** i awdurdodau lleol ystyried anghenion pobl am eiriolaeth pan fo awdurdod lleol yn arfer swyddogaeth benodol mewn perthynas â'r person hwnnw. Yn aml, gall sefydliadau'r trydydd sector gynnig eiriolaeth a chefnogaeth pan na fydd unigolyn yn bodloni'r meini prawf mewn sefydliad statudol a dylai hyn gael ei ystyried gan ymarferwyr ym mhob achos wrth ddelio â phobl awtistig a'u teuluoedd/gofalwyr.

<sup>19</sup> <https://llyw.cymru/gwasanaethau-eirioli-cod-ymarfer>

## 2.3 Gwasanaethau ataliol

Mae dibenion gwasanaethau ataliol yn cynnwys cyfrannu at atal neu ohirio datblygiad anghenion pobl am ofal a chymorth a lleihau anghenion gofal a chymorth pobl sydd ag anghenion o'r fath. Un o'r dibenion eraill yw hyrwyddo magwraeth plant gan eu teuluoedd, lle bo hynny'n gyson â llesiant plant.

Rhaid i awdurdodau lleol ystyried pwysigrwydd cyflawni'r dibenion hyn wrth arfer eu swyddogaethau eraill. Mae hyn yn golygu mai cyfrifoldeb yr awdurdod lleol **yn ei gyfanrwydd**, nid yr adran gwasanaethau cymdeithasol yn unig, yw ystyried y math o wasanaethau ataliol y gellid eu darparu.

Mae Rhan 4 o Ddeddf 2014 yn nodi sut dylai awdurdodau lleol fynd ati i gyflawni eu cyfrifoldebau a chyflawni'r nodau o hybu llesiant ac annibyniaeth a lleihau dibyniaeth drwy wasanaethau ataliol, yn unigol ac mewn partneriaeth â'r maes iechyd, sefydliadau lleol eraill, cymunedau, a phobl eu hunain.

Mae cyfrifoldebau'r awdurdod lleol dros atal yn berthnasol i bob **oedolyn**, gan gynnwys:

- pobl nad oes ganddynt unrhyw anghenion gofal a chymorth cyfredol
- oedolion sydd ag anghenion gofal a chymorth, p'un a yw eu hanghenion yn gymwys a/neu'n cael eu diwallu gan yr awdurdod lleol ai peidio (gweler pennod 6)
- gofalwyr, gan gynnwys y rhai a allai fod ar fin cymryd rôl gofalu neu nad oes ganddynt anghenion cymorth ar hyn o bryd, a'r rhai sydd ag anghenion cymorth nad ydynt o bosibl yn cael eu diwallu gan yr awdurdod lleol na sefydliad arall.

Yn yr un modd, rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol (BILlau) hefyd ystyried pwysigrwydd cyflawni'r dibenion hyn wrth arfer eu swyddogaethau. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i BILlau ystyried a oes yna bethau y gallant eu darparu neu eu trefnu o dan eu swyddogaethau presennol a fyddai'n cyflawni'r dibenion hyn.

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol ddarparu neu drefnu i ddarparu ystod a lefel o wasanaethau. Dibenion y gwasanaethau hyn yw:

- a) cyfrannu at atal neu ohirio datblygiad anghenion pobl am ofal a chymorth;
- b) lleihau anghenion gofal a chymorth pobl sydd ag anghenion o'r fath
- c) hyrwyddo magwraeth plant gan eu teuluoedd, lle bo hynny'n gyson â llesiant y plant
- d) lleihau effaith eu hanableddau ar bobl anabl
- e) cyfrannu at atal pobl rhag cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso
- f) lleihau'r angen am:
  - » achosion ar gyfer gorchmynion gofal neu oruchwyliaeth o dan Ddeddf Plant 1989
  - » achosion troseddol yn erbyn plant
  - » unrhyw achos teuluol neu achosion eraill mewn perthynas â phlant a allai arwain at eu rhoi yng ngofal awdurdod lleol, neu
  - » achos o dan awdurdodaeth gynhenid yr Uchel Lys mewn perthynas â phlant
  - » annog plant i beidio â throseddu



- » osgoi'r angen i blant gael eu lleoli mewn llety diogel
- » galluogi pobl i fyw eu bywydau mor annibynnol â phosibl.

Os oes gan awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol ddiddordeb cyffredin mewn comisiynu gwasanaethau, megis gwasanaethau awtistiaeth ataliol, dylent gydweithio i ystyried ai modelau busnes gwahanol, nid-er-elw, fydd yn diwallu anghenion llesiant eu poblogaeth awtistig orau. Dylai byrddau partneriaeth rhanbarthol fod yn arloesol yn eu hymagwedd at wasanaethau ataliol, gan wneud y defnydd gorau o adnoddau, sicrhau gwerth am arian ac ymgysylltu'n rhagweithiol â dinasyddion, y trydydd sector, sefydliadau gwerth cymdeithasol a darparwyr eraill i ddiwallu'r angen a nodwyd. Mae'r Cod Ymarfer ar Ran 2 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn cynnwys cyngor pellach ar hyrwyddo mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau a arweinir gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector.

Bwriad ymyrraeth gynnar ac atal yn enwedig gyda **phlant** yw darparu cymorth unigol wedi'i ffocysu er mwyn lleihau'r angen am wasanaethau neu osgoi ymyriadau mwy dwys maes o law.

**Rhaid** i ymarferwyr sy'n asesu anghenion pobl awtistig, eu teulu neu eu gofalwyr ar gyfer gwasanaethau ataliol fod wedi derbyn hyfforddiant priodol a deall nodweddion craidd awtistiaeth. Mae'n bwysig bod sgysiau'n cael eu cofnodi er mwyn galluogi cyfleoedd i gymryd rhan mewn ymyriadau seicogymdeithasol priodol i oedran a fydd yn helpu i fynd i'r afael â nodweddion craidd awtistiaeth ac yn lleihau'r angen am wasanaethau mwy dwys.

Lle mae gwasanaethau ataliol yn cael eu defnyddio, megis gwasanaethau atal/hybu iechyd, **rhaid** gwneud addasiadau i ddiwallu anghenion awtistig unigol.

## Enghraifft

Sicrhau bod yr amgylchedd yn dawel, bod amser yn cael ei drefnu a bod unrhyw newidiadau'n cael eu cyfleu. Gwybodaeth am yr hyn y mae disgwyl ei gynnig cyn yr apwyntiad. Dylid gwneud yr addasiadau hyn i apwyntiadau cyffredin, er enghraifft:

### Plant

- » clinigau imiwneiddio
- » apwyntiadau ymwelwyr iechyd
- » asesiadau datblygiadol
- » apwyntiad meddyg teulu/arbenigwr.

### Oedolion

- » sgrinio ceg y groth
- » sgrinio'r fron
- » clinigau iechyd dynion.

Rhaid teilwra gwasanaethau seibiant i gadw teuluoedd gyda'i gilydd yn ôl anghenion teuluoedd unigol h.y. cyfleusterau dros nos, teuluoedd cyfeillio, taliadau uniongyrchol.

### Amgylcheddau preswyl

Dylai comisiynwyr gofal preswyl sicrhau bod amgylcheddau gofal yn cynnwys gweithgareddau sydd:

- wedi'u strwythuro ac yn bwrpasol ar gyfer pobl awtistig
- wedi'u cynllunio i hyrwyddo integreiddio â'r gymuned leol a defnyddio amwynderau lleol
- wedi'u hamserlennu'n glir gyda rhaglenni dyddiol, wythnosol a dilyniannol sy'n hyrwyddo dewis ac ymreolaeth.

Dylai amgylcheddau gofal gynnwys y canlynol:

- ardaloedd dynodedig ar gyfer gwahanol weithgareddau sy'n darparu ciwiau gweledol am ymddygiad disgwylidig
- addasiadau i'r amgylchedd ffisegol ar gyfer pobl sydd â gorsensitifrwydd a/neu dansensitifrwydd synhwyrdd
- manau y tu mewn a'r tu allan lle gall y person ag awtistiaeth fod ar ei ben ei hun (er nghrafft, os yw wedi gorgyffroi).

## 2.4 Cymhwysra a Chyniferydd Deallusrwydd (IQ)

Nid yw IQ yn ddull da o fesur gallu rhywun i ymdopi a rhaid i wasanaethau beidio â chael eu seilio ar IQ y person. Yn ogystal, ni ddylid ei ddisodli gan asesiadau/gwasanaethau a arweinir gan ddiagnosis. Byddai proffil o wahaniaethau, cryfderau ac anghenion yn fwy defnyddiol, er ei fod yn dibynnu ar y diben (ac oedran). Gall IQ fod yn ddull defnyddiol o bennu priodoldeb darpariaeth gwasanaeth unigol, yn yr achosion hyn gallai asesiad gwybyddol fod yn ddefnyddiol yn lle asesiad IQ.

Mae Adran 63 o Ddeddf 2014 a'i rheoliadau cysylltiedig a wnaed o dan ran 3 o'r Ddeddf, yn cyflwyno meini prawf asesu a chymhwysedd yn seiliedig ar ddadansoddiad cynhwysfawr o bum elfen cydgysylltiedig er mwyn sicrhau bod awdurdod lleol yn ystyried holl amgylchiadau'r person. Mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol:

- asesu ac ystyried amgylchiadau'r person
- ystyried ei ganlyniadau personol
- asesu ac ystyried unrhyw rwystrau i gyflawni'r canlyniadau hynny
- asesu ac ystyried unrhyw risgiau i'r person neu bobl eraill os na chyflawnir y canlyniadau hynny
- asesu a rhoi sylw i gryfderau a galluoedd yr unigolyn.

Ar gyfer **plant** awtistig a'u rhieni/gofalwyr, ni ddylai cymhwysedd i dderbyn cymorth fod yn seiliedig ar ddiagnosis. Os yw ymarferwyr yn nodi anghenion iechyd neu ofal cymdeithasol dylid darparu cymorth i alluogi a hybu byw'n annibynnol ac i'r unigolyn gyrraedd ei botensial.

Ar gyfer **oedolion** awtistig nad ydynt yn gallu cael gafael ar gyngor neu gymorth gan wasanaethau statudol oherwydd eithriad cymhwysra, (a lle nad yw'r ddarpariaeth ar gael mewn mannau eraill) bydd yr IAS yn darparu:

- asesiad diagnostig
- gwybodaeth a chymorth ar ôl diagnosis
- rhaglenni dysgu cymdeithasol yn seiliedig ar ddatblygu rhyngweithio cymdeithasol
- rhaglenni hyfforddi strwythuredig a rhagweladwy sy'n seiliedig ar egwyddorion ymddygiad sy'n canolbwyntio ar wella sgiliau byw bob dydd
- cymorth i gael mynediad at raglenni gweithgareddau hamdden i leihau ynysu cymdeithasol
- ymyriadau ymwybyddiaeth emosiynol a rheoleiddio, wedi'u haddasu i anghenion oedolion awtistig
- ymyriadau gwrth-erledigaeth yn seiliedig ar addysgu sgiliau gwneud penderfyniadau a datrys problemau
- ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer ymddygiad gofidus sy'n seiliedig ar egwyddorion ymddygiad
- mynediad at raglenni awtistiaeth cenedlaethol sy'n hyrwyddo ymwybyddiaeth a derbyniad yn y gymuned, ar gyfer oedolion awtistig ar lefel leol
- gwybodaeth, cyngor, hyfforddiant a chymorth i deulu a gofalwyr oedolion awtistig.

## 2.5 Asesu ar gyfer gofal a chymorth awdurdod lleol

Mae'n hanfodol bod aseswyr gofal cymdeithasol yn deall anghenion pobl awtistig, fel eu bod yn gallu darparu'r cyngor a'r cymorth mwyaf priodol i unigolion, rhieni a gofalwyr.

Rhaid i bob ymarferwr sy'n cynnal asesiadau fod â sgiliau, hyfforddiant a chymwysterau addas i gynnal asesiadau. Nodir hyn yn rheoliad 3 o'r Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesu) (Cymru) 2015. Mae lefelau priodol o gymhwyster ar gyfer ymgymryd â'r gweithgareddau hyn yn cynnwys:

- **onaill** ai ymarferydd gwaith cymdeithasol neu ofal cymdeithasol cofrestredig sy'n meddu ar gymhwyster proffesiynol ar lefel 5 neu uwch
- **oneu** berson sy'n meddu ar gymhwyster gofal cymdeithasol ar lefel 4 neu uwch, sy'n cynnwys gwybodaeth a sgiliau ar gyfer cynnal asesiadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, o dan oruchwyliaeth ymarferydd gwaith cymdeithasol neu ofal cymdeithasol cofrestredig.

Hefyd, er mwyn bodloni'r gofyniad i feddu ar **sgiliau addas**, dylai ymarferwyr feddu ar ddealltwriaeth a hyfforddiant priodol yn ymwneud â chymorth awtistiaeth ac ymddygiad cysylltiedig.

### Taliadau Uniongyrchol

Diben taliadau uniongyrchol yw rhoi rheolaeth i dderbynwyr dros eu bywydau eu hunain drwy ddarparu dewis arall yn lle gwasanaethau gofal cymdeithasol a ddarperir gan awdurdod lleol. Mae taliad ariannol yn rhoi hyblygrwydd i'r person awtistig edrych y tu hwnt i wasanaethau'r awdurdod lleol ar gyfer rhai pethau'n ymwneud â thai, cyflogaeth, addysg a gweithgareddau hamdden yn ogystal ag ar gyfer cymorth personol i ddiwallu eu hanghenion cymwys unigol a aseswyd. Bydd hyn yn helpu i gynyddu'r cyfleoedd i bobl awtistig fod yn annibynnol, i gael eu cynnwys yn gymdeithasol ac yn fodd o wella eu hunan-barch. Gall cynlluniau taliadau uniongyrchol lleol hwyluso hyn drwy feithrin cysylltiadau â gwasanaethau iechyd, tai, addysg ac asiantaethau eraill.

## Dyletswydd i wneud taliadau uniongyrchol

Pan mae dyletswydd ar awdurdod lleol i ddiwallu angen unigolyn am ofal a chymorth (o dan adran 35, 37, 39, 40 neu 42 o'r Ddeddf 2014), neu wedi penderfynu diwallu'r anghenion person am ofal a chefnogaeth (o dan adran 36 neu 38 o'r Ddeddf), neu gefnogaeth mewn perthynas â gofalwr (o dan adran 45 o'r Ddeddf) a'r amodau yn adran 50, 51 neu 52 o'r Ddeddf (fel y bo) yn cael eu cwrdd, mae rhaid i'r awdurdod lleol gwneud taliadau uniongyrchol tuag at gost diwallu anghenion yr unigolyn hwnnw am ofal a chymorth.

Nid yw pob gwasanaeth gofal cymdeithasol yn cael ei gynnwys yn y ddeddfwriaeth taliadau uniongyrchol felly pryd bynnag yr asesir bod angen gwasanaethau gofal cymdeithasol ar berson, dylai'r awdurdod wirio a oes dyletswydd i gynnig taliad uniongyrchol mewn perthynas â'r gwasanaeth hwnnw.

## Pecynnau gofal parhaus

Bydd gwasanaethau sy'n cael eu darparu fel rhan o'r pecyn ar gyfer plant a phobl ifanc awtistig ag anghenion<sup>20</sup> gofal parhaus yn cael eu trefnu gan y byrddau iechyd lleol, awdurdodau lleol a'u partneriaid fel y bo'n briodol, gan alluogi'r plentyn neu'r person ifanc awtistig i weithredu gorau ag y gall o fewn ei deulu, cymuned, lleoliad addysg neu leoliad gofal. Y pwynt allweddol yw y dylai anghenion y plentyn neu'r person ifanc awtistig fod wrth wraidd y broses.

Ni ddylid gohirio darparu gwasanaethau oherwydd problemau ynghylch pwy fydd yn talu am agweddau penodol ar y gwasanaethau hynny ac mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i bob parti ystyried defnyddio cyllidebau cyfun lle bo hynny'n bosibl.

## Anghenion heb eu diwallu

Wrth asesu anghenion unigol, **rhaid** cofnodi anghenion sydd heb eu diwallu ar gyfer datblygu'r gwasanaeth. Os nad oes gwasanaethau ar gael ar hyn o bryd dylai'r ymarferydd fod yn ystyried sut arall i gefnogi'r person awtistig a, lle bo'n briodol, ei deulu a'i ofalwyr, er mwyn diwallu eu hanghenion.

I blant maent yn tueddu i ymwneud â'r canlynol:

- therapïau ymyrraeth gynnar
- lleferydd ac iaith
- cymorth / gwybodaeth / manylion i rieni.

Ar gyfer oedolion maent yn tueddu i ymwneud â:

- sgiliau byw'n annibynnol a
- cymorth cysylltiedig â thai
- cymorth sy'n gysylltiedig â chyflogaeth
- cyfleoedd i gymdeithasu.

---

<sup>20</sup> <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-03/canllawiau-ar-gyfer-gofal-parhaus-i-blant-a-phobl-ifanc.pdf>

## 2.6 Pontio

Yn hytrach na gweithredu proses lym o ran oedran, rhaid i'r system ymateb i anghenion unigol y plentyn neu'r person ifanc awtistig. Proses, nid digwyddiad, yw profiad plentyn o dyfu'n hŷn i fod yn oedolyn, a gall rychwantu ystod oedran eang.

Mae angen i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol sicrhau bod proses effeithiol sydd wedi'i strwythuro'n dda ar waith i ddiwallu anghenion iechyd a gofal cymdeithasol integredig plant, pobl ifanc ac oedolion ifanc awtistig, hyrwyddo ansawdd a diogelwch, mynediad, ymreolaeth a gofal effeithlon i wella canlyniadau.

Dylai Canllawiau NICE<sup>21</sup> ar bontio gael eu darllen yn unol a chanllawiau Llywodraeth Cymru a chael eu defnyddio gan yr holl wasanaethau iechyd, a dylai byrddau iechyd lleol ystyried yr argymhellion o fewn canllaw NICE a'r safon ansawdd cysylltiedig i helpu pobl ifanc a'u gofalwyr i gael gwell profiad o bontio a throsglwyddo drwy wella'r ffordd y caiff ei gynllunio a'i gyflawni.

O ran ymarferwyr awdurdodau lleol, mae'r broses o bontio o blentyn i oedolyn yn golygu newid sylweddol mewn amgylchiadau ac felly mae'n creu hawl i gael ailasesiad o anghenion.

Rhaid cynllunio pob trosglwyddiad yn ofalus ymlaen llaw er mwyn sicrhau gwasanaeth didor. Ar hyn o bryd, oherwydd rhestr aros hir, gall oedolion ifanc drosglwyddo o wasanaethau niwroddatblygiadol i'r IAS o 17 a 9 mis oed, ond bydd y rhan fwyaf o wasanaethau niwroddatblygiadol yn gweithio gydag oedolyn ifanc am gyfnod ar ôl ei ben-blwydd yn 18 oed.

## 2.7 Asesiadau gofalwyr

Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod unigolyn penodol yn gyfrifol am gydlynu a hwyluso neu gynnal yr asesiad. Rhaid gwneud cofnod ysgrifenedig o'r asesiad a rhoi copi i'r gofalwr. Os yw'r asesiad yn cynnwys cyfarfod, dylid ei gynnal mewn lle cyfleus a phreifat. Gall asesiadau gael eu cynnal dros y ffôn neu ar-lein ond dim ond os yw'r gofalwr yn cytuno i hynny. Mae rhai awdurdodau lleol yn cynnal hunanasesiad â chymorth. Mae hyn yn golygu bod y gofalwr yn llenwi holiadur hunanasesu, a bod yr awdurdod lleol wedyn yn cysylltu â'r gofalwr i drafod yr hyn a gyflwynwyd. Mewn rhai ardaloedd, mae sefydliadau lleol yn cynnal yr asesiadau ar ran yr awdurdod lleol ond dylid parhau i wneud trefniadau drwy'r awdurdod lleol a chynnig esboniad i'r gofalwr ynglŷn â phwy fydd yn cynnal yr asesiad. Yn yr achosion hyn, mae'n hanfodol bod aseswyr gofal cymdeithasol yn deall anghenion pobl awtistig, fel eu bod yn gallu darparu'r cyngor a'r cymorth mwyaf priodol i rieni a gofalwyr.

Ni fydd angen asesiad ar bob gofalwr ac mae angen i hyn fod yn glir, yn enwedig i atgyfeirwyr. Mae angen i ofalwyr fod yn ymwybodol o'r asesiad a'r gwasanaethau sydd ar gael a'r cymhwystra i gael mynediad atynt. Bydd effaith sylweddol ar alw a chapasiti.

Efallai na fydd canlyniadau asesiadau bob amser yn cynnwys cynnig gwasanaethau ond gallant olygu cyfeirio at hyfforddiant<sup>22</sup> neu wybodaeth bellach i gynnig cymorth<sup>23</sup> a chynyddu hyder i ymgymryd â'r rôl.

Os bydd y person awtistig yn cael asesiad yn ei rinwedd ei hun ac ar gyfer ei anghenion ei hun, gall yr awdurdod lleol gyfuno asesiad y gofalwr fel eu bod yn gysylltiedig ac yn gyflenwol, ond dim ond gyda chaniatâd y gofalwr y dylid gwneud hyn. Rhaid i'r aseswyr beidio â thybio bod y gofalwr yn gallu diwallu unrhyw anghenion gofalu na'i fod yn barod i wneud hynny.

21 <https://www.nice.org.uk/guidance/ng43>

22 <https://eur01.safelinks.protection.outlook.com/>

23 <https://eur01.safelinks.protection.outlook.com/>

**Nid oes angen i ofalwyr fod yn darparu gofal 'rheolaidd a sylweddol' i fod â hawl i gael asesiad o anghenion gofalwr. Mae gofalwyr o bob oed yn gallu cael asesiad gofalwr.**

**Dylai'r asesiad gynnwys cynnig** gwybodaeth a chynghor, hyfforddiant, cefnogaeth emosiynol neu seibiant byr<sup>24</sup>.

Dylai'r asesiad ddatgelu:

- beth yw'r canlyniadau ar gyfer y gofalwr
- a yw'r gofalwr yn gallu parhau yn y rôl gofalu ac yn barod i wneud hynny
- sut gall y gofalwr gydbwysu gofal ag agweddau eraill ar fywyd bob dydd
- a yw'r gofalwr yn dymuno gweithio neu barhau i weithio
- a yw'r gofalwr yn dymuno cymryd rhan mewn gweithgareddau addysg, hyfforddiant neu hamdden.

### **Rhannu'r rôl gofalu**

Gall gofynion bywyd modern olygu bod teuluoedd yn aml yn rhannu'r rôl gofalu.

Mae gan bob gofalwr hawl i asesiad o anghenion gofalwr hyd yn oed pan fydd sawl gofalwr yn gofalu am un person.

## **2.8 Cael gafael ar ofal iechyd / pasbort i iechyd / Proffil Iechyd Unwaih i Gymru / addasiadau rhesymol**

Gall apwyntiad yn yr ysbyty, optegydd neu ddeintydd achosi straen mawr i berson awtistig. Efallai y bydd yn gorlwytho synhwyrâu'r<sup>25</sup> person gan achosi iddo arddangos ymddygiad heriol<sup>26</sup>. Mae'n bwysig cynnwys rhieni/gofalwyr ym mhob agwedd ar ofal y claf fel y bo'n briodol gyda chaniatâd oedolion awtistig.

Rhaid i fyrddau iechyd lleol sicrhau bod pob adran ysbyty, waeth beth fo'r ddarpariaeth glinigol, yn datblygu strategaethau ac yn gwneud addasiadau rhesymol. Lle bo modd, dylid cynnwys ymarferydd sydd â phrofiad perthnasol o awtistiaeth. Os nad yw hyn yn bosibl, dylent ofyn am gymorth arbenigwyr sydd â'r arbenigedd priodol, ond ni ddylai hyn oedi unrhyw gamau gweithredu sy'n angenrheidiol ar unwaith.

Strategaethau posibl i'w mabwysiadu mewn meysydd clinigol sylfaenol, eilaidd a thrydyddol:

### **Apwyntiadau**

Os yw'n bosibl dylid:

- darparu gwybodaeth / cymorth gweledol<sup>27</sup> ymlaen llaw ynghylch hygyrchedd a'r amgylchedd
- trefnwch daith anffurfiol cyn triniaeth go iawn
- cynnwys gweithiwr iechyd proffesiynol ar yr adegau hyn fel y gall y person awtistig ddod i'w adnabod, ei ystafell ac unrhyw offer, cadair arbennig neu sbectol llygad

<sup>24</sup> <https://www.dewis.cymru/Short-breaks-for-carers>

<sup>25</sup> <https://www.autism.org.uk/professionals/health-workers/guidance.aspx#sensory>

<sup>26</sup> <https://www.autism.org.uk/advice-and-guidance/topics/behaviour/distressed-behaviour/all-audiences>

<sup>27</sup> <https://www.autism.org.uk/advice-and-guidance/topics/communication/communication-tools/visual-supports>

- caniatáu i'r person wyllo tra bod brawd neu chwaer neu aelod arall o'r teulu yn cael ei drin
- bydd gwybodaeth gan ofalwr y claf yn helpu i lywio'r dull gweithredu
- efallai y byddai'n ddefnyddiol trefnu apwyntiad dwbl i ddiwallu anghenion ychwanegol y claf a sicrhau na chaiff ei ruthro
- ceisio rhoi apwyntiad cyntaf neu olaf y diwrnod i'r claf. Mae pobl awtistig yn ei chael hi'n anodd iawn aros am eu hapwyntiad
- os yw'n bosibl, dewch o hyd i ystafell ochr fach y gall y teulu aros ynddi, neu efallai y bydd yn well ganddynt aros y tu allan neu yn y car a dylid dynodi aelod o staff i'w nôl nhw pan fydd y gweithiwr iechyd proffesiynol yn barod
- os yw'r apwyntiad yn debygol o gael ei ohirio, efallai y bydd y teulu am adael yr adeilad yn gyfan gwbl a dychwelyd maes o law ar amser y cytunir arno.

### Siartiau Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol (NEWS)

Cymru oedd y wlad gyntaf i fabwysiadu NEWS ac fe'i defnyddir ar draws y wlad - mewn wardiau ysbytai, Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys, Gwasanaeth Ambiwlans Cymru ac ati. Mae'n rhoi dull safonol i dimau clinigol rheng flaen ar gyfer ymdrin â chleifion sy'n dirywio, sy'n golygu bod cyflyrau sy'n bygwth bywyd fel sepsis yn cael eu gweld yn gynharach a'u hatal yn gyflymach. Caiff arsylwadau eu cynnal ac yna'u cofnodio ar siart NEWS.

Mae dau brif reswm dros oedi wrth ddarparu gofal iechyd i bobl ag anableddau dysgu / awtistiaeth:

- oedi cyn gweld bod iechyd person yn dirywio'n sylweddol
- methiant i adnabod, uwchgyfeirio ac ymateb yn briodol, a all achosi niwed y gellid bod wedi'i atal.

Er mwyn lliniaru'r rhain nodwyd:

- bod angen gwneud addasiadau rhesymol, gan ganiatáu defnydd effeithiol o NEWS
- bod angen gwneud addasiadau rhesymol i wella diogelwch cleifion a darparu gofal sylfaenol i bob claf waeth beth fo'i anableddau.

Argymhellodd grŵp llywio RRRAILS (Rapid Response to Acute Illness Learning Set) y dylai siartiau NEWS gynnig cyfeiriad clir mewn perthynas ag addasiadau rhesymol. Erbyn hyn, mae'r geiriad canlynol gan bob siart NEWS yng Nghymru:

***“Concern about patient or difficulty obtaining any single parameter should lead to escalation regardless of score”.***

Mae hyn yn golygu, pryd bynnag y bydd anhawster cael unrhyw wybodaeth fel sgôr poen, pwysedd gwaed neu dymheredd, dylid nodi bod y claf yn flaenoriaeth.

## Proffil Iechyd Unwaith i Gymru / Pasbort Cyfathrebu<sup>28</sup>

Wedi'i gynllunio i helpu cleifion awtistig i gyfleu eu hanghenion i feddygon, nyrsys a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill. Wrth fynychu apwyntiad iechyd neu pan gânt eu derbyn i'r ysbyty am driniaeth dylid gwneud trefniadau i'r pasbort fod gyda'r claf a'i roi i'r ymarferwr sy'n gyfrifol am ofal y claf. Dylid cadw'r pasbort gyda nodiadau'r claf bob amser.

Ceir hefyd ap ffôn symudol a llechen electronig sy'n gwella'r broses o rannu gwybodaeth a chymorth i blant a phobl ifanc ag awtistiaeth. Nod yr ap 'About Me' yw rhoi'r plentyn yng nghanol ymarfer clinigol. Mae'r ap symudol, sydd ar gael ar y platfform Android ar hyn o bryd, yn cynnwys gwybodaeth allweddol am berson sydd ag awtistiaeth gan gynnwys proffil o'i anghenion a'i gryfderau, adnodd i olrhain cynnydd y broses asesu a gwybodaeth am y gwasanaethau cymorth sydd ar gael. Gellir ei lawrlwytho'n rhad ac am ddim o'r Google Play Store, chwiliwch am 'About Me (autism passport)'

### 111 Cyntaf

Mae'r 111 cyntaf yn cael eu gweithredu'n lleol gan fyrddau iechyd i sicrhau bod cleifion ag anghenion gofal brys yn cael eu cyfeirio i'r lle iawn y tro cyntaf i alluogi gwell canlyniadau clinigol, profiad a gwerth. Y pwyntiau cyswllt i'r cyhoedd myned gofal brys bydd y rhif ffôn 111, y wefan a'r gwiriwr symptomau ar-lein. Bydd y model yn galluogi pobl i:

- cael ei gyfeirio at wasanaethau cymunedol
- cynghorir i hunanofal; neu
- ar gyfer y rhai sydd angen cyngor neu ofal pellach; byddant yn cael ei archebu mewn 'slot' amser cyrraedd yn:
  - » Uned Mân Anafiadau
  - » Canolfan Gofal Sylfaenol Brys; neu
  - » Adran Achosion Brys.

Mae modelau lleol yn cael eu cyflwyno trwy ddull graddol cyn gaeaf 2021/2022.

Ar gyfer pobl a allai gael anawsterau cyfathrebu dros y ffôn, bydd modelau lleol yn cynnwys:

- ffôn testun
- gwasanaethau cyfnewid fideo
- mynediad at ddehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain (BSL interpreters)
- llinellau iaith.

### Triniaethau meddygol ac archwiliadau corfforol

Dylai ymarferwyr:

- esbonio bob amser cyn dechrau unrhyw driniaeth neu archwiliad
- dangos darlun o'r hyn sy'n mynd i ddigwydd neu ddefnyddio doli (os yw'n briodol) i esbonio'r driniaeth
- gall archwiliadau corfforol beri straen mawr i glaf awtistig ac mae'n hanfodol eu rhybuddio cyn eu cyffwrdd

---

<sup>28</sup> <http://www.improvementcymru.net/cy>



- esbonio'r hyn rydych yn ei wneud a pham ym mhob achos
- gofyn i'r rhiant/gofalwr helpu lle bynnag y bo'n bosibl, yn enwedig os yw'r claf yn ddieiriau neu'n defnyddio dull neu gymorth cyfathrebu amgen.

## laith

- Defnyddio iaith syml a chllir gyda brawddegau byrion.
- Osgoi defnyddio idiomau, eironi, trosiadau a geiriau sydd ag ystyron dwbl, er enghraifft "Mae hi'n bwrw hen wragedd a ffyn".
- Gwneud ceisiadau uniongyrchol, er enghraifft "Cwyd ar dy draed plis." Os ydych yn dweud, "alli di godi ar dy draed?", efallai y bydd yr unigolyn yn aros yn ei sedd neu'n ateb "gallaf", oherwydd efallai na fydd yn deall eich bod yn gofyn iddo wneud rhywbeth.
- Gwirio dealltwriaeth - mae rhai pobl awtistig yn siarad yn glir ond nid oes ganddynt ddealltwriaeth glir bob amser.
- Osgoi defnyddio iaith y corff, ystumiau neu fynegiannau wyneb heb gyfarwyddiadau geiriol - efallai na fyddan nhw'n cael eu deall.
- Gofyn am yr holl wybodaeth - efallai na fydd person awtistig yn gwirfoddoli gwybodaeth hanfodol heb gael ei holi'n uniongyrchol.

## Ymateb gan y claf

- Efallai na fydd cyswllt llygad yn enwedig os yw'r claf yn ofidus - nid yw hyn yn golygu nad yw'n gwrando.
- Rhoi amser ychwanegol i'r claf brosesu'r hyn a ddywedwyd.
- Peidiwch â thybio nad yw claf dieiriau yn deall yr hyn sy'n cael ei ddweud.
- Mae pobl awtistig yn ei chael hi'n anodd deall safbwynt arall ond efallai y byddant yn disgwyl i eraill wybod beth maen nhw'n ei feddwl.
- Efallai na fyddant yn deall gofod personol - gallant dresmasu ar ofod personol pobl eraill, neu efallai y byddant am gael eu gofod personol eu hunain.

## Ysgogiadau synhwyaidd

- Mae rhai pobl awtistig yn sensitif iawn i olau ac maen nhw'n gallu gweld fflachiadau goleuadau fflwroleuol.
- Gall pwyntilau goleuo achosi ffitiau mewn unigolion sy'n dueddol i'w cael. Mae 20-30%<sup>29</sup> o bobl awtistig yn cael ffitiau.
- Gall prysurdeb adran damweiniau ac achosion brys, goleuadau argyfwng a pheiriannau sy'n gwneud sŵn 'chwiban' main fod yn annioddefol i bobl awtistig.
- Yn y deintydd, gall sŵn y dril a hyd yn oed teimlad offer oer yn y geg i gyd gyfrannu at orlwytho'r synhwyrâu. Gall blas cryf golchiad y geg neu'r past fod yn broblem hefyd. Yn yr un modd, gall y claf ei chael hi'n anodd ymdopi â'r cyfarpar a ddefnyddir gan yr optegydd, megis y sbectol llygaid trwm.

<sup>29</sup> <http://journals.sagepub.com/doi/abs/10.1177/08830738050200030601>

- Lle y gall rhai cleifion awtistig fynd i'w cragen (er enghraifft, efallai y byddant yn rhoi eu bysedd yn eu clustiau, yn cau eu llygaid, er enghraifft), bydd eraill yn hunan-ysgogi. Mae hyn yn golygu eu bod yn gwneud symudiadau fel chwifio dwylo, siglo ôl ac ymlaen neu fflicio bysedd er mwyn ysgogi teimlad neu ddelio â straen. Efallai y bydd y math hwn o ymddygiad hefyd yn tawelu'r unigolyn, neu'n helpu gyda chydbwysedd ac ystum, felly peidiwch â cheisio ei atal oni bai ei fod yn gwbl hanfodol.

## Poen

- Gall pobl awtistig fod â throthwy poen uchel iawn. Hyd yn oed os nad yw'r person yn ymddangos fel petai mewn poen, gall fod wedi torri asgwrn, er enghraifft. Efallai y bydd yn dangos ymateb anarferol i boen, gan gynnwys chwerthin, hymian, canu a dadwisgo.
- Mae'n bosibl mai aflonyddwch ac ymddygiad yw'r unig gliwiau fod y plentyn neu'r oedolyn mewn poen.
- Gall defnyddio symbolau poen fod o gymorth.

## Pigiadau/proffion gwaed

- Defnyddiwch luniau neu ddol i ddangos beth sy'n mynd i ddigwydd, esboniwch ym mha ran o'r corff rydych chi'n mynd i roi'r pigiad.
- Gall pobl awtistig fod naill ai ddim yn ddigon sensitif neu'n orsensitif i boen felly bydd rhai'n teimlo'r boen yn ddwys ac yn ofidus iawn tra bydd eraill fel na phe baent yn ymateb o gwbl
- Dylid tybio y bydd y claf yn teimlo'r boen a defnyddio eli anesthetig lleol i bylu teimlad yn y man lle rhoddir y pigiad.

## Parafeddygon

Mae materion yn ymweud â'r synhwyrau yn arbennig o berthnasol i'r parafeddyg:

- gall sŵn seiren fod yn hynod boenus i bobl awtistig, felly dylid ei ddiffodd os oes modd
- gall rhai pobl awtistig gael eu dychryn gan y strapiau a ddefnyddir i strapio pobl ar stretsier. Efallai y byddant yn cynhyrfu'n fawr. Ceisiwch egluro pam eich bod yn strapio neu gael eu rhiant/gofalwr i esbonio.

## Damweiniau ac achosion brys

Dydy ymweld ag adran damweiniau ac achosion brys ddim yn brofiad dymunol i unrhyw un ond mae'n gallu bod yn un cwbl lethol i glaf awtistig. Nid yn unig y mae'n lle rhyfedd, sy'n aml yn ymddangos yn hollol ddi-drefn, ond mae'r profiad synhwyraidd o oleuadau llachar a monitorau ac offer arall yn bipian yn gallu gorlwytho eu system yn llwyr gan achosi i'r unigolyn gael 'chwalfa'<sup>30</sup>, neu fynd i'w cragen, neu ymddwyn yn heriol<sup>31</sup>:

- caniatewch i'r rhiant neu'r gofalwr gymryd yr awenau, gan y byddant yn gwybod beth yw'r ffordd orau o gefnogi'r claf
- caniatewch i berthnasau/gofalwyr aros os oes modd a gyda chydysyniad y claf os oes galluedd. Gall hyn helpu i dawelu ofnau'r claf, a bydd hefyd yn caniatáu i'r perthnasau/gofalwyr roi gwybodaeth werthfawr am y claf a'i ymddygiad

30 <https://www.autism.org.uk/about/behaviour/meltdowns.aspx>

31 <https://www.autism.org.uk/about/behaviour/challenging-behaviour.aspx>

- dywedwch wrth y nyrs brysbennu fod y claf yn awtistig fel y gellir rhoi blaenoriaeth uwch iddo nag arfer. Bydd hyn yn lleihau'r amser y mae'n rhaid i'r claf aros
- gadewch i'r claf a'r gofaluwr ddefnyddio'r ystafell perthnasau os yw'n rhydd
- ceisiwch gyfyngu ar nifer y staff sy'n gofalu am y claf. Bydd sicrhau bod sefyllfa mor rhagweladwy â phosibl yn eu helpu i ddeall yr hyn sy'n digwydd iddynt ac i nodi rolau darparwyr gofal
- neilltuwch berson allweddol i'r claf os yw hynny'n bosibl.

## Deintyddiaeth

Dylai pobl awtistig gael gofal gan ddeintyddion a thimau deintyddol sy'n gallu dangos sgiliau a phrofiad priodol (profiad arbenigol pan fo angen) ac sy'n gweithio mewn amgylchedd hygyrch, priodol a diogel. Efallai y bydd angen adnoddau/cymorth clinigol a rheoli ychwanegol ar gyfer eu gofal a dylai byrddau iechyd fod yn sensitif i'r amser a'r hyfforddiant ychwanegol sydd eu hangen i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i bobl ag anghenion gofal arbennig.

Mae gan y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol brofiad a sgiliau datblygedig, yn enwedig ym meysydd deintyddiaeth gofal arbennig a deintyddiaeth bediatrig, sy'n eu galluogi i gymryd rôl arweiniol wrth ofalu am y bobl fwyaf agored i niwed, gan gynnwys plant awtistig, oedolion iau ac oedolion, gan weithio mewn partneriaeth â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol y Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol ac ystod eang o asiantaethau eraill. Penodwyd ymgynghorwyr ac arbenigwyr sydd â hyfforddiant uwch a sgiliau estynedig mewn rhai ardaloedd yng Nghymru. Maent yn gallu darparu a chefnogi'r gwaith o ddarparu gofal arbenigol iawn mewn lleoliadau cymunedol a hoffai Llywodraeth Cymru weld byrddau iechyd yn cynnal y momentwm wrth gynllunio'r modd y darperir gwasanaethau i gynnwys ymgynghorwyr ac arbenigwyr mewn deintyddiaeth gofal arbennig a deintyddiaeth bediatrig. Lle dangosir bod angen, gellir lleoli arbenigwyr/ymgynghorwyr mewn disgyblaethau deintyddol eraill yn y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol hefyd i hyrwyddo cydweithio agos â chydweithwyr mewn timau deintyddiaeth gofal arbennig a deintyddiaeth bediatrig i wella ansawdd y gofal a ddarperir a chynyddu mynediad i ofal gan gynnwys rhannau eraill o'r GIG, y trydydd sector, addysg a gwasanaethau cymdeithasol.

## 2.9 Cymorth mewn sefydliadau diogel

### Carchardai, safleoedd cymeradwy, llety mechnïaeth a chanolfannau cadw ieuenctid

Diffinnir sefydliad diogel fel sefydliad sy'n lletya plant, pobl ifanc neu oedolion lle mae cyfyngiad ar ryddid.

Mae Deddf 2014 yn nodi dyletswyddau'r awdurdod lleol o dan y ddeddf ar gyfer:

- oedolion ag anghenion gofal a chymorth mewn carchardai, safleoedd cymeradwy a llety mechnïaeth, gan gynnwys y rheini dros 18 oed sydd mewn canolfannau cadw ieuenctid;
- plant ag anghenion gofal a chymorth mewn sefydliadau cadw pobl ifanc, carchardai, safleoedd cymeradwy neu llety mechnïaeth yng Nghymru a Lloegr.

## Asesu angen a chynnal asesiadau

- Mae'r awdurdod lleol yn gyfrifol am asesu'r holl oedolion yn y ddalfa yn eu hardal, y mae'n ymddangos bod ganddynt anghenion cymwys waeth ym mha ardal y mae'r unigolyn yn preswyllo fel arfer neu y bydd yn cael ei ryddhau iddi. Dylai awdurdodau carchardai hysbysu'r awdurdod lleol ei bod yn ymddangos bod gan unigolyn angen cymwys.
- Dylid cynnal asesiadau gan ddilyn yr un drefn a meini prawf â phe baent yn byw yn y gymuned. Fodd bynnag, efallai y bydd angen addasu'r trefniadau asesu er mwyn cydymffurfio â chyfyngiadau trefniadau'r ystad. Yn ogystal, gallai anghenion cyfnewidiol unigolyn yn y ddalfa ei gwneud yn ofynnol i gynnal asesiadau neu adolygiadau ar wahanol adegau tra bydd o dan glo neu wrth drosglwyddo o un sefydliad i'r llall.
- Dylai'r staff sy'n ymgymryd â'r asesiad gael asesiad o'u hanghenion hyfforddiant awtistiaeth a gallu cael hyfforddiant sy'n diwallu'r anghenion hyn fel eu bod yn gallu cynorthwyo pobl awtistig ac addasu eu hymarfer lle bo angen
- Pan fo carcharorion yn trosglwyddo ar draws ardaloedd awdurdodau lleol, dylai'r awdurdodau perthnasol gydweithio'n agos i sicrhau parhad gwasanaethau lle mae cynlluniau gofal a chymorth eisoes ar waith.

Yn achos plant, yr awdurdod lleol lle'r oedd y plentyn yn preswyllo fel arfer cyn iddo fod yn y ddalfa sy'n gyfrifol am anghenion gofal a chymorth. Os nad oes gan y plentyn statws preswyllo arferol hysbys, mae'r cyfrifoldeb am ei ofal a'i gymorth yn disgyn ar yr awdurdod lleol lle mae'r plentyn dan glo.

Pan fydd awdurdod lleol wedi pennu bod unigolyn wedi bod yn cael gofal a chymorth cyn dod i mewn i'r sefydliad diogel bydd angen iddo ailasesu sut gellir diwallu anghenion gofal a chymorth yr unigolyn o fewn y sefydliad diogel.

Os yw unigolyn yn gwrthod asesiad nid yw'r gofyniad i'r awdurdod lleol gynnal asesiad yn gymwys, ac eithrio mewn amgylchiadau lle bernir nad oes gan yr unigolyn y gallu i wneud penderfyniad o'r fath. Dylai Awdurdodau Lleol wneud penderfyniad budd gorau o dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol ar gyfer asesiad a mewnbwn ac atgyfeirio at Eiriolwr Galluedd Meddyliol annibynnol.

## Atgyfeiriadau

Gall yr unigolyn neu aelod o staff wneud atgyfeiriad i staff gofal cymdeithasol neu staff meddygol yn y carchar, a gall hyn ddigwydd unrhyw bryd yn ystod y ddeddfryd.

## Pennu cymhwystra

Mae'r model cymhwystra o dan Ddeddf 2014 yn rhoi'r cymhwystra i'r angen unigol nid i'r person. Mae cymhwystra angen unigolion mewn sefydliadau diogel yr un fath â chymhwystra angen pobl yn y gymuned. Pan fo person wedi ei gadw dan ddarpariaeth berthnasol yn y Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, daw adran 117 o'r Ddeddf i rym ar gyfer eu hanghenion iechyd meddwl, a bydd y cyfrifoldeb yn aros gydag ardal yr awdurdod lleol lle mae'r person yn preswyllo fel arfer.

## Cynllunio gofal a chymorth

Mae cynlluniau gofal a chymorth ar gyfer unigolion a gedwir mewn sefydliadau diogel yn destun yr un broses adolygu â phob cynllun arall a dylid eu hadolygu bob tro y bydd unigolyn yn cael ei gymryd i'r ddalfa neu'n cael ei ryddhau i'r gymuned. Dylai'r staff sy'n ymwneud â pharatoi cynllun gofal a chymorth gael asesiad o'u hanghenion hyfforddiant awtistiaeth, a dylent allu cael hyfforddiant sy'n diwallu'r anghenion hyn fel y gallant gynorthwyo pobl awtistig ac addasu eu harferion lle bo angen. Mae Deddf 2014 yn annog y defnydd o gydgyhyrchu i baratoi cynlluniau gofal a chymorth.

## Codi tâl ac asesu adnoddau ariannol

Bydd unigolion a gedwir mewn sefydliadau diogel yn cael eu hasesu'n ariannol yn yr un modd ag unrhyw ddinesydd arall.

## Darparu offer

Pan fydd angen offer arbenigol, cyfrifoldeb yr awdurdod lleol lle mae'r person yn cael ei gadw yw ei ddarparu.

## Parhad gofal

Dylai unigolion sy'n cael eu cadw mewn sefydliadau diogel gael parhad gofal pan fyddant yn cael eu trosglwyddo i leoliad diogel arall neu'n cael eu rhyddhau i'r gymuned. Dylai'r bwrdd iechyd lleol (neu staff iechyd carchardai mewn carchardai preifat), yr awdurdod lleol a staff y carchar sicrhau bod cyfathrebu rhwng partïon i hwyluso parhad gofal.

## Pobl sy'n gadael carchar

Bydd y gweithiwr cymdeithasol, y staff iechyd (lle y'u nodir) a'r swyddog prawf yn gweithio gyda'i gilydd i gynllunio ar gyfer rhyddhau'r unigolyn a rhoi mewnbyn i gynllun ailsefydlu.

## Partneriaeth a llywodraethu

Dylai awdurdodau lleol weithio mewn partneriaeth â'r holl asiantaethau perthnasol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Dylai cynrychiolydd fynd i Fwrdd Partneriaeth y Carchar.

## Diogelu

Mae byrddau diogelu o dan y Ddeddf 2014 ar waith i ddiogelu oedolion sydd ag anghenion gofal a chymorth ac sy'n cael, neu sy'n wynebu risg o gael, eu cam-drin neu eu hesgeuluso ac i atal unigolion o'r fath rhag wynebu risg o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso. Mae gan fyrddau diogelu plant ddiben tebyg i amddiffyn plant sy'n cael, neu'n wynebu risg o gael, eu cam-drin, eu hesgeuluso neu fathau eraill o niwed, ac i atal plant rhag cael neu wynebu risg o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso a dioddef mathau eraill o niwed.

Mae byrddau iechyd lleol, ymddiriedolaethau GIG a'r awdurdod lleol yn bartneriaid statudol ar fyrddau diogelu oedolion a phlant o dan adran 134 (2) o Ddeddf 2014. Nid yw Llywodraethwyr Carchardai yn aelodau penodedig o'r bwrdd, ond os oes carchar o fewn ffiniau'r bwrdd byddai'n ddefnyddiol gwahodd y llywodraethwr neu gynrychiolydd i eistedd ar y bwrdd. Gall byrddau diogelu gymryd diddordeb yn y gwaith diogelu a wneir yn y carchar a rhoi cyngor a chymorth ar sut caiff pryderon diogelu eu rheoli.

## Diogelu oedolion

Yn unol â chyfarwyddiadau a gyhoeddwyd gan NOMS (Cyfarwyddyd y Gwasanaeth Carchardai 16/2016), sy'n cael ei alw bellach yn HMPPS, rhaid i lywodraethwyr carchardai roi prosesau ar waith i sicrhau bod carcharorion yn cael yr un lefel o amddiffyniad ag oedolion yn y gymuned.

## Diogelu plant

Yn 2002, dyfarnodd yr Uchel Lys fod dyletswyddau a roddwyd ar awdurdodau lleol gan Ddeddf Plant 1989 i ddarparu ystod briodol o wasanaethau i blant mewn angen hefyd yn berthnasol i blant a gedwir mewn sefydliadau diogel. Dyfarnodd y Llys hefyd fod Deddf Hawliau Dynol 1998 yn gymwys i blant mewn cyfleusterau gwarchodol. Er nad yw darpariaethau perthnasol Deddf Plant 1989 yn berthnasol mwyach mewn perthynas â Chymru, mae rhan 11 yn cymhwyso darpariaethau perthnasol y Ddeddf honno i blant a phobl ifanc sy'n cael eu cadw yn yr ystâd ddiogel.

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru ymweld ag unrhyw blentyn sydd fel arfer yn preswyllo yn ei ardal berthnasol, a gedwir mewn sefydliad diogel, ac mae hyn yn cynnwys plant a gedwir yn Lloegr. Dylid defnyddio'r ymweliad i sicrhau bod lles y plentyn yn cael ei ddiogelu'n ddigonol ac i wneud trefniadau ar gyfer ymweliadau a chysylltiadau yn y dyfodol ac y bydd y plentyn yn cael ei ddiogelu ar ôl iddo gael ei ryddhau.

## Pontio

Pan fydd plentyn sy'n cael ei gadw mewn sefydliad diogel yn troi'n 18 oed, mae'n cael ei ystyried yn oedolyn. Yn gyffredinol nid oes unrhyw rwymedigaeth ar yr awdurdod lleol cartref ar ôl i'r plentyn gyrraedd 18 oed oni bai mai'r un awdurdod lleol fyddai'n gyfrifol o ganlyniad i drosglwyddo'r oedolyn i'w ardal. Fodd bynnag, mae'n rhaid i awdurdodau lleol barhau i gyflawni eu dyletswyddau perthnasol o dan Ran 6 o'r Ddeddf 2014 mewn perthynas â phlant a phobl ifanc a oedd gynt yn derbyn gofal (ymadawyr gofal) gan yr awdurdod hwnnw am y cyfnod y maent mewn sefydliad diogel.

## Pobl ifanc sy'n gadael gofal

Pan fo gan berson ifanc hawl i wasanaethau gofal a chymorth fel rhywun sy'n gadael gofal, mae ei statws yn parhau'r un fath tra'i fod yn y ddalfa. Bydd yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am yr unigolyn sy'n gadael gofal cyn iddo gael ei gadw yn cadw'r cyfrifoldeb ar ôl ei ryddhau.

## Gwybodaeth, cyngor a chymorth

Dylai'r awdurdod lleol weithio'n agos gyda HMPPS a staff y carchar i gynllunio a darparu gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth y gall unigolion o fewn mewn sefydliad diogel gael mynediad priodol ato.

## Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth

Rhaid i'r awdurdod lleol, HMPPS, byrddau cyfiawnder ieuenctid a'r sefydliad diogel gytuno ar femorandwm cyd-ddealltwriaeth, sy'n nodi sut caiff gwasanaethau gofal a chymorth eu darparu.

## Eiriolaeth

Pan fydd angen cymorth ychwanegol ar unigolion i sicrhau eu bod yn deall eu hanghenion, y gwasanaethau sydd ar gael iddynt a sut i gael mynediad at y gwasanaethau hyn, mae'n rhaid sicrhau bod eiriolaeth ar gael i ofalu bod unigolion yn gallu cymryd rhan yn y broses benderfynu.

Rhaid i eiriolaeth i bobl mewn sefydliad diogel gael ei darparu yn yr un ffordd ag y byddai ar gyfer pobl yn y gymuned.

## Cwynion ac apeliadau

Bydd pobl mewn sefydliadau diogel yn gallu gwneud cwyn am asesu a darpariaeth gwasanaethau perthnasol. Dylid darparu manylion ar sut i wneud cwyn.

## 2.10 Gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion awtistig

Mae diffiniad Deddf Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 o anhwylder meddwl yn cynnwys yr holl ystod o gyflyrau'r sbectrwm awtistiaeth gan gynnwys y rhai sy'n cyd-ddigwydd gydag anabledd dysgu neu broblem iechyd meddwl arall. Mae'n bosibl, ond yn anghyffredin, i berson awtistig fodloni'r amodau ar gyfer triniaeth o dan y Mesur heb fod ganddo unrhyw fath arall o anhwylder meddwl.

Anawsterau datblygiadol yw cyflyrau'r sbectrwm awtistiaeth, nid afiechydon meddwl ynddynt eu hunain. Fodd bynnag, efallai y bydd pobl â chyflwr ar y sbectrwm awtistiaeth yn cael problemau ychwanegol neu gysylltiedig sy'n aml yn cynnwys gorbryder neu iselder. Dylid cofio y gallai pobl â chyflwr ar y sbectrwm awtistiaeth hefyd fod â chyflyrau iechyd meddwl sy'n cyd-ddigwydd.

Anaml y bydd triniaeth orfodol mewn ysbyty yn debygol o fod o gymorth i berson â chyflwr ar y sbectrwm awtistiaeth. Mae'n bosibl y bydd hyd yn oed fân newidiadau i'r drefn arferol yn gwneud iddo deimlo'n ofidus iawn, felly mae gorfod aros mewn ysbyty yn debygol o beri pryder iddo. Lle bynnag y bo modd, dylai staff sydd â'r sgiliau priodol ddod o hyd i ffyrdd eraill, llai cyfyngus, o ddarparu cymorth.

Felly, **dim ond** os oes angen iechyd meddwl sy'n cyd-ddigwydd y dylid cadw pobl awtistig mewn cyfleusterau iechyd meddwl. Pan fydd hyn yn digwydd, dylid cynnwys ymarferwr sydd â phrofiad perthnasol o awtistiaeth lle bo hynny'n ymarferol. Os nad yw hyn yn bosibl, dylai ymarferwr ofyn am gymorth arbenigwyr sydd â'r arbenigedd priodol o fyrrddau iechyd lleol cyfagos ond ni ddylai hyn achosi oedi cyn cymryd unrhyw gamau gweithredu sy'n angenrheidiol ar unwaith.

## Gofal a thriniaeth

Yn gyffredinol, mae hyn yn cynnwys:

- Sicrhau, os nad oes fawr o arbenigedd gan yr aseswyr gyda'r grŵp cleifion hwn, eu bod yn ceisio cyngor gan y gwasanaeth arbenigol lleol a ddylai roi manylion am ddewisiadau eraill yn lle triniaeth orfodol a chyngor ar gyfathrebu da. Fodd bynnag, ni ddylid caniatáu i hyn oedi camau gweithredu yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol ar unwaith.
- Deall y gall fod gan berson awtistig anawsterau synhwyraidd ac echddygol ychwanegol, sy'n gwneud iddo ymddwyn yn anarferol ac y gellid ei ddehongli fel salwch meddwl ond sydd mewn gwirionedd yn fecanwaith ymdopi.
- Y gall fod yn sensitif i olau, sain, cyffyrddiad neu gydbwysedd, gan arwain o bosibl at amrywiaeth o ymddygiad rheoleiddiol, gan gynnwys siglo yn ôl ac ymlaen, hunan-anafu ac osgoi (fel rhedeg i ffwrdd).
- Gall fod elfen ailadroddus i'r ymddygiad hefyd lle mae'n ymddangos bod rhywun yn dewis ymddwyn mewn ffordd benodol, ond efallai y bydd ei ymddygiad yn peri gofid i'r unigolyn ei hun ac y gallai gael ei sbarduno neu ei waethygu gan orbryder a gallai arwain at niwed i'w hunan neu i eraill. **Nid** yw ymddygiad ailadroddus **ynddo'i hun yn gyfystyr ag anhwylder meddyliol**.
- Efallai y bydd person awtistig yn dangos gwahaniaeth amlwg rhwng ei ddatblygiad deallusol a'i ddatblygiad emosiynol. Efallai ei fod yn gallu trafod gweithred yn ddeallusol a mynegi awydd i beidio â'i gwneud, ond heb yr empathi cymdeithasol greddfoll i gadw at ei fwriad.
- Dylai timau therapiwtig geisio helpu'r unigolyn i ddeall ei ymddygiad a gweithio gydag ef i'w leihau. Pan na fydd y person yn gallu atal ei hun rhag achosi niwed difrifol i'w hun neu i eraill, **gall** fod angen gorfodaeth o dan y Ddeddf.
- Mae pobl awtistig sydd ag anhwylderau cymdeithasol a chyfathrebu hefyd yn gallu datblygu salwch meddwl a gallai fod angen triniaeth orfodol ar y salwch meddwl hwn. Pan gaiff rhywun ei ddwyn i'r ysbty dan orfodaeth, dylid ei roi mewn lleoliad sy'n gallu darparu ar gyfer ei anghenion cymdeithasol a chyfathrebu yn ogystal â thrin yr anhwylder meddyliol.
- Mae'n bwysig bod ystyriaeth yn cael ei rhoi cyn gynted â phosibl i bennu a yw'r person ag anhwylderau cymdeithasol a chyfathrebu yn cyfrif fel 'claf cymwys' i gael cymorth gan eiriolwr iechyd meddwl annibynnol.

## Enghraifft

1. Dylai asesiadau derbyn gynnwys y wybodaeth ychwanegol ganlynol ar gyfer claf awtistig:

- dull cyfathrebu - geiriol, PECS, Makaton, Iaith Arwyddion Prydain, dieiriau
- anawsterau synhwyraidd - sŵn, golau, cyffyrddiad, blas, arogl
- arferion ailadroddus - trefn gofal personol, angen camu o gwmpas, neidio (therapi adlamu), cyflwyno bwyd
- unrhyw wybodaeth berthnasol gan y teulu/gofalwr/rhywun arall arwyddocaol.



## Enghraifft

### 2. Cael pethau yn eu lle:

- Mae rhai pobl â chyflwr ar y sbectrwm awtistiaeth yn cymryd mwy o amser i brosesu gwybodaeth ac ateb cwestiynau: bydd angen i chi adael digon o amser i'w galluogi i ymateb. Gallai hyn olygu neilltuo amser ychwanegol ar gyfer ymgynghoriad - yn enwedig ar gyfer pynciau y gallai fod angen eu trafod yn fanylach (gallai darparu gwybodaeth ysgrifenedig hygyrch a chaniatáu ar gyfer atebion ysgrifenedig fod yn arfer da. Dylech ganfod pa amser sy'n gweithio orau iddyn nhw. Mae'n bwysig iawn cael eu mewnbwn ar amserlenni.
- Mae cael lleoliad a dyddiad rheolaidd ar gyfer cyfarfod yn bwysig gan fod y rhan fwyaf o bobl sydd â chyflwr ar y sbectrwm awtistiaeth yn hoffi ac angen rwtîn. Rhowch ddigon o rybudd os oes newidiadau
- Ewch ati i greu amgylcheddau cymdeithasol cefnogol sy'n diwallu eu hanghenion synhwyraidd. Gall sŵn, golau a newid cyson i ofod ffisegol gynyddu gorbryder pobl sydd â chyflwr ar y sbectrwm awtistiaeth. Mae'n bwysig bod yn ystyriol o angen synhwyraidd a sut gallai'r amgylchedd effeithio ar hynny.
- Ceisiwch ddod o hyd i a chynnal cyfarfodydd grŵp cymdeithasol neu 1:1 mewn ystafell/gofod gyda golau gwan neu, yn ddelfrydol, heb unrhyw oleuadau fflwroleuol, gydag ardal breifat y gall pobl encilio iddi am dawelwch. Nid yw'r ystafelloedd bob amser yn hawdd i'w rheoli ond os oes yna oleuadau fflwroleuol, ceisiwch beidio â throï pob un ohonynt ymlaen. Weithiau gall lampau fod yn well na goleuadau uwchben. Er mwyn rheoli newidiadau i'r amgylchedd, ceisiwch roi gwybod am newidiadau ymlaen llaw.

## 2.11 Gwasanaethau i bobl awtistig sydd â chyflyrau sy'n cyd-ddigwydd

Mae pobl yn aml yn cael diagnosis o awtistiaeth ochr yn ochr â chyflyrau eraill. Mae'n bwysig cefnogi pobl â mwy nag un cyflwr mewn ffordd sy'n diwallu eu holl anghenion, tra'n deall bod yr anghenion sy'n codi o awtistiaeth yn wahanol.

Ar hyn o bryd mae llwybrau niwroddatblygiadol ac oedolion yn cynnwys ymchwiliadau pellach ar gyfer gwneud diagnosis o gyflyrau sy'n cyd-fodoli. Ni ddylai'r atgyfeiriadau hyn oedi unrhyw ymyriadau cymorth sy'n angenrheidiol ar unwaith.

Yn aml gall cymorth fod ar ffurf cyngor ar wneud addasiadau amgylcheddol ac emosiynol. Gall grwpiau hunangymorth, sefydliadau'r trydydd sector ac elusennau neu grwpiau gweithgareddau lleol fod yn ffynonellau cymorth.

## Enghraifft

- Dylai rhieni plentyn awtistig a allai fod yn arddangos symptomau ADHD hefyd gael gwybodaeth a chefnogaeth ynghylch technegau rheoli/addasu ymddygiad wrth aros am asesiad pellach.
- Dylid cynnig cymorth i berson awtistig sy'n arddangos symptomau gorbryder difrifol i ddatblygu strategaethau ymdopi tra'n aros am asesiad pellach.
- Rhaid i weithwyr proffesiynol fod yn ymwybodol o wahaniaethau prosesu synhwyrdd rhwng anhwylderau bwyta a phroffiliau awtistig, h.y. sensitifrwydd i flasau a gweadau.

Mae angen i fyrddau iechyd sicrhau bod yr holl lwybrau iechyd wedi'u cynllunio i sicrhau bod gan bobl awtistig fynediad at ymarferydd sydd â phrofiad perthnasol o awtistiaeth os yw hynny'n ymarferol. Os nad yw hyn yn bosibl, dylai ymarferwr ofyn am gymorth arbenigwyr sydd â'r arbenigedd priodol o fyrddau iechyd cyfagos ond ni ddylai hyn oedi unrhyw gamau gweithredu sy'n angenrheidiol ar unwaith


Mae gan fyrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol eisoes drefniadau partneriaeth ar waith mewn perthynas â gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau i bobl â phroblemau camddefnyddio sylweddau a ddylai gynnwys addasiadau ar gyfer pobl awtistig. Mae byrddau partneriaeth cenedlaethol yn eu lle ar gyfer y ddau wasanaeth hyn hefyd.

Dylai'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol felly ystyried pa drefniadau ychwanegol neu amgen y gallai fod eu hangen i integreiddio gwasanaethau er mwyn gwella canlyniadau i bobl awtistig a/neu wneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau. Dylai hyn hefyd gynnwys ystyriaeth o ba drefniadau fyddai'n fwy effeithiol ar lefel genedlaethol, yn hytrach na lefel ranbarthol neu leol.

# Adran 3



Trefniadau ar gyfer  
Codi Ymwybyddiaeth  
o Awtistiaeth a Darparu  
Hyfforddiant



## Mae'r adran hon yn disgrifio'r trefniadau ar gyfer:

- 3.1 Hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant
- 3.2 Codi ymwybyddiaeth o awtistiaeth yn y gymuned
- 3.3 Dysgu a datblygu'r gweithlu
- 3.4 Gwasanaethau gofal sylfaenol iechyd
- 3.6 Gwasanaethau gofal cymdeithasol
- 3.7 Sefydliadau addysgol

## 3.1 Hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant

### Anghydraddoldebau iechyd

Gall pobl ag awtistiaeth brofi anghydraddoldebau iechyd o'u cymharu â phobl eraill, wrth gael mynediad at ofal iechyd a gwasanaethau. Mae achosion yr anghydraddoldebau hyn yn gymhleth ac yn lluosog, ac mae angen gwell dealltwriaeth arnom o iechyd, hyd oes, gofal iechyd ac anghydraddoldebau iechyd pobl awtistig i wella cydraddoldeb a mynediad at wasanaethau.

### Enghraifft

- Mae'n bosibl na fydd gan wasanaeth lleol yr arbenigedd i gynnal asesiad awtistiaeth cymhleth ac efallai y bydd angen atgyfeirio unigolyn at dîm mwy arbenigol.
- Os nad oes tîm awtistiaeth arbenigol yn agos i'w gartref, a bod yr unigolyn yn cael anhawster teithio'n bell (oherwydd y gost ariannol neu resymau eraill), efallai y bydd angen cymorth gan y gwasanaeth iechyd neu'r awdurdod lleol i'w helpu i gael at y gwasanaeth.

Mae iechyd da yn dibynnu ar lawer mwy na darparu gwasanaethau iechyd da. Mae'r ffordd y mae cymdeithas yn cael ei threfnu; ei ffyniant economaidd; cyfleoedd ym mlynnyddoedd cynnar bywyd person; ei gyfleoedd addysg a chyflogaeth; cymorth a chydlyniant cymunedol; y bwyd rydym yn ei fwyta; y cartrefi rydym yn byw ynddynt a llawer mwy o ffactorau yn effeithio ar iechyd ac anghydraddoldebau iechyd.

Felly, mae cynnig asesiad holistaidd i berson awtistig yn ddyletswydd ragweithiol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol. Oherwydd y gallai fod gan lawer o bobl awtistig broblemau iechyd a gofal cymdeithasol cymhleth, rhaid i asesiadau sicrhau bod unrhyw anghenion cymorth sylfaenol sy'n gysylltiedig ag awtistiaeth unigolyn yn cael eu hystyried i sicrhau bod llesiant pobl yn cael ei adlewyrchu mewn unrhyw asesiad.

Gall pobl awtistig ganfod asesiadau sy'n peri penbleth. Er bod hyn yn ymwneud yn rhannol â natur awtistiaeth, mae llawer o ofalwyr hefyd yn gweld bod prosesau asesu'n ddryslyd, felly mae hyn yn rhywbeth y dylai gwasanaethau fynd i'r afael ag ef. Mae gan bobl yr hawl i gael eiriolaeth annibynnol os byddant angen rhywun i'w helpu i ddweud eu dweud am eu hanghenion gofal, er y gallai aelod o'r teulu neu ffrind wneud hyn hefyd. Mae angen cynnal asesiadau mewn ffordd sy'n briodol ar gyfer y person sy'n cael ei asesu.

# Enghraifft

## Asesu llwyddiannus

Gall paratoi ymlaen llaw a hyblygrwydd tuag at y person awtistig helpu'r asesiad i gasglu'r wybodaeth gywir, a rhaid i'r asesiad fod yn gymesur â natur gymhleth awtistiaeth. Os ydych yn cynnal asesiad gyda pherson awtistig:

- byddwch yn glir ynghylch eich rôl o'r cychwyn
- ystyriwch anfon ffotograff ohonoch chi'ch hun ymlaen llaw
- derbyniwch efallai y bydd angen mwy nag un neu ddau gyfarfod; yn aml, dim ond sgysiau byr y gall pobl awtistig ymdopi â nhw
- byddwch yn hyblyg ynghylch y ffordd y caiff gwybodaeth ei chofnodi; defnyddiwch fformatau y gall y person awtistig eu deall
- darganfyddwch beth fyddai'n helpu'r person i deimlo mewn rheolaeth o'r cyfarfod
- pan fo hynny'n briodol, holwch deulu neu ofalwyr y person sut maen nhw'n cyfathrebu orau
- darllenwch am y person yn eu ffeil, heb seilio'ch barn ar yr hyn a ddysgwch ynddi
- sicrhewch eich bod yn brydlon gan y gall bod yn hwyr achosi gorbryder
- canolbwyntiwch ar gryfderau a chyflawniadau'r person.

Efallai y byddwch hefyd am ofyn i chi'ch hun:

- Oes gan y person ddiddordebau arbennig y gallwn eu defnyddio i feithrin perthynas dda?
- Oes gan y person sensitifrwydd synhwyrdd; ddylwn i, er enghraifft, beidio â gwisgo persawr neu sent eillio?
- Oes pethau a allai sbarduno gorbryder i'r person?
- Oes rhaid i mi wneud yr asesiad wyneb yn wyneb, neu a ellid ei wneud drwy e-bost, er enghraifft?
- Alla i anfon cwestiynau'r asesiad ymlaen llaw fel y gall y person baratoi ei ymatebion?
- Oes angen amser ychwanegol ar y person i ateb cwestiynau?
- Ydw i wedi bod yn gofyn cwestiynau i'r person tra'n gofyn iddo ddarllen rhywbeth neu lenwi ffurflen?
- Ydy'r person am gael ffrind, aelod o'r teulu neu eiriolwr gydag ef?
- Oes amser o'r dydd a fyddai'n gweddu'n dda i'r person?
- Fyddai'n well gan yr unigolyn gael ei asesu wrth gerdded, er enghraifft, fel nad oes angen cymaint o gyswllt llygaid?

## Enghraifft cont'd

Hefyd mae yna nifer o faterion, sy'n aml yn gysylltiedig ag awtistiaeth, y dylai asesydd eu hystyried:

- materion yn ymweud â'r synhwyrau, yn yr ystafell ar y pryd, ond hefyd fel ffactor wrth benderfynu ar angen
- anawsterau neu gyflyrau dysgu penodol eraill, fel dyslecsia neu anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd
- problemau cysgu - mae gan lawer o bobl sydd ag awtistiaeth batrymau cysgu anwadal, sy'n gallu bod yn anodd iddyn nhw a'u gofalwyr
- cyfyngiadau deietegol.

Dylech ystyried hefyd a yw'r person sydd ag awtistiaeth yn rhiant neu'n ofalwr hefyd ac, os felly, sut mae ei awtistiaeth yn effeithio ar y ffordd y mae'n gofalu am y person arall.

Mae NICE wedi datblygu dangosydd newydd sy'n rhan o ddewislen dangosyddion<sup>32</sup> NICE ar gyfer Ymarfer Cyffredinol i annog practisau i gofnodi'r diagnosis gan ddefnyddio codau clinigol priodol ac i fynd ati'n rhagweithiol i geisio deall yr addasiadau rhesymol sydd eu hangen ar y bobl hyn er mwyn cael mynediad at wasanaethau. Mae hyn yn helpu pobl awtistig i gael mynediad at wasanaethau gofal sylfaenol. Hyd yma nid yw practisau meddygon teulu yng Nghymru yn cofnodi diagnosis o awtistiaeth drwy ddefnyddio codau clinigol.

## Enghreifftiau

Mae meddygfa deulu wedi fflagio enw plentyn awtistig i roi gwybodaeth i'r derbynnydd pan fydd rhiant yn ffonio'r feddygfa. Bydd y derbynnydd yn gwybod:

- pa feddyg teulu sydd â'r wybodaeth a'r profiad gorau o'r plentyn ac felly yw'r dewis cyntaf os yw ar gael
- y dylai geisio darparu'r apwyntiad cyntaf yn y bore neu'r un cyntaf ar ôl cinio
- pan fydd y feddygfa'n rhedeg yn hwyr, gellir cyfeirio'r plentyn a'r rhiant i fan aros tawel
- gyda chaniatâd y claf (neu'r rhieni) gellir rhannu'r wybodaeth hon gydag unrhyw atgyfeiriadau at wasanaethau eraill.

<sup>32</sup> <https://www.nice.org.uk/standards-and-indicators>

## Example cont'd

Offeryn cyfathrebu yw Cynllun y Waled Oren,<sup>33</sup> sy'n gallu cael ei ddefnyddio gan bobl sydd weithiau'n ei chael hi'n anodd cyfleu eu hanghenion i staff wrth ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Mae'r waled yn cynnwys lle i'r defnyddiwr fewnosod ysgogiadau ysgrifenedig a/neu weledol i ddangos i staff. Mae staff gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus ar draws Cymru wedi'u hyfforddi i adnabod y waled a gwybod i fod yn amyneddgar a darparu cymorth priodol. Caiff y waled ei chydnabod gan staff ar draws holl wasanaethau trên Arriva Cymru a chan y prif wasanaethau bysiau lleol gan gynnwys First Cymru, Stagecoach, Bws Caerdydd, Newport Bus a Bysiau Arriva.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu dau gynllun bysiau:

### 1 - Y Cynllun Teithio Rhatach Gorfodol (teithio ar fysiau am ddim):

- ym mis Ebrill 2002 cyflwynodd Llywodraeth Cymru gynllun gorfodol ar gyfer teithio ar fysiau am ddim i bobl hŷn neu anabl, gan gynnwys pobl awtistig
- ar hyn o bryd, mae'r cynllun hwn yn agored i unrhyw un sy'n byw yng Nghymru sy'n 60 oed neu'n hŷn neu sy'n arddangos un neu ragor o saith maen prawf anabledd a nodir mewn deddfwriaeth
- nid oes terfyn oedran ar gyfer y rhai sy'n gwneud cais am docyn bws am ddim i bobl anabl
- mae'r rhai sy'n gymwys i gael pàs pobl anabl, lle mae angen cydymaith ar gyfer teithio ar fysiau, yn gallu gwneud cais i'w hawdurdod lleol am un tocyn teithio cydymaith i ganiatáu teithio am ddim i'r person hwnnw hefyd: wrth deithio gyda deiliad y pàs.

### 2 - Y Cynllun Teithio Rhatach ar Fysiau i Bobl Ifanc (Fy Ngherdyn Teithio) (traean i ffwrdd) ar gyfer teithio yng Nghymru a nodir y rhain isod:

- ym mis Medi 2015 cyflwynodd Llywodraeth Cymru gynllun gwirfoddol ar gyfer tocynnau bws rhatach (traean o'r pris cyfatebol i oedolion) i bobl ifanc 16 i 21 oed sy'n byw yng Nghymru - "Fy Ngherdyn Teithio"
- ar wahân i amodau preswyllo, mae'r meini prawf cymhwysedd yn seiliedig ar oedran yn unig: 16 - 21 oed (h.y. hyd at eu pen-blwydd yn 22 oed)
- yn absenoldeb deddfwriaeth angenrheidiol, mae'r cynllun yn wirfoddol ar ran gweithredwyr bysiau.

33 <https://autismwales.org/cy/rwyn-awtistig/adnoddau-i-chi/cynllun-waled-oren/>

## Astudiaeth achos: 5

Cafodd C ddiagnosis gan y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig (IAS) yn 2018. Ar y pryd teimlai fod angen amser arno i brosesu ei ddiagnosis, ac fe gysylltodd â'r gwasanaeth eto yn 2019.

Atgyfeiriodd ei hun i wneud y cwrs ôl-ddiagnostig (PDC), a'i gwblhau ym mis Hydref 2019. Ar ôl y cwrs, roedd C yn teimlo y gallai fod angen rhywfaint o gymorth â'i hyder, yn enwedig gyda phroblemau yn y gwaith nad oedd yn teimlo y gallai eu herio.

Ym mis Rhagfyr 2019, fe wnaeth IAS ymweld ag C i archwilio'r rhain ymhellach. Cynghorwyd C i wneud nodiadau o'i flaenoriaethau a oedd angen sylw, ac ystyried yr hyn yr oedd wedi'i ddysgu gan y PDC mewn perthynas â mynd i'r afael â'i anghenion synhwyraidd. I gychwyn, dywedodd cyflogwr C wrtho y byddai'n aros yn hir am asesiad anghenion llawn, ond pan ddarparodd C ei restr o broblemau ac atebion i'w gyflogwr, cafodd ei asesu o fewn ychydig ddyddiau. Ers hynny mae C wedi cael desg y gellir addasu ei uchder, cadair sy'n cynnal y meingefn, goleuadau newydd, caniatâd i ddefnyddio clustffonau os yw angen gwneud hynny, a mynediad at ardal ymneilltuo ar adegau o straen. Mae hyn i gyd wedi golygu bod C bellach yn edrych ymlaen at fynd i'r gwaith.

Hefyd, dywedodd C ers cwblhau'r PDC a gwneud ffrindiau ar y cwrs, fod ganddo fywyd y tu allan i'w deulu agos, sydd wedi rhoi gwell ymdeimlad o bwrpas a llesiant iddo.

## Cyflogaeth

Efallai na fydd cyflogwyr<sup>34</sup> yn sylweddoli y gall pobl awtistig fod yn fedrus ac yn gymwys iawn, ac y gallant fod yn yn gyflogadwy iawn<sup>35</sup>. Mae llawer yn gallu cynnal swyddi<sup>36</sup> ac mae rhai yn gyflawnwyr uchel iawn, gan ddal swyddi uwch mewn cwmnïau mawr.

Weithiau mae'r rolau hyn yn gysylltiedig â'u diddordebau arbennig, lle gallai'r unigolyn fod wedi treulio oriau lawer dros flynyddoedd lawer yn ymchwilio, yn dysgu ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n ymwneud â'u meysydd diddordeb penodol ac felly mae ganddynt gyfoeth syfrdanol o wybodaeth yn y maes hwnnw. Mae pobl awtistig eraill yn rhoi sylw mawr i fanylion ac yn rhagori mewn rolau sy'n gofyn am y sgil hwn; mae eraill yn gallu cynnal sylw ar dasgau ailadroddus am gyfnodau hir a byddent yn ased mewn rolau y mae angen canolbwyntio'n barhaus arnynt.

Er y gall fod angen addasiadau ar rai pobl awtistig yn y gweithle, megis ystyried y goleuadau neu'r sŵn, yn aml addasiadau bach fel rhoi esboniadau clir a gosod tasgau a chynlluniau gwaith clir yw'r cyfan y mae angen ei wneud.

34 <https://eur01.safelinks.protection.outlook.com/>

35 <https://eur01.safelinks.protection.outlook.com/>

36 <https://autismwales.org/en/employment/>



## 3.2 Codi ymwybyddiaeth o awtistiaeth yn y gymuned

Cafwyd cynnydd i'w groesawu o ran ymwybyddiaeth o awtistiaeth yn y gymuned ac mae llawer mwy o ymarferwyr bellach yn deall yr angen i addasu eu hymarfer i fodloni anghenion penodol pobl awtistig. Mae'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol wedi bod yn llwyddiannus iawn yn codi ymwybyddiaeth o awtistiaeth yn y gymuned ac mae'r gwaith hwn yn cael ei ddatblygu'n gyflym gyda nod penodol o gynnwys pobl awtistig yn y broses o ddatblygu a lledaenu adnoddau.

Mae gan y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol a'r Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol wobrau ystyriol o awtistiaeth sy'n hyrwyddo safleoedd fel busnesau a manau cyhoeddus sy'n ymrwymo i sicrhau bod ymwelwyr awtistig yn cael yr un croeso cynnes â phawb arall. Ledled Cymru, mae busnesau, lleoliadau ac atyniadau ymwelwyr wedi bod yn cymryd camau penodol i sicrhau eu bod yn fwy ystyriol o awtistiaeth ac yn helpu i greu cymdeithas sy'n gweithio i bobl awtistig.

Yn yr un modd, mae sefydliadau trydydd sector cenedlaethol a rhanbarthol, elusennau ac unigolion sy'n gwneud gwaith tebyg o ran codi ymwybyddiaeth.

### Engbreiffiau

- a. Gallai gwasanaethau sy'n dangos telehysbysebion mewn ystafelloedd aros gysylltu ag ymgyrchoedd a safleoedd gwybodaeth cenedlaethol.
- b. Gall gwasanaethau ddod yn sefydliadau sy'n ymwybodol o awtistiaeth a chodi ymwybyddiaeth drwy arddangos arwyddion mewn manau cyhoeddus. Bydd yr achrediad hwn hefyd yn cael ei arddangos ar wefan autismwales i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o sefydliadau sy'n ystyriol o awtistiaeth.

### Astudiaeth achos: 6

Mae'r rhaglen Weli Di Fi yn darparu adnoddau gan gynnwys gwybodaeth yn esbonio profiad pobl awtistig a'r addasiadau y gellir eu gwneud i roi cymorth.  
[asdifowales.co.uk/can-you-see-me](http://asdifowales.co.uk/can-you-see-me)

### Astudiaeth achos: 7

Derbyniodd Clwb Pêl-droed Wrecsam wobr ystyriol o awtistiaeth, ar ôl gweithio'n agos gyda changen Wrecsam Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru i ddeall sut gallent wneud profiad diwrnod gêm yn fwy hygyrch i bobl awtistig a'u teuluoedd yn yr ardal.

Mae'r clwb wedi gwneud cyfres o newidiadau bach ond pwysig, megis trefnu bod ystafell dawel ar gael, cymryd archebion bwyd a diod o'r seddi er mwyn osgoi'r ardal arlwyio brysur a darparu rhywfaint o offer synhwyraidd ac amddiffynwyr clustiau. Mae'r rhain wedi golygu bod diwrnodau gêm wedi dod yn llawer mwy cynhwysol ac erbyn hyn mae llawer o gefnogwyr awtistig yn gallu eu mwynhau, tra gallai gwyllo eu tîm fod yn amhosibl fel arall. [www.autism.org.uk/autismfriendly](http://www.autism.org.uk/autismfriendly).

Cyfeiriadur Llesiant cenedlaethol yw DEWIS Cymru. Llywodraeth leol sydd wedi'i ddatblygu, sy'n berchen arno ac sy'n darparu'r adnoddau ar ei gyfer. Mae'n rhannu gwybodaeth â chyfeiriadur y trydydd sector, "Infoengine" a chyfeiriadur gwasanaethau iechyd Galw Iechyd Cymru, i ddarparu cyfeiriadur a rennir o wasanaethau lleol a chenedlaethol. Mae creu'r cyfeiriadur hwn a rennir yn bwysig i bobl awtistig gan y gall helpu'r cyhoedd a staff rheng flaen i nodi a chysylltu â'r gofal, y cymorth neu'r cyfle cywir, gan y gwasanaeth, y sefydliad neu'r person cywir, ar yr adeg gywir.

Mae ap Iechyd a Llesiant Cymru yn darparu mynediad all-lein i'r holl adnoddau yn y cyfeiriadur a rennir, gan sicrhau mynediad at wybodaeth gywir a chyfredol waeth beth fo'r cysylltedd symudol. Bydd darparu'r ap i staff rheng flaen megis cysylltwyr cymunedol, meddygon teulu, gwasanaethau golau glas, ymwelwyr iechyd, swyddogion tai a thimau rhyddhau o'r ysbyty, yn eu galluogi i gael mynediad ar unwaith at adnoddau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.<sup>37</sup>

### Presgripsiynu cymdeithasol

Mae presgripsiynu cymdeithasol, neu atgyfeiriad cymunedol, yn fodd o alluogi meddygon teulu, nyrsys a gweithwyr gofal sylfaenol proffesiynol eraill i atgyfeirio pobl, gan gynnwys pobl awtistig, i amrywiaeth o wasanaethau lleol, anghlinigol:


- yn ogystal â chynorthwyo unigolion i gymryd mwy o reolaeth dros eu hiechyd eu hunain, gall cynlluniau presgripsiynu cymdeithasol hefyd arwain at lai o ddefnydd o wasanaethau'r GIG
- nod presgripsiynu cymdeithasol yw cynorthwyo pobl ag ystod eang o anghenion cymdeithasol, emosiynol neu ymarferol, ac mae llawer o gynlluniau'n canolbwyntio ar wella iechyd meddwl a llesiant corfforol.
- mae'r rhai a allai gael budd o gynlluniau presgripsiynu cymdeithasol yn cynnwys pobl â phroblemau iechyd meddwl ysgafn neu hirdymor, grwpiau agored i niwed, pobl awtistig, pobl sydd wedi'u hynysu'n gymdeithasol, a'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol neu eilaidd yn aml.

---

37 <http://www.dewis.cymru>

### 3.3 Dysgu a datblygu'r gweithlu

Bydd disgwyl i gyrff statudol gynnal dadansoddiad o anghenion hyfforddiant awtistiaeth ar gyfer eu staff, wedi'i deilwra i'w hanghenion proffesiynol.



Cyfrifoldeb rheolwyr fydd gwerthuso'r gwahanol rolau o fewn eu hadran a phennu lefel yr hyfforddiant sy'n briodol i'r rôl. Argymhellir y dylid gwneud hyn adeg recriwtio i benderfynu ar lefel yr hyfforddiant awtistiaeth sy'n briodol i'r rôl ac i gynnwys hyn mewn cynlluniau datblygu unigol.

## Enghraifft

Offeryn asesu unigol:

### Ymwybodol o Awtistiaeth

- Rydw i'n debygol o weithio mewn rôl sy'n wynebu'r cyhoedd ond ni fyddwn yn gwybod bod gan rywun awtistiaeth oni bai fod rhywun yn dweud wrtha i.

### Hysbys am Awtistiaeth

- Rydw i'n debygol o weithio mewn rôl lle, fel rhan o'm gwaith o ddydd i ddydd, gall unigolion gyflwyno gyda nodweddion posibl awtistiaeth er efallai nad wyf yn ymwybodol o hynny.
- Efallai y byddaf yn dod ar draws unigolion ag awtistiaeth yn fy ngwaith o ddydd i ddydd ac efallai y bydd angen i mi allu adnabod pan fydd ymatebion neu ymddygiad rhywun yn ymddangos yn anarferol ac addasu fy ymddygiad fy hun.

### Medrus ynghylch Awtistiaeth

- Rydw i'n gweithio mewn gwasanaeth lle mae'n bosibl y byddaf yn dod ar draws unigolion ag awtistiaeth. Gall fy ngwaith ganolbwyntio ar agweddau penodol ar y person, ond mae angen i mi allu adnabod awtistiaeth bosibl i allu addasu fy ymarfer.
- Mae angen i mi fod yn ymwybodol o awtistiaeth er mwyn addasu fy arfer ac atgyfeirio ymlaen os nad ydw i'n siŵr neu os ydw i angen manylion pellach ynghylch diagnosis, cymorth yr unigolyn, rheolaeth neu ymyriadau.

### Awtistiaeth Uwch

- Fel rhan o fy rôl, efallai y byddaf yn cymryd rhan mewn asesiadau diagnostig tîm neu'n cynnal sgrinio cychwynnol neu asesiad o unigolion yn fy ngwasanaeth ar gyfer atgyfeiriadau i wasanaeth arbenigol i gael diagnosis gwahaniaethol neu 2<sup>il</sup> farn.
- Rydw i'n debygol o weithio mewn tîm lle, fel rhan o'm gwaith bob dydd, mae unigolion yn debygol o gyflwyno gyda nodweddion posibl awtistiaeth.
- Yn fy ngwaith rheoli ac ymyriadau rheolaidd, efallai y bydd angen i mi ystyried bod gan rywun awtistiaeth a chynnal sgrinio cychwynnol ac asesiad er mwyn addasu fy ymarfer.
- Os yw'n achos cymhleth, efallai y bydd angen i mi atgyfeirio i wasanaethau arbenigol i gael asesiad llawn neu gael goruchwyliaeth arbenigol yn fy asesiad.

## Cynlluniau hyfforddi

Rhaid cael safonau hyfforddi gofynnol ar gyfer holl staff sefydliadau. Dylai'r hyfforddiant hwn gynnwys hyfforddiant sylfaenol ynghylch deall awtistiaeth, rheoli ymddygiad a chyfathrebu. Rhaid cynnig hyfforddiant mwy manwl, sy'n benodol i arbenigeddau, i ymarferwyr sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phobl awtistig.

Ar hyn o bryd nid yw hyfforddiant mewn awtistiaeth yn orfodol yng Nghymru. Mae cydweithwyr iechyd yn Lloegr eisoes wedi cytuno i'w wneud yn orfodol. Fel ag y mae ym mis Chwefror 2021, nid yw Cymru wedi penderfynu eto.

Fodd bynnag, mae hyfforddiant cydraddoldeb yn cynnwys addasiadau rhesymol ar gyfer pobl ag anghenion a nodwyd ac mae hyn yn cynnwys pobl awtistig.

## Hyfforddiant athrawon

Bydd y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (ADY) yn cefnogi hyfforddiant ar gyfer athrawon mewn cyflyrau niwroddatblygiadol ac er nad ydynt ar gyfer awtistiaeth yn benodol, mae datblygiadau mewn hyfforddiant HCA ynglŷn â llesiant dysgwyr. Gan nad yw llawer o blant awtistig yn bodloni'r trothwy ADY ond bod ganddynt anghenion emosiynol a seicolegol serch hynny sy'n effeithio ar eu profiad yn yr ysgol, mae'r **Dull Ysgol Gyfan** yn cwmpasu cymorth wedi'i deilwra i unigolion. Mae perthynas gadarnhaol rhwng staff ysgol a disgyblion yn hollbwysig i sicrhau dull ysgol gyfan mewn perthynas â llesiant emosiynol a meddyliol. Fodd bynnag, mae hyn ond yn bosibl os oes gan staff yr hyder a'r amser i wrando'n astud ar blant a phobl ifanc ac ymateb yn briodol hyd yn oed i bynciau ac ymddygiad sy'n heriol neu'n destun pryder. Mae angen hyfforddiant priodol ar staff ar gyfer hyn a'r cyfle i'w roi ar waith.

Dylid rhoi cyfleoedd ac amser i athrawon gael hyfforddiant ar lesiant plant a phobl ifanc. Efallai y bydd rhai athrawon hefyd am ddatblygu mwy o wybodaeth a dealltwriaeth broffesiynol o faterion mwy penodol fel awtistiaeth a dylent allu cael gafael ar amrywiaeth o adnoddau a hyfforddiant ychwanegol<sup>38</sup> i wneud hynny. Bydd cyfleoedd dysgu proffesiynol o'r fath hefyd yn cefnogi'r broses o weithredu'r cwricwlwm cenedlaethol newydd a chadw ato.

Mae deall a chael gwybodaeth am lesiant emosiynol a meddyliol dysgwyr, yn ogystal â'r angen i gydnabod anghenion dysgwyr unigol, yn rhan greiddiol o'r rhaglenni newydd mewn Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA). I gefnogi hyn ac fel rhan o'n hymrwymiad i gefnogi dull ysgol gyfan cyson ledled Cymru, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu modiwlau hyfforddi<sup>39</sup> ar ddatblygiad plant, llesiant emosiynol a meddyliol, niwroddatblygiad ac addysgeg, ac eraill a fyddai ar gael i athrawon o Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon, i Athrawon sydd Newydd Gymhwyso ac fel rhan o ddatblygiad proffesiynol parhaus.

Fodd bynnag, yn hytrach na chyfyngu ar hyfforddiant llesiant emosiynol a meddyliol i athrawon, mae'n bwysig bod adnoddau hyfforddi priodol ar gael i'r holl staff mewn ysgolion sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc. Dylid rhoi amser iddynt fel y gallant gynorthwyo dysgwyr a staff, gan weithio fel rhan o dimau amlddisgyblaethol i ddarparu ymgynghoriad, cyswllt a chyngor lle bo'n briodol. Dylid hefyd ystyried hyfforddiant ar y cyd, er mwyn meithrin gwell dealltwriaeth o'r gwahanol rolau sydd gan aelodau staff ac i feithrin perthynas.

Dylai ysgolion sicrhau bod staff yn gallu cael hyfforddiant gloywi, a allai gael ei gynnal gan gydlynwyr llesiant ar sail hyfforddi'r hyfforddwr.

38 <https://hwb.gov.wales/>

39 <https://hwb.gov.wales/>

## Canllawiau dysgu seiliedig ar waith

Mae dau ganllaw a gafodd eu cydgynhyrchu gydag arweinwyr awtistiaeth ar draws Cymru, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru ac ACT Training a phobl awtistig. Mae un canllaw newydd wedi'i gynllunio i helpu darparwyr hyfforddiant seiliedig ar waith i gefnogi pobl awtistig. Mae'r llall ar gyfer y dysgwyr awtistig i'w helpu i gwblhau ei daith dysgu seiliedig ar waith yn llwyddiannus.

Mae'r pecyn adnoddau yn rhan o'r cynllun Gweithio gydag Awtistiaeth. Mae'r pecyn yn cynnwys cyngor, gwybodaeth, awgrymiadau a chynghorion defnyddiol ar gyfer darparwyr hyfforddiant i'w helpu i greu amgylcheddau sy'n ystyriol o awtistiaeth ar gyfer dysgwyr yn y gweithle, yn amrywio o ystyriaethau synhwyraidd a chyfathrebu i reoli tasgau a chefnogi dysgwyr gyda'u gwaith.

Mae'r pecyn i ddysgwyr yn cynnwys gwybodaeth a chyngor ar sut i ddewis y lleoliad dysgu seiliedig ar waith cywir. Yna, unwaith y byddant ar leoliad, mae taflenni cyngor ar sut i drefnu eu llwyth gwaith a'u hamser, sut i reoli cyfnodau anstrwythuredig a ble i gael y cyngor a'r help sydd eu hangen arnynt. Mae'r ddau ganllaw<sup>40</sup> yn dilyn taith y dysgwr drwy'r broses dysgu seiliedig ar waith.

### Enghreiffiau

Byddai arfer gorau yn awgrymu y dylai'r canlynol ymgymryd â hyfforddiant mewn awtistiaeth:

- athrawon – diwrnodau HMS y cwricwlwm newydd – yn gysylltiedig â'r dull ysgol-gyfan, hyfforddiant cydraddoldeb
- y rhai sy'n cynnal asesiadau gofal a chymorth
- ymarferwyr cyffredinol – dylent fod yn borth i wasanaethau. Dylent wybod, o leiaf, sut mae'r llwybr yn gweithio yn eu hardal
- iechyd meddwl – plant ac oedolion
- timau camddefnyddio sylweddau
- timau anabledd dysgu
- staff rheng flaen
- consortia
- awdurdodau lleol – e.e. mae hyfforddiant y lluoedd arfog a cham-drin domestig wedi'i gyflwyno i'r holl staff
- nyrsys
- deintydd
- parafeddygon
- personél y gwasanaeth hamdden.

40 <https://autismwales.org/cy/rwyn-awtistig/addysg/dysgu-seiliedig-ar-waith/>

### 3.4 Gwasanaethau gofal sylfaenol iechyd

Y dull y cytunwyd arno ar gyfer iechyd a llesiant yw'r model gofal sylfaenol ar gyfer Cymru, sy'n cefnogi'r weledigaeth yn Cymru Iachach.

Mae gweithio integredig yn greiddiol i'r model hwn. Gweithio integredig yw pan mae meddygon teulu, nyrsys, fferyllwyr, deintyddion, optometryddion, deintyddion, ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol, gweithwyr cymdeithasol a phobl sy'n gweithio yn y sector gwirfoddol yn cydweithio yn y gymuned leol i gynllunio a darparu sawl ffordd wahanol i bobl gael gafael ar ofal a chymorth di-dor fel eu bod yn cael y gofal cywir ar yr adeg gywir gan y ffynhonnell gywir yn y cartref neu'n agos i'w cartref.

Yn unol â deddfwriaeth, dylai gwybodaeth am unigolion gael ei rhannu rhwng asiantaethau er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n gydgyssylltiedig ac yn cael eu darparu mewn modd di-dor ac amserol ar draws y gymuned. Dylai technoleg fodern, cyfleusterau a gwasanaethau lleol gael eu defnyddio i helpu pobl i fyw bywydau iach ac i gefnogi'r rheini sydd angen gofal.

#### Enghraifft

- a) Enghraifft o arfer da fyddai i wasanaethau gofal sylfaenol fabwysiadu cyfaill awtistiaeth yn unol â hyrwyddwr gofalwyr neu hyrwyddwr dementia mewn practisau meddygon teulu a all gefnogi'r unigolyn i gael mynediad i'r gwasanaeth.
- b) Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn cyflogi dwy nyrs arbenigol awtistiaeth sy'n rhedeg grwpiau oedolion ac yn codi ymwybyddiaeth o fewn y bwrdd iechyd. Gellid ehangu'r model hwn yn genedlaethol.

Dau o bedwar amcan y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yw sicrhau bod y cyrff partneriaeth yn cydweithio'n effeithiol er mwyn:

- darparu digon o adnoddau ar gyfer y trefniadau partneriaeth, yn unol â'u pwerau o dan adran 167 o'r Ddeddf
- hyrwyddo'r broses o sefydlu cronfeydd cyfun lle y bo'n briodol.

**Rhaid** i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol hefyd sicrhau bod yr holl bartneriaid yn cydweithio'n effeithiol i wella'r canlyniadau i bobl awtistig yn eu rhanbarth. Mae'n **rhaid** iddynt sicrhau bod gwasanaethau ac adnoddau yn cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon i alluogi hyn.

**Rhaid** i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol roi blaenoriaeth i integreiddio gwasanaethau sy'n cynnwys pobl awtistig a'u teulu/gofalwyr mewn perthynas â:

- phobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor
- pobl ag anabledau dysgu
- plant ag anghenion cymhleth
- gofalwyr, gan gynnwys gofalwyr ifanc
- Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd
- rhaid cael dull integredig o ddatblygu gwasanaethau, gofal a chymorth, sy'n canolbwyntio ar gyfleoedd i atal ac ymyrryd yn gynnar.

Plant a phobl ifanc:

- darparu help a chymorth cynnar i atal datblygiad anghenion mwy heriol
- darparu cymorth i deuluoedd er mwyn atal yr angen i blant dderbyn gofal
- lle mae plentyn yn derbyn gofal, darparu modelau gofal a chymorth sy'n lleihau'r angen ac yn hybu canlyniadau cadarnhaol
- hyrwyddo dulliau sy'n atal plant rhag mynd i'r ddalfa.

Yn y lle cyntaf, mae angen i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol atgyfnerthu datblygiad Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd a hefyd datblygu dull integredig o ddarparu gwasanaethau i blant ag anghenion cymhleth. Mae hyn yn cynnwys cefnogi trefniadau pontio integredig effeithiol o wasanaethau plant i wasanaethau i oedolion.

### 3.5 Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol

Rheoliad 3 o Reoliadau Gofal a Chymorth (Asesu) (Cymru) 2015 (OS 2015/1503 (Cy. 111), sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod gan unrhyw berson sy'n cynnal asesiad o dan y Ddeddf 2014:

- a. yn meddu ar y sgiliau, yr wybodaeth a'r cymhwysedd i gynnal yr asesiad o dan sylw
- b. wedi cael hyfforddiant ar gynnal asesiadau.

Wrth gynnal asesiad, rhaid i awdurdod lleol ystyried a yw natur anghenion y person yn galw am gael person sydd â sgiliau neu wybodaeth arbenigol, neu arbenigedd.

Os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu bod gofyn cael cyfraniad o'r fath, rhaid iddo naill ai ymgynghori â pherson y mae'n credu y bydd yn gallu darparu'r sgiliau hynny neu'r wybodaeth neu'r arbenigedd hwnnw neu drefnu i'r asesiad gael ei gynnal gan berson sydd â'r sgiliau, yr wybodaeth neu'r arbenigedd gofynnol.

### 3.6 Sefydliadau addysgol

Efallai y caiff y posibilrwydd bod gan blentyn awtistiaeth ac anghenion dysgu ychwanegol ei "ddwyn i sylw" yr ysgol gan y plentyn ei hun, gan riant neu aelod arall o'r teulu, neu gan gorff neu weithiwr proffesiynol allanol, megis yr awdurdod lleol. Os yw'r ysgol yn ymwybodol o'r posibilrwydd hwnnw, yna mae'r ddyletswydd i benderfynu yn gymwys (yn amodol ar yr eithriadau yn y Ddeddf ADY). (Nodir canllawiau ar y diffiniad o ADY a nodi pryd y gall fod gan blentyn ADY ym Mhennod 7 y Ddeddf ADY<sup>41</sup>).

---

41 <https://llyw.cymru/deddf-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru>



Mae'r canllawiau ar Anghenion Dysgu Ychwanegol yn nodi: (arfaethedig)

**Rhaid** i'r ysgol hysbysu'r plentyn a rhieni'r plentyn bod gofyniad arni i benderfynu a oes gan y plentyn ADY. **Rhaid** i'r hysbysiad gynnwys:

- enw a manylion cyswllt y cydlynedd dynodedig;
- gwybodaeth am sut i gael gafael ar drefniadau'r awdurdod lleol cyfrifol ar gyfer rhoi gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY a'r system ADY. Gellid gwneud hyn drwy ddarparu taflen awdurdod lleol am y system ADY neu gyfeiriad tudalennau gwe perthnasol yr awdurdod lleol a thynnu sylw at sut i gael gwybodaeth a chyngor pellach
- **dylai** hefyd roi syniad o'r amserlenni tebygol ar gyfer y broses.

Lle y caiff ei ddwyn i sylw ysgol gan blentyn neu riant plentyn y gall fod gan y plentyn ADY ond bod yr ysgol eisoes wedi penderfynu ynghylch y mater a'i bod yn fodlon nad yw anghenion y plentyn wedi newid yn sylweddol ers y penderfyniad hwnnw ac nad oes unrhyw wybodaeth newydd sy'n effeithio'n sylweddol ar y penderfyniad hwnnw, **dylai** gyfleu hyn i'r plentyn ac i rhieni'r plentyn a **dylai** roi gwybodaeth a chyngor iddynt am ADY a'r system ADY (gan gynnwys hawliau i apelio) os nad yw wedi gwneud hynny o'r blaen neu'n ddiweddar.

- **Dylid** ystyried a yw'r plentyn yn ymwneud ag asiantaethau eraill neu'n cael cefnogaeth ganddynt a'u cynnwys fel y bo'n briodol yn y broses o benderfynu a oes gan y plentyn ADY ac wrth baratoi unrhyw gynllun datblygu unigol. (Rhoddir canllawiau pellach ar rôl asiantaethau a gweithwyr proffesiynol gwahanol ym Mhennod 7 y Ddeddf ADY).
- Fel y disgrifiwyd ym Mhennod 3 (Deddf ADY) mae dyletswydd gyffredinol i gynnwys plant a'u rhieni mewn penderfyniadau sy'n ymwneud ag unrhyw ADY a allai fod ganddynt a'r gwaith o baratoi cynlluniau datblygu unigol. At hynny, mae rhoi'r plentyn wrth wraidd y broses sy'n nodi ei ADY ac sy'n pennu ei ddarpariaeth dysgu ychwanegol yn un o amcanion sylfaenol y system ADY. Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd hon a'r amcan hwn, **dylai'r** cydlynedd dynodedig fel arfer drefnu cyfarfod neu gyfarfodydd, fel sy'n briodol, gyda'r plentyn a rhieni'r plentyn i drafod a phenderfynu ar anghenion y plentyn ac, os oes angen, paratoi cynllun datblygu ar eu cyfer. (Ceir rhagor o ganllawiau ar y cyfarfodydd hyn ym Mhennod 18 o'r Ddeddf ADY).
- **Rhaid** i'r ysgol ystyried a ddylid cynnig darpariaeth anghenion ychwanegol i'r plentyn yn Gymraeg ac os yw'n penderfynu y dylid darparu darpariaeth dysgu ychwanegol benodol yn Gymraeg, **rhaid** i'r corff nodi yn y cynllun y dylai gael ei darparu yn Gymraeg.

### **Mae mynediad at addysg i blant anabl, gan gynnwys plant awtistig, yn golygu ystyried:**

- y cwricwlwm a sut caiff ei addysgu
- hygyrchedd adeiladau ysgol a'u hamgylchoedd, gweithgareddau ysgol gan gynnwys tripiâu ysgol a chludiant
- gwybodaeth a gweithgareddau a ddarperir gan ysgolion a pha mor hawdd ydyw i ddisgyblion anabl a/neu eu rhieni anabl eu deall.

Mae'r canllawiau Hygyrchedd Ysgolion diwygiedig yn helpu ysgolion ac awdurdodau lleol i nodi a mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n gallu atal plant anabl, gan gynnwys plant a phobl ifanc awtistig, rhag cael mynediad cyfartal at addysg, a sicrhau eu bod yn cael yr un cyfleoedd â'u cyfoedion i ddatblygu a chyflawni eu potensial. Mae yna hefyd dyletswyddau sy'n ofyniad statudol yn Atodlen 10 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

- **O leiaf bob tair blynedd**, rhaid i bob awdurdod lleol baratoi, gweithredu, adolygu a diweddarau **strategaeth hygyrchedd ysgrifenedig** sy'n nodi sut bydd camau gweithredu strategol yn gwella hygyrchedd i addysg ar gyfer disgyblion anabl yn erbyn pob un o'r tair dyletswydd gynllunio.
- **O leiaf bob tair blynedd**, rhaid i'r corff sy'n gyfrifol am ysgol baratoi, gweithredu, adolygu a diweddarau **cynllun hygyrchedd ysgrifenedig** sy'n nodi sut bydd gwelliannau penodol yn gwella mynediad at addysg yn erbyn y tair dyletswydd gynllunio ar gyfer disgyblion presennol a darpar ddisgyblion anabl.

Mae plant sydd â chyflwr ar y sbectrwm awtistiaeth yn cyflwyno gydag amrywiaeth o gryfderau, gwahaniaethau ac weithiau problemau ymddygiad. I'r plant hyn mae achos anawsterau ymddygiadol fel arfer yn ymwneud â symptomau craidd awtistiaeth ddim yn cael eu gwerthfawrogi, a diffyg cymorth ac addasiadau addas, er enghraifft wrth drosglwyddo<sup>42</sup> o un ysgol i'r llall neu rhwng dosbarthiadau blwyddyn.

Drwy addasu eich arfer<sup>43</sup>, bydd plentyn â chyflwr ar y sbectrwm awtistiaeth yn teimlo'n fwy diogel, yn llai gorbryderus ac yn deall yn well yr hyn a ddisgwylir ganddo. Yn ei dro, bydd hyn yn golygu bod y plentyn yn fwy tebygol o wella'i gyrhaeddiad, ymgysylltu'n well a'i fod yn llai tebygol o ddangos ymddygiad heriol.

Gall pob plentyn sydd â chyflwr ar y sbectrwm awtistiaeth fod â gwahaniaethau o ran cyfathrebu cymdeithasol, rhyngweithio cymdeithasol a dychymyg cymdeithasol ac maen nhw'n ffafrio rwtîn. Mae gan lawer broblemau synhwyraidd a phatrwm cyfyngedig o ymddygiad. Mae'n bwysig cofio bod y ffordd y mae hyn yn effeithio ar blentyn yn amrywio, ac nad yw cryfderau neu wendidau mewn un maes o anghenraid yn cyd-fynd â chryfderau neu wendidau mewn meysydd eraill.

Er enghraifft, gall plant â chyflwr ar y sbectrwm awtistiaeth sy'n gweithredu ar lefel uwch fod â defnydd da neu uwch na'r cyfartaledd o iaith hefyd. Nid yw cael geirfa gymhleth yn golygu y bydd y plentyn yn deall yr un lefel o eirfa, nac y bydd y plentyn yn deall yr eirfa y mae'n ei defnyddio.

Ni ddylem anghofio'r nodweddion cadarnhaol niferus sydd gan blant â chyflwr ar y sbectrwm awtistiaeth. Mae cael cyflwr ar y sbectrwm awtistiaeth yn aml yn golygu bod plant yn gallu talu sylw i fanylion, dilyn rheolau clir a bod yn onest. Gellir defnyddio'r galluoedd hyn i annog ymgysylltiad, a'u galluogi i wneud eu cyfraniad unigryw eu hunain o fewn y lleoliad.

Oherwydd y problemau y mae plant sydd â chyflwr ar y sbectrwm awtistiaeth yn eu profi, mae llawer yn ei chael hi'n anodd dilyn y cwricwlwm yn enwedig lle bydd gweithgareddau'n seiliedig ar chwarae a bydd angen gwahaniaethu arddulliau a dulliau addysgu.

Datblygwyd y rhaglen Dysgu gydag Awtistiaeth<sup>44</sup> er mwyn rhoi dealltwriaeth well o gyflwr ar y sbectrwm awtistiaeth a sut i ddiwallu anghenion plant sydd â'r cyflwr i leoliadau'r blynyddoedd cynnar<sup>45</sup>.

Ni fydd gan bob plentyn awtistig anghenion dysgu ychwanegol. Fodd bynnag, efallai y bydd angen ystyried anghenion eraill a nodwyd er mwyn hwyluso amgylchedd sy'n ffafriol i ddysgu<sup>46</sup>.

42 <https://www.autism.org.uk/advice-and-guidance/topics/transitions/wales>

43 <https://autismwales.org/cy/addysg/>

44 <https://autismwales.org/cy/>

45 [https://autismwales.org/wp-content/uploads/2020/10/Autism\\_A-Guide-for-Early-Years-Settings\\_Cym.pdf](https://autismwales.org/wp-content/uploads/2020/10/Autism_A-Guide-for-Early-Years-Settings_Cym.pdf)

46 <https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/disgyblion-ag-anghenion-addysgol-arbennig-mewn-ysgolion-prif-ffrwd-adroddiad>

Mae Cymru wedi creu 'Cenhadaeth ein Cenedl'<sup>47</sup> ar gyfer addysg, lle mae amcan 3 (ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i sicrhau rhagoriaeth, tegwch a lles) yn cydnabod bod "rhaid i bob dysgwyr fod yn barod yn emosiynol ac yn gorfforol i ddysgu mewn amgylchedd diogel a chefnogol". Bydd y cwricwlwm newydd yn cael ei gyflwyno o 2022, gan roi iechyd a llesiant wrth wraidd y broses. Bydd yn sicrhau bod iechyd meddwl yn cael yr un flaenoriaeth ag iechyd corfforol, a bod llesiant y disgyblion yn cael yr un pwys â'u cyrhaeddiad academaidd.

Mae'r Dull Ysgol Gyfan<sup>48</sup> yn cynnwys pawb o fewn yr ysgol - myfyrwyr, staff a chynrychiolwyr asiantaethau allanol - gan roi llesiant myfyrwyr, athrawon a phawb sy'n ymwneud â gweithrediad effeithiol yr ysgol wrth wraidd popeth a wnânt. Mae'n ethos sy'n gwerthfawrogi cynhwysiant, lle mae pawb yn gweithio gyda'i gilydd, gan gyfrannu eu sgiliau a'u hadnoddau unigol er lles pawb. Meithrin dealltwriaeth a rennir o'r hyn yw amgylchedd cefnogol lle mae pobl ifanc yn cael eu hannog i gyflawni eu potensial personol ac academaidd, gyda chefnogaeth athrawon sy'n gweithredu mewn diwylliant sy'n gwerthfawrogi eu llesiant nhw ac eraill.

Bydd mabwysiadu'r gwerthoedd hyn yn helpu i gefnogi plant awtistig gyda'r rhwystrau emosiynol a seicolegol y mae rhai yn eu hwynebu wrth reoli eu bywyd ysgol.

Mae'r canllawiau statudol Rhan 9 wedi'u diweddarau ar gyfer Deddf 2014 yn nodi bod gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol rôl allweddol i'w chwarae o ran dwyn partneriaid ynghyd i benderfynu ble y bydd darpariaeth integredig o wasanaethau, gofal a chymorth yn fwyaf buddiol i blant, pobl ifanc ac oedolion, gan gynnwys pobl awtistig. Bydd angen i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol sicrhau bod yr holl bartneriaid yn cydweithio'n effeithiol i wella canlyniadau. Bydd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol hefyd yn chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o oruchwylio a llywodraethu trefniadau partneriaeth. Dylai cylch gorchwyl y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ei gwneud yn glir a yw'r cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau wedi'i ddirprwyo i aelodau'r bwrdd o'u priod gyrrff, neu sefydliadau, lle y bo'n briodol. **Bellach bydd** aelodaeth y bwrdd yn cynnwys:

- o leiaf un uwch swyddog o'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am addysg yn un o'r ardaloedd a gwmpesir gan y bwrdd partneriaeth rhanbarthol.

---


47 <https://llyw.cymru/cenhadaeth-ein-cenedl>

48 <https://llyw.cymru/sefydlu-dull-ysgol-gyfan-o-ymdrin-ag-iechyd-lles-meddyliol>

# Adran 4



Trefniadau ar gyfer Cynllunio  
a Monitro Gwasanaethau  
ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid



## Mae'r adran hon yn disgrifio'r trefniadau ar gyfer:

- 4.1 Asesiadau poblogaeth
- 4.2 Casglu data ar awtistiaeth
- 4.3 Monitro a gwella gwasanaethau ar gyfer awtistiaeth
- 4.4 Cydymffurfio â'r Cod
- 4.5 Cynnwys rhanddeiliaid awtistiaeth
- 4.6 Rôl hyrwyddwr awtistiaeth rhanbarthol

### 4.1 Asesiadau poblogaeth

**Rhaid** i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol sicrhau eu bod yn casglu gwybodaeth leol am anghenion eu poblogaeth awtistig leol er mwyn hysbysu'r asesiad o anghenion y boblogaeth ac i fonitro'r modd y darperir y cynllun ardal fel y maent yn berthnasol i anghenion pobl awtistig a theulu/gofalwyr. Bydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn casglu'r wybodaeth hon drwy ei strwythur cynllunio rhanbarthol. (gweler y siart llif **yn Adran 4.6**)

Rhaid i fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol gasglu gwybodaeth ar lefel leol i gefnogi'r broses o ddatblygu asesiad o anghenion y boblogaeth mewn perthynas ag awtistiaeth. Bydd hyn yn cael ei hwyluso drwy'r grŵp awtistiaeth strategol (gweler y siâr llif **yn Adran 4.6**)

Ar hyn o bryd, mae asesiadau poblogaeth yn cwmpasu wyth thema graidd, gan gynnwys anabledd dysgu/awtistiaeth fel sy'n ofynnol gan y Cod Ymarfer ar Ran 2 o'r Ddeddf 2014. I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch y Cod Ymarfer Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol). Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wneud **awtistiaeth yn thema annibynnol**, a bydd cwestiynau'n ymwneud yn benodol â'r ddarpariaeth awtistiaeth. Er mwyn paratoi ar gyfer hyn, dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ystyried datblygu'r strwythurau yn **4.6** o'r canllawiau hyn.

### 4.2 Casglu data ar awtistiaeth

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn casglu data lefel uchel ar awtistiaeth fel rhan o gasgliadau data ehangach. Mae hyn yn cynnwys:

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) – Pobl sy'n derbyn gofal a chymorth
- Safon amser aros 26 wythnos niwroddatblygiadol – plant (ar y gweill ar gyfer oedolion)
- Ysgolion – Cyfrifiad ysgolion blynyddol ar lefel disgyblion
- Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth Cymru
- Data sy'n seiliedig ar ganlyniadau a thrwybwn gan yr IAS
- Fframwaith Cynllunio'r GIG
- Cynlluniau Tymor Canolig Integredig ar gyfer lechyd
- mae SAIL Databank (Prifysgol Abertawe) yn adnodd amhrisiadwy o ran cyfoeth ac ehangder y data a gesglir yn rheolaidd sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer ymchwil cysylltu data. Mae'r amrywiaeth eang o setiau data yn amrywio o gofnodion meddygon teulu, data ysbytai a gwasanaethau brys, i iechyd meddwl, gwasanaethau cymdeithasol, addysg a data'r arolwg cenedlaethol

- WCCIS – System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru. Bydd y Cod yn llywio'r meysydd y byddai angen eu cynnwys yn y system i gasglu tystiolaeth am awtistiaeth
- Caiff data am weithlu Llywodraeth Cymru ei ddefnyddio i lywio galw a chapasiti.

### 4.3 Monitro a gwella gwasanaethau ar gyfer awtistiaeth

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n cynnal adolygiad galw a chapasiti o ddarpariaeth gwasanaethau ledled Cymru. Bydd hyn yn cynnwys gwasanaethau i blant ac oedolion. Bydd yn cael ei ddilyn gan adolygiad manwl o'r gwasanaethau a ddarperir ledled y DU a gwasanaethau pellach, gan gynnig modelau o arferion gorau a fydd yn cynnwys canlyniadau ar gyfer pobl awtistig.

Bydd canllawiau pellach ar fonitro a darparu gwasanaethau yn cyd-fynd â'r argymhellion a wneir yn yr adroddiad.

#### Monitro

Bydd canlyniadau'r gwasanaeth yn cael eu mesur gan ddefnyddio offeryn achrededig. Ar hyn o bryd mae'r IAS yn defnyddio adnodd Seren Canlyniad i fesur canlyniadau unigol. Bydd yr adolygiad o alw a chapasiti yn trafod y broses o fonitro darpariaeth gwasanaethau yn fanylach.

#### Gwella gwasanaethau

Bydd natur a chyflymder y cynlluniau i wella gwasanaethau lleol yn adlewyrchu anghenion lleol o ran iechyd a gofal cymdeithasol a natur y gwasanaethau presennol.

Adnodd cynllunio ar gyfer Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yw Fframwaith NYTH. Ei nod yw sicrhau dull system gyfan ar gyfer datblygu gwasanaethau iechyd meddwl, llesiant a chymorth i fabanod, plant, pobl ifanc, rhieni, gofaluwr a'u teuluoedd ehangach ledled Cymru.

### 4.4 Cydymffurfio â'r Cod

#### Gorfodi'r Cod

Gallai torri'r Cod olygu, yn achos awdurdod lleol, methu â chyflawni gwasanaeth cymdeithasol yn briodol o dan adran 145 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Yn achos bwrdd iechyd lleol, neu ymddiriedolaethau iechyd mae'n bosibl bod hyn yn gyfystyr â thorri cyfarwyddyd a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf y GIG (Cymru) 2006. Yn y ddau achos hyn, bydd methiant o'r fath yn gallu arwain at gymryd camau gorfodi gan Weinidogion Cymru. Fodd bynnag, ni fydd y cod ei hun yn creu unrhyw rwymedïau na dulliau newydd ar gyfer gorfodi.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cael ei gwneud yn ymwybodol o fethiant i gyflawni trwy:

- gwynion/pryderon gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol
- adroddiadau gorfodol cyfredol i Lywodraeth Cymru ac
- ymgysylltu â phobl awtistig a'u cynrychiolwyr.

## Gweithredu'n groes i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

- Pan nad yw awdurdod lleol yn dilyn y dyletswyddau yn unol a'r gofynion a nodir yn y Cod, mae'n bosibl nad yw'r awdurdod yn gweithredu yn unol â gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (adran 145(3))
- Mae'r Cod yn pennu dyletswyddau a gofynion ar gyfer Awdurdodau Lleol. Y cyntaf yw'r rhai y mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol gydymffurfio â nhw, a'r ail yw'r canllawiau y dylai Awdurdod Lleol DALU SYLW iddynt (y dylai Awdurdodau Lleol eu dilyn).

## Gweithredu'n groes i Ddeddf y GIG (Cymru) 2006

- Pan nad yw bwrdd iechyd lleol yn dilyn y dyletswyddau a'r gofynion a nodir yn y Cod, mae'n bosibl nad yw'r bwrdd iechyd lleol yn gweithredu yn unol a gofynion y Deddf GIG (Cymru) 2006 na'r o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (adran 145(3)).
- Mae'r Cod yn pennu dyletswyddau a gofynion ar gyfer byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau iechyd.
- Felly bydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi cyfarwyddiadau o dan adrannau 12 a 19 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006 i'w gwneud yn ofynnol i'r cyrff iechyd ystyried y canllawiau sydd wedi'u cynnwys yn y Cod
- Rhaid i gyfarwyddyd o dan adran 12 neu 19 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006 fod "gan offeryn yn ysgrifenedig". Mae 'offeryn ysgrifenedig' yn cynnwys llythyr, cylchlythyr iechyd Cymraeg neu unrhyw gyfarwyddiadau ysgrifenedig wedi'u nodi mewn fformat sy'n debyg iawn i un statudol: rhaid i ba bynnag ffurf y mae'r cyeiriad fod yn ddigon clir fel bod y corff iechyd y cyfeirir ato yn gwybod yn union beth fyddai ei angen ohono
- Os na fydd bwrdd iechyd lleol neu ymddiriedolaeth GIG yn cydymffurfio â'r cyfarwyddiadau, mae adran 28 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006 (pŵerau diofyn) yn cynnwys pŵerau sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i gymryd camau gorfodi yn erbyn y corff iechyd diffygiol.

## Cyrff Partneriaeth

Yn ogystal, mae'n rhaid i fyrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol ystyried canllawiau statudol a gyhoeddwyd o dan adran 169 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sy'n ymwneud â chytundebau partneriaeth.

Mae'n ofynnol i Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddarparu adroddiad 6 misol i Gweinidogion Cymru sy'n dangos effeithiau, canlyniadau a dysg o'r prosiectau a ariennir gan gynnwys unrhyw brosiectau sy'n gysylltiedig ag awtistiaeth. Rhaid i bob adroddiad fod yn gronol a rhaid iddo grynhoi'r sefyllfa gyffredinol ar adeg benodol o'r flwyddyn ariannol mewn perthynas â phobl fregus a hŷn, (a all gynnwys pobl awtistig), pobl ag anabledau dysgu, (a all hefyd gynnwys pobl awtistig) plant ag anghenion cymhleth gan gynnwys awtistiaeth, gofalwyr, (gan gynnwys gofalu am bobl awtistig), plant y mae risg iddynt fynd yn blant sy'n derbyn gofal, plant sydd mewn gofal neu blant sydd wedi'u mabwysiadu.

Er mwyn cynorthwyo gyda'r adroddiadau hyn a sicrhau bod lleisiau pobl awtistig yn cael eu clywed yn glir, mae rôl yr Hyrwyddwr Awtistiaeth, Arweinwyr ASD yr awdurdod lleol, y rhai sy'n bennaf gyfrifol am awtistiaeth yn y byrddau iechyd, y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig a'r trydydd sector wrth gydgyssylltu'r gwaith o gasglu barn y cymunedau awtistig y maent yn gweithio ynddynt yn hanfodol.

## Rhaid i rannau perthnasol o adroddiadau'r RPB gynnwys:

- Crynodeb o elfennau allweddol y cynnydd ar eu Cynllun Ardal, gan gynnwys gwella gwasanaethau Awtistiaeth.
- Dylai hefyd gynnwys, ymhlith gwybodaeth arall, dystiolaeth o sut y mae wedi ymgysylltu â phobl awtistig, gofalwyr, teuluoedd, staff ac adborth cyffredinol i gefnogi'r adroddiad (gweler **Adran 4.6**).

Dylid anfon diweddariadau chwarterol ar y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yn uniongyrchol at Arweinydd ASD Cenedlaethol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost: [autismwales@wlga.gov.uk](mailto:autismwales@wlga.gov.uk). Dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol gadarnhau wrth Lywodraeth Cymru eu bod wedi gwneud hyn.

Bydd hefyd yn ofynnol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddarparu gwybodaeth a thystiolaeth i gyfrannu at adroddiad blynyddol gan Lywodraeth Cymru ar gyflawni ac effaith y Gronfa Gofal Integredig<sup>49</sup> yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw wasanaethau awtistiaeth.

## 4.5 Cynnwys rhanddeiliaid awtistiaeth

Rhaid i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol sicrhau bod pobl awtistig a'u rhieni a'u gofalwyr yn cael cyfle i fod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu a monitro gwasanaethau awtistiaeth.

Mae grwpiau ymgysylltu wedi'u sefydlu eisoes sy'n gwneud cyfraniadau rhagorol at lawer o wahanol feysydd darpariaeth awtistiaeth. Y safonau i fesur effeithiolrwydd ymgysylltu yw:

1. Byddwn yn nodi ac yn cynnwys y bobl a'r sefydliadau sy'n cael eu heffeithio gan ffocws yr ymgysylltu.
2. Byddwn yn nodi ac yn goresgyn unrhyw rwystrau i gymryd rhan.
3. Ceir diben clir ar gyfer yr ymgysylltu, sy'n seiliedig ar gyd-ddealltwriaeth o anghenion ac uchelgeisiau'r gymuned.
4. Byddwn yn cydweithio'n effeithiol i gyflawni nodau'r ymgysylltu.
5. Byddwn yn cyfathrebu'n glir ac yn rheolaidd â'r bobl, y sefydliadau a'r cymunedau sy'n cael eu heffeithio gan yr ymgysylltu.
6. Byddwn yn asesu effaith yr ymgysylltu ac yn defnyddio'r hyn rydym wedi'i ddysgu i wella ein hymgysylltiad â'r gymuned yn y dyfodol.

Bydd grwpiau rhanddeiliaid lleol sy'n dwyn ynghyd bobl awtistig ac amrywiaeth o bobl sydd â diddordeb mewn awtistiaeth yn llywio'r gwaith ar gyfer y grŵp awtistiaeth strategol. Caiff y rhain eu hwyluso gan arweinydd ASD yr awdurdod lleol a fydd yn aelod o'r grŵp awtistiaeth strategol.

---

<sup>49</sup> <https://llyw.cymru/canllawiaur-gronfa-integredig-2021-i-2022>



## Enghraifft

Dylai adroddiadau blynyddol gynnwys diweddariadau byr o'r:

- gymuned awtistig
- gwybodaeth berthnasol gan weithwyr proffesiynol, y trydydd sector yn gweithio gyda'r grŵp hwn
- canlyniadau ymgynghori â phobl awtistig, eu gofalwyr a'u teuluoedd
- bylchau a nodwyd yn narpariaeth gwasanaethau
- nodi bylchau mewn gwybodaeth
- darpariaeth gwasanaeth cadarnhaol.

## 4.6 Rôl hyrwyddwr awtistiaeth rhanbarthol

Bydd rôl yr Hyrwyddwr Awtistiaeth yn rhan o strwythur llywodraethu'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol er mwyn sicrhau craffu effeithiol ar wasanaethau awtistiaeth yn y rhanbarth. Bydd gan y person hwn lais cyfartal i aelodau eraill y Bwrdd.

## Enghreifftiau

- a) Mewn un rhanbarth, cafodd cynrychiolydd gofalwyr y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ei enwebu gan y Bwrdd i fod yn Hyrwyddwr Awtistiaeth. Mae'r unigolyn yn digwydd bod â gwybodaeth a phrofiad penodol o awtistiaeth fel rhiant, yn ogystal â gwybodaeth am wasanaethau awtistiaeth lleol yn y sir lle mae'n byw.
- b) Mae rhanbarth arall wedi enwebu cadeirydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol fel Hyrwyddwr Awtistiaeth, sydd hefyd yn Gadeirydd y Bwrdd Iechyd ac sydd â phrofiad teuluol o awtistiaeth. Fel hyn, mae nifer aelodau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn aros yr un fath ac mae rhywun yn cael ei enwebu o fewn y Bwrdd i fod yn Hyrwyddwr Awtistiaeth.

## Proffil o rôl Hyrwyddwr Awtistiaeth Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol

Mae bod yn Bencampwr Awtistiaeth yn golygu eirioli dros godi ymwybyddiaeth o'r problemau sy'n wynebu pobl awtistig a rhieni a gofalwyr oedolion a phlant awtistig. Mae'n golygu bod â diddordeb a bod yn barod i ddysgu mwy am faterion sy'n wynebu pobl awtistig.

## Beth yw disgwyliadau'r rôl?

- Annog cydweithwyr ar y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i godi ymwybyddiaeth o gyflyrau ar y sbectrwm awtistiaeth a'r problemau y mae pobl yn eu hwynebu.
- Helpu i godi ymwybyddiaeth o'r holl faterion y tynnir sylw atynt yn y Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Awtistiaeth gan gynnwys tyfu, dysgu, byw a gweithio gydag awtistiaeth.
- Bod y prif gyswllt ar y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar gyfer awtistiaeth a gwybod â phwy i gysylltu am fwy o wybodaeth.
- Bod yn eiriolwr dros ddarparu gwasanaethau yn eich rhanbarth.

## Beth y gellid gofyn i chi ei wneud?

- Hyrwyddo eich rôl yn gadarnhaol a bod yn bwynt cyswllt ar y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol mewn perthynas ag awtistiaeth.
- Rhoi adborth ar gynnydd gwasanaethau a datblygiadau mewn perthynas ag awtistiaeth gan bartneriaid allweddol y Bwrdd.
- Helpu i weithredu mentrau codi ymwybyddiaeth penodol ar lefel ranbarthol.
- Cysylltu ag Arweinwyr Awtistiaeth yn yr Awdurdodau Lleol ac asiantaethau partner eraill yn ôl y gofyn.

## Gofynion

- Mae gwybodaeth am faterion sy'n ymwneud ag awtistiaeth neu barodrwydd i ddysgu yn hanfodol
- Bydd angen tua awr yr wythnos ar y rôl, ond os ydych yn dymuno ymrwymo mwy o amser bydd hyn yn helpu i wella bywydau pobl awtistig yn y gymuned.

## Enghraifft

Bydd yr Hyrwyddwr Awtistiaeth yn coladu'r wybodaeth gan y grŵp awtistiaeth strategol ac yn ei fwydo i'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol. Bydd hyn yn helpu i lywio cynllun ardal flynyddol y Bwrdd â'r asesiadau poblogaeth pum mlynedd. Bydd yr Hyrwyddwr Awtistiaeth yn rhaeadru'n ôl wybodaeth berthnasol i'r grŵp awtistiaeth stratego.

# Llywodraeth Cymru

## Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol / Hyrwyddwr Awtisiaeth

Adroddiad blynyddol /  
asesiad poblogaeth /  
cynllun ardal

## Bwrdd Strategol

Uwch Cynrychiolydd A LI

Uwch Cynrychiolydd BILI ?????? Is this correct?

Gyda chefnogaeth arweinyddion IAS, arweinyddion ASD ac ymarferwyr arbenigol

Uwch Cynrychiolydd y Trydedd Sector

Hyrwyddwr Awtistiaeth

Adroddiad blynyddol- cyfraniad  
i'r asesiad poblogaeth a'r  
cynllun ardal

## Pobl awtitig / Teulu / Gofalwyr

Grwpiau Ymgysylltu /  
grwpiau sydd eisoes  
yn bod

# Rhestr o dermau

Term	Ystyr
<b>Addasiadau rhesymol</b>	Gall gwahanol faterion synhwyrdd, cymdeithasol a gwybyddol achosi problemau i bobl awtistig. Rhaid i gyflogwyr / darparwyr gwasanaethau ystyried gwahanol ffyrdd o weithio / cael gafael ar wasanaethau er mwyn sicrhau bod pobl awtistig yn cael eu cynnwys yn llawn.
<b>Amlasiantaethol</b>	Grŵp o ymarferwyr o fwy nag un asiantaeth, megis iechyd, gofal cymdeithasol, addysg, yn gweithio gyda'i gilydd.
<b>Amlddisgyblaethol</b>	Amrywiaeth o weithwyr iechyd proffesiynol sy'n aelodau o ddisgyblaethau gwahanol yn darparu gwasanaethau penodol i unigolyn ar y cyd.
<b>Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig (ASD)</b>	Anhwylder datblygiadol sy'n effeithio ar y ffordd y mae person yn cyfathrebu ac yn ymwneud â phobl eraill a'r byd o'i gwmpas. Mae'r ffordd yr effeithir ar bobl yn amrywio o un unigolyn i'r llall ac yn ôl oedran a gweithrediad deallusol.
<b>Ansawdd ac effaith</b>	Mae'n rhaid i wasanaethau plant ac oedolion ddisgwyl i berfformiad gael ei fonitro. Dylid cofnodi ansawdd ac effaith y gwasanaethau a dderbynnir gan ddefnyddio cyfres o baramedrau a gydnabyddir yn genedlaethol i gofnodi hyn.
<b>Arbenigwr</b>	Gwasanaethau wedi'i ddarparu gan ymarferwr sydd wedi cwblhau addysg a hyfforddiant uwch sy'n sbesiffig i awtistiaeth.
<b>Arwyddion a symptomau</b>	Cyfuniad o oedi mewn nodweddion datblygiad disgwylidig a phresenoldeb nodweddion anarferol - eu bwriad yw tynnu sylw gweithwyr proffesiynol at y posibilrwydd o awtistiaeth mewn plentyn, person ifanc neu oedolyn sy'n destun pryder. Ni fwriedir iddynt gael eu defnyddio ar eu pen eu hunain, ond i helpu gweithwyr proffesiynol i adnabod patrwm o heriau mewn sgiliau cymdeithasol a chyfathrebu cilyddol, ynghyd ag ymddygiad cyfyngedig ac ailadroddus anarferol.

Term	Ystyr
<b>Asesu/Asesiad</b>	Cyfarfod neu gyfarfodydd gyda gweithiwr iechyd neu ofal cymdeithasol proffesiynol lle maen nhw'n gofyn cwestiynau am iechyd meddwl a chorfforol yr unigolyn, ei gefndir teuluol a'i fywyd bob dydd, i ganfod beth yw'r cyflwr neu'r broblem, pa mor ddifrifol ydyw a pha ofal neu gymorth fyddai'n gweddu orau i'r unigolyn.
<b>Asesiad gofalwr</b>	Mae gofalwr yn cael ei ddiffinio yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant fel person sy'n darparu neu sy'n bwriadu darparu gofal i oedolyn neu blentyn anabl. Mae cael asesiad o anghenion gofalwr yn hawl gyfreithiol. Mae'n berthnasol i bob gofalwr, beth bynnag fo'i oed, sy'n gofalu am rywun sy'n anabl, yn sâl neu'n oedrannus. Gwneir yr asesiad gan awdurdod lleol y gofalwr. Bydd yr awdurdod lleol yn asesu anghenion y gofalwr i weld pa gymorth neu wasanaethau all fod o gymorth er mwyn galluogi'r gofalwr i gyflawni ei rôl.
<b>Atgyfeirwyr</b>	Rhywun sydd â'r gallu i atgyfeirio unigolyn i gael asesiad, fel meddygon teulu, paediatregwyr, ymwelwyr iechyd, gweithwyr cymdeithasol, nyrsys ysgol, athrawon, staff meithrin/cyn ysgol, gweithwyr argyfwng ac, mewn rhai achosion, rhieni/gofalwyr neu hunanatgyfeirio.
<b>Byrddau Iechyd Lleol</b>	Mae Byrddau Iechyd Lleol yn gyfrifol am gynllunio, ariannu a darparu'r canlynol yn eu hardaloedd: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwasanaethau gofal sylfaenol - meddygon teulu, fferyllfeydd, deintyddion ac optometryddion</li> <li>• Gwasanaethau ysbyty ar gyfer cleifion mewnol a chleifion allanol</li> <li>• Gwasanaethau cymunedol, gan gynnwys rhai a ddarperir drwy ganolfannau iechyd cymunedol a gwasanaethau iechyd meddwl.</li> </ul>
<b>Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol</b>	Arweiniodd y rheoliadau a wnaed o dan Ran 9 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant at sefydlu saith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae'r byrddau hyn yn dwyn ynghyd iechyd, awdurdodau lleol, y trydydd sector, dinasyddion a phartneriaid eraill. Y nod yw ysgogi'r broses o integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn gwella canlyniadau a llesiant pobl a gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd darpariaeth gwasanaethau. Mae cydgynhyrchu yn un o egwyddorion allweddol y Ddeddf ac mae'n ofynnol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol weithio gyda phobl i ddatblygu a darparu gwasanaethau integredig.

Term	Ystyr
<b>Canlyniadau personol</b>	<p data-bbox="678 232 1378 338">Yn achos oedolyn, mae'n golygu'r canlyniadau yr hoffai'r oedolyn eu cyflawni yn ei fywyd o ddydd i ddydd; yn achos plentyn, mae'n golygu:</p> <p data-bbox="678 376 1406 407">(i) y canlyniadau yr hoffai'r plentyn eu cyflawni; neu</p> <p data-bbox="678 445 1469 510">(ii) y canlyniadau yr hoffai unrhyw un sydd â chyfrifoldeb rhiant eu cyflawni mewn perthynas â'r plentyn.</p>
<b>Cydgynhyrchu</b>	<p data-bbox="678 548 1469 654">Ffordd o weithio lle mae ymarferwyr a phobl yn gweithio gyda'i gilydd fel partneriaid cyfartal i gynllunio a darparu gofal a chymorth.</p>
<b>Cyflwr ar y Sbectrwm Awtistig (ASC)</b>	<p data-bbox="678 692 1398 869">Cyflwr datblygiadol sy'n effeithio ar y ffordd y mae person yn cyfathrebu ac yn ymwneud â phobl eraill a'r byd o'i gwmpas. Mae'r modd yr effeithir ar bobl yn amrywio o un unigolyn i'r llall ac yn ôl oedran a gweithrediad deallusol.</p>
<b>Cyflyrau sy'n cyd-ddigwydd</b>	<p data-bbox="678 907 1465 1012">Presenoldeb dau gyflwr neu ragor sy'n digwydd naill ai ar yr un pryd, neu'n olynol (un cyflwr yn digwydd yn syth ar ôl y llall).</p>
<b>Cymhwystra</b>	<p data-bbox="678 1050 1458 1122">Unigolyn yn cael gwneud neu dderbyn rhywbeth am eu bod yn bodloni amodau penodol.</p>
<b>Cymorth</b>	<p data-bbox="678 1160 1445 1375">Mae anghenion cymorth pobl awtistig yn amrywio'n fawr. Bydd oedolion sy'n aros am ddiagnosis o awtistiaeth yn gallu cael cyngor a chefnogaeth gan wasanaethau awtistiaeth oedolion heb fod angen i rywun arall eu hatgyfeirio. Mae Adran 2 y Cod Ymarfer yn rhoi manylion am ofal a chymorth.</p>
<b>Cynlluniau Gofal a Chymorth</b>	<p data-bbox="678 1413 1453 1518">Dogfen ysgrifenedig yw'r cynllun gofal a chymorth, sy'n nodi'r hyn a drafodwyd gyda chi yn ystod eich asesiad a'r hyn sy'n mynd i ddigwydd o ganlyniad.</p>

Term	Ystyr
<b>Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol</b>	<p>Mae i "darpariaeth ddysgu ychwanegol" yr ystyr a roddir gan adran 3 o'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol, sef:</p> <p>(1) Ystyr "darpariaeth ddysgu ychwanegol" i berson sy'n dair oed neu'n hŷn yw darpariaeth addysgol neu ddarpariaeth hyfforddiant sy'n ychwanegol at yr hyn, neu sy'n wahanol i'r hyn, a wneir yn gyffredinol i eraill sydd o'r un oedran— (a) mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir yng Nghymru, (b) mewn sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach yng Nghymru, neu (c) mewn mannau yng Nghymru lle y darperir addysg feithrin.</p> <p>(2) Ystyr "darpariaeth ddysgu ychwanegol" i blentyn sy'n iau na thair oed yw darpariaeth addysgol o unrhyw fath.</p> <p>(3) Yn is-adran (1), ystyr "addysg feithrin" yw addysg sy'n addas i blentyn sydd wedi cyrraedd tair oed ond sydd o dan yr oedran ysgol gorfodol.</p>
<b>Darparwr gwasanaethau</b>	Yr awdurdod lleol neu'r corff GIG sy'n gyfrifol am ddarparu gofal a/neu gymorth i unigolyn.
<b>Deddf GIG (Cymru) 2006</b>	Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006
<b>Eiriolaeth</b>	Y broses o gefnogi a galluogi pobl i leisio barn a phryderon
<b>Gofal Iechyd Eilaidd</b>	Gofal iechyd a ddarperir gan ysbytai. Profion, diagnosteg a thriniaeth a oruchwylir gan arbenigwr fel arfer.
<b>Gofal Iechyd Trydyddol</b>	Gofal iechyd arbenigol gan gynnwys Ymddiriedolaethau'r GIG.
<b>Gwasanaethau am oes</b>	Gwasanaethau iechyd a gofal o'r crud i'r bedd.

---

## Term

## Ystyr

---

### **Gwasanaethau ataliol**

Gwasanaethau a all gael eu darparu o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a fydd, er enghraifft, yn bodloni'r dibenion a ganlyn:

- Cyfrannu at atal neu ohirio datblygiad anghenion pobl am ofal a chymorth;
- Lleihau anghenion gofal a chymorth pobl sydd ag anghenion o'r fath;
- Hyrwyddo magwraeth plant gan eu teuluoedd, lle bo hynny'n gyson â llesiant plant;
- Lleihau effaith eu hanabledau ar bobl anabl;
- Cyfrannu at atal pobl rhag cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso.

---

### **Gwasanaethau gofal sylfaenol**

Mae'r rhain yn cynnwys meddygon teulu ynghyd â fferylliaeth, deintyddiaeth ac optometreg. Maent hefyd yn cydlynu mynediad pobl at ystod eang o wasanaethau yn y gymuned leol er mwyn helpu i ddiwallu eu hanghenion iechyd a llesiant.

Mae'r gwasanaethau cymunedol hyn yn cynnwys nyrsys cymunedol ac ardal, bydwragedd, ymwelwyr iechyd, timau iechyd meddwl, timau hybu iechyd, ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol, podiatryddion, gwaedwyr, parafeddygon, gwasanaethau cymdeithasol, staff eraill awdurdodau lleol a'r holl bobl hynny sy'n gweithio ac yn gwirfoddoli mewn sefydliadau gwirfoddol sy'n cefnogi pobl yn ein cymunedau.

---

### **Grwpiau ymgysylltu / rhanddeiliad**

Ar hyn o bryd mae llawer o grwpiau llwyddiannus eisoes wedi'u sefydlu ond fe'u gelwir yn enwau gwahanol h.y. grwpiau cymorth, grwpiau cymdeithasol, grŵp ymgysylltu, grwpiau cyfoedion. Mae'r rhain mewn sefyllfa ddelfrydol i greu sgysiau ynghylch darparu gwasanaethau (da a lle mae angen gwelliannau) ac anghenion nas diwallwyd. Gall y trefnwyr/hwyluswyr gasglu'r wybodaeth hon a'i hadrodd i aelodau'r grŵp strategol.

---

### **Gwasanaethau plant ac oedolion**

Mae'r oedran y caiff plentyn ei drin fel oedolyn yn wahanol yn dibynnu ar ba ddeddfwriaeth sy'n cael ei hystyried. At ddibenion y Cod, bydd y cyfnod pontio o blentyn i oedolyn yn 18 oed.

---

### **Gwybodaeth a Chymorth**

Gall hyn fod yn wybodaeth ffisegol fel taflenni, llyfrau a chyhoeddiadau yn ogystal â ffynonellau rhithwir fel cyfeirio at wefannau.

---



Term	Ystyr
<b>Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth</b>	Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnig pwynt cyswllt cyntaf gyda'r system gofal a chymorth. Drwy gyfeirio ac atgyfeirio, mae gweithwyr Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth yn gallu rhoi dewisiadau i unigolion ynglŷn â'r cymorth a'r gwasanaethau sydd ar gael yn eu hardal, gan roi cyfle iddynt drafod yr opsiynau a chael cyngor ar yr hyn sy'n fwyaf tebygol o ddiwallu eu hanghenion gofal a chymorth penodol, yn ogystal â thrafod pa adnoddau sydd gan yr unigolyn ei hun i sicrhau'r cymorth hwn. Mae'r gwasanaeth yn agored i bawb, beth bynnag fo'u hamgylchiadau.
<b>Gwybodaeth sydd ar gael ar gyfer asesiad</b>	Adroddiadau addysgol, adroddiadau seicolegol, adroddiadau meddygon teulu, arsylwadau rhieni/gofalwyr, safbwynt yr unigolyn.
<b>Hunaneiriolaeth</b>	Y sgiliau a'r wybodaeth i fynegi eu llais a'u pryderon eu hunain.
<b>Hyrwyddwr Awtistiaeth</b>	Fel arfer, berson a nodwyd sydd eisoes yn aelod o'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol. Bydd gan y person hwn ddealltwriaeth o anghenion y gymuned awtistig a bydd yn eiriolwr dros bobl awtistig wrth ddatblygu gwasanaethau lleol.
<b>Llwybr</b>	Mae llwybrau yn cael eu darparu ar draws y gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol er mwyn mapio ein teithiau iechyd, gofal a chymorth, lle mae'r camau gwahanol y gall unigolyn eu cymryd yn cael eu diffinio a'u dilyn.
<b>Llwybrau asesu</b>	Dull amlddisgyblaethol/asiantaeth sy'n nodi'r tasgau neu ymyriadau gwahanol i'w cymryd gan weithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â gofal person i sicrhau'r canlyniadau a'r cymorth gorau posibl. Bydd hyn yn sicrhau bod anghenion niwroddatblygiadol yr unigolyn a'i deulu/gofalwyr yn cael eu diwallu.
<b>NICE (Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal)</b>	Mae NICE yn creu argymhellion seiliedig ar dystiolaeth sy'n cael eu datblygu gan bwyllgorau annibynnol sy'n cynnwys gweithwyr proffesiynol ac aelodau lleyg, cyn ymgynghori arnynt gyda rhanddeiliaid.

Term	Ystyr
<b>Pasbort Iechyd</b>	<p>Wedi'i gynllunio i helpu pobl awtistig i gyfleu eu hanghenion i feddygon, nyrsys a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill. Wrth fynychu apwyntiad iechyd neu</p> <p>pan gânt eu derbyn i'r ysbyty am driniaeth dylid gwneud trefniadau i'r pasbort fod gyda'r person a'i roi i'r ymarferwr sy'n gyfrifol am ofal y person. Dylid cadw'r pasbort gyda nodiadau'r person bob amser. Pasbort Iechyd</p>
<b>Pontio</b>	<p>Yn aml, bydd symudiad o wasanaethau plant i wasanaethau i oedolion neu o wasanaethau diogel i rai cymunedol, yn dibynnu ar oedran a sefyllfa'r unigolyn. Rhaid i'r gwasanaethau hyn gydweithio â'i gilydd a rhaid i'r llwybrau fod mor gydnaws a chyson â phosibl.</p>
<b>Proffiliau Personol</b>	<p>Nod proffil personol yw rhoi'r darlun cyfredol mwyaf manwl o gryfderau a gwendidau unigolyn. O'r wybodaeth hon gellir gwneud addasiadau rhesymol i hwyluso gwell profiadau gwasanaeth i'r unigolyn.</p>
<b>Pwynt cyswllt cyntaf</b>	<p>Dyma'r unigolyn cychwynnol i drafod y pryder am awtistiaeth. Gellir bod o wasanaeth ofal brys, yn delio a galwadau 111, neu derbynnydd gwasanaeth er enghraifft awdurdod lleol neu feddygaeth teulu.</p>
<b>Sefydliadau diogel</b>	<p>Mae sefydliadau diogel (neu'r ystad ddiogeledd) yn cynnwys carchardai, safleoedd cymeradwy, llety mechniaeth a llety cadw pobl ifanc.</p>
<b>Sgiliau cymdeithasol a chyfathrebu cilyddol</b>	<p>Trafferthion â rhyngweithio a sgysiau cymdeithasol cilyddol. Anawsterau gan gynnwys meddiannu sgwrs a siarad yn fanwl am ddiddordebau neu ymateb i gwestiynau gydag atebion byr a phenodol, heb ymhelaethu. Efallai bydd yr unigolyn yn cael trafferth gofyn cwestiynau perthnasol er mwyn cael gwybodaeth am eraill ac yn dangos anhawster o ran ymateb i, adnabod a dehongli bwriadau cymdeithasol a chyflyrau emosiynol eraill.</p>
<b>Treiddioldeb</b>	<p>Yn bresennol drwyddi draw ac yn effeithio ar bob agwedd neu sawl agwedd ar fywyd unigolyn.</p>
<b>Un man cyswllt</b>	<p>Un man yn benodol o fewn gofal iechyd neu ofal cymdeithasol sy'n derbyn a gweithredu cyfeirebau asesi/ diagnosis awtistiaeth i blant / pobl ifanc ac oedolion.</p>

Term	Ystyr
<b>Ymarferwyr</b>	Unigolion sy'n cefnogi pobl awtistig.
<b>Ymddygiad heriol</b>	Mae'r term yn disgrifio amrediad o ymddygiadau sy'n amharu ar y bobl eu hun neu'r bobl o'u cwmpas ac yn gallu gosod eu hunain ac eraill mewn perygl neu ymddygiad sy'n atal defnydd o, neu hawl wedi'i rhwystro i gyfleuster cymunedol.
<b>Y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant</b>	Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.